# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:
**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**
Dyddiad: Dydd Mercher, 25 Hydref 2023
Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
**Naomi Stocks**
Clerc y Pwyllgor
0300 200 6565
SeneddPlant@senedd.cymru

---

## Rhag-gyfarfod preifat

(09.15 - 09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? - Sesiwn dystiolaeth 7

(09.30 - 10.30) (Tudalennau 1 - 17)

Sharon Davies, Pennaeth Addysg, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Catherine Davies, Swyddog Polisi ADY, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a chynrychiolydd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru

Liz Jones, Arweinydd Cynhwysiant Cyngor Bro Morgannwg a chynrychiolydd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru

**Dogfennau atodol:**
Briff Ymchwil

## Egwyl

(10.30 - 10.40)

## 3 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? - Sesiwn dystiolaeth 8

(10.40 - 11.20)

Catherine Falcus, Arbenigwr Polisi ac Arweinyddiaeth, Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru

## 4 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? – Sesiwn dystiolaeth 9

(11.20 – 12.20) (Tudalennau 18 – 30)

Mary van den Heuvel, Uwch Swyddog Polisi Cymru, yr Undeb Addysg Genedlaethol

Mike O'Neill, Aelod o Fforwm Trefnu'r Undeb Addysg Cenedlaethol, a chynrychiolydd yr Undeb Addysg Cenedlaethol ar gyfer Merthyr

Ioan Rhys Jones, Ysgrifennydd Cyffredinol, Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)

Urtha Felda, Swyddog Polisi a Gwaith Achos, Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau

**Dogfennau atodol:**

Papur – Cyd-undebau llafur

Papur – Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)

Papur – Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru (Saesneg yn unig)

## 5 Papurau i'w nodi

(12.20)

### 5.1 Gwybodaeth gan Randdeiliaid

(Tudalennau 31 – 45)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Bennaeth Cymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

### 5.2 Gwybodaeth gan Randdeiliaid

(Tudalen 46)

**Dogfennau atodol:**

Gwybodaeth gan Parents Voices in Wales CIC (Saesneg yn unig)

### 5.3 P-06-1347 Adolygu polisïau anghenion dysgu ychwanegol a'i gwneud yn orfodol i hyfforddi pob athro a chynorthwyydd addysgu mewn technegau rheoleiddio YN LLAWN

(Tudalen 47)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau

### 5.4 Cyllideb Llywodraeth Cymru 2023-24

(Tudalennau 48 – 50)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg

**5.5 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25**

(Tudalennau 51 - 56)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

**5.6 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25**

(Tudalennau 57 - 68)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog y Gymraeg ac Addysg

**5.7 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25**

(Tudalennau 69 - 71)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog yr Economi

**5.8 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25**

(Tudalennau 72 - 74)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Anabledd Cymru (Saesneg yn unig)

**5.9 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25**

(Tudalennau 75 - 110)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

**5.10 Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical**

(Tudalennau 111 - 115)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc at y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

**5.11 Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical**

(Tudalennau 116 - 119)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru

**5.12 Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical**

(Tudalennau 120 - 121)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

5.13 **A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?**

(Tudalennau 122 - 135)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

5.14 **Blaenraglen Waith**

(Tudalennau 136 - 152)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Llefarydd Addysg ar gyfer Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

5.15 **Cymorth Iechyd Meddwl mewn Addysg Uwch**

(Tudalennau 153 - 155)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn.

(12.20)

## 7 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? - Trafod y dystiolaeth

(12.20 - 12.30)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Cyflwynwyd yr ymateb hwn i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gyfer yr ymchwiliad: A oes gan blant a phobl ifanc anabl fynediad cyfartal at addysg a gofal plant?**

**This response was submitted to the Children, Young People and Education Committee for the inquiry: Do disabled children and young people have equal access to education and childcare?**

**AEC 69**

**Ymateb gan: Cyd-undebau llafur**
**Response from: Joint trade union**

---

# Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

## Safbwyntiau cyd-undebol – Mai 2023

### Cefndir

Yn dilyn cyflwyno Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), mae gweithwyr addysg proffesiynol wedi wynebu heriau sylweddol o ran gweithredu.

Mae'r diwygiadau i ddeddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) wedi bod yn eang, ac wedi cael effaith enfawr ar y system addysg yng Nghymru, ar adeg pan fo newidiadau systemig sylweddol eraill, gan gynnwys cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r undebau llafur ar y cyd yn cytuno â'r egwyddorion y tu ôl i'r ddeddfwriaeth, a byddent yn gwerthfawrogi system gydag ymyrraeth gynnar a chymorth i blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, neu a allai fod ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, dim ond os oes gweithwyr addysg proffesiynol yno i'w cefnogi a ddim yn treulio amser gwerthfawr yn cwblhau gwaith papur, pan allent fod yn cefnogi plant a phobl ifanc y mae "ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol"[1] yn bosibl.

Mae Data Cyfrifiad Ysgolion 2022[2] yn dangos bod tua 18,000 yn llai o blant wedi'u nodi fel rhai ag anghenion dysgu ychwanegol nag o dan y system flaenorol, a:

> "Gofynnwyd i ysgolion […] roi'r gorau i ddefnyddio'r categori 'Anawsterau dysgu cyffredinol' ac i ailasesu categori priodol o angen ar gyfer disgyblion o'r fath."

Er hynny, bydd angen cymorth o hyd ar y plant a'r bobl ifanc hyn.

---

[1] https://www.llyw.cymru/anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-memorandwm-esboniadol
[2] https://www.llyw.cymru/canlyniadaur-cyfrifiad-ysgolion-chwefror-2022-html

Isod rydym wedi nodi cyfres o feysydd y mae angen mynd i'r afael â hwy ar frys er mwyn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc, a rhyddhau'r gweithlu i ganolbwyntio ar "ymyriadau effeithiol".

**Ariannu**
Dywed ein haelodau wrthym fod trefniadau ariannu amrywiol ar waith ledled Cymru, er mwyn cael cymorth i blant ag ADY. Mae nifer fach o aelodau yn dweud wrthym fod ysgolion yn cael cefnogaeth dda gyda cheisiadau am gymorth i blant ag anghenion dysgu ychwanegol, tra bod eraill yn dweud wrthym fod pwysau i arbed arian.

Dylai cyllid fod yn glir, ac mae mynediad cyffredinol at wasanaethau cymorth arbenigol yn hollbwysig i helpu i nodi anghenion plentyn a dylai'r ddarpariaeth gywir ar eu cyfer fod ar gael i bob ysgol.

Ymhellach, os bydd athro'n penderfynu (a'u dyletswydd yw 'penderfynu' o fewn y Ddeddf) bod angen darpariaeth ddysgu ychwanegol benodol ar blentyn ag ADY, yna mater i'r awdurdod lleol ei ariannu. Ni allwn gael sefyllfa lle mae ysgolion yn cael eu hatal rhag nodi anghenion dysgu ychwanegol plentyn.

**Baich Gwaith**
Rydym yn croesawu bod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yr effaith y mae gweithredu'r Ddeddf yn ei chael ar faich gwaith staff ar draws y sector addysg, ac fel rhan o'r fargen gyflog, wedi cytuno i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i'r perwyl hwn. Rydym wedi cyflwyno tystiolaeth helaeth i'r tîm Gweithredu ADY yn Llywodraeth Cymru am yr heriau o ran baich gwaith y mae'r Ddeddf yn eu creu.

Mae aelodau'n dweud wrthym yn gyson nad oes modd rheoli'r baich gwaith, ac maent am ganolbwyntio ar ddarparu'r ymyriadau cynnar i blant, sydd i fod yn un o nodau craidd y Ddeddf, yn hytrach na chwblhau gwaith papur, heb ddigon o amser, hyfforddiant, neu adnodd.

Mae angen sefydlu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar frys, a rhaid i bob undeb llafur gael ei gynrychioli arno. Mae angen i leisiau ein haelodau gael eu clywed ar y mater hollbwysig hwn. Maent am gefnogi plant a phobl ifanc, ac mae mynd i'r afael â'r argyfwng baich gwaith o ran diwygio ADY yn hollbwysig i hyn.

**Rôl Cydlynydd ADY**
Rydym yn hynod o bryderus ynghylch yr anghysondebau presennol o ran dyraniad digyswllt, tâl a dyletswyddau rôl newydd y Cydlynydd ADY. Os yw'r Ddeddf am gyflawni ei nodau a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer

plant ag anghenion dysgu ychwanegol, yna mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gydnabod yr heriau sylweddol a mynd i'r afael â nhw.

Er ein bod yn croesawu ymrwymiad y Llywodraeth i adolygu'r materion hyn, mae'n hollbwysig bod ysgolion yn cael eu galluogi (gan gynnwys rhai a ariennir) i dalu Cydlynwyr ADY yn briodol am y rôl bwysig a sylweddol y maent yn ei chyflawni. Mae angen i Gydlynwyr ADY weld gweithredu cyflym ar hyn, ac fel undebau llafur, rydym yn rhagweld cyfranogiad llawn yn yr ymateb cyflym i waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

**Cynnwys iechyd**
Ar hyn o bryd mae yna anghydbwysedd dyletswyddau o fewn y ddeddfwriaeth, sy'n golygu bod cyrff iechyd yn eu hanfod mewn trefniant gwirfoddol, ac nad oes rhaid iddynt gefnogi ysgolion nac awdurdodau lleol i nodi ADY a sicrhau Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY), hyd yn oed pan fo angen mewnbwn gan gyrff iechyd ar blant er mwyn cael mynediad at eu dysgu oherwydd bod ganddynt gyflwr penodol.

Dywed aelodau wrthym nad yw dyletswydd i wneud penderfyniad heb fewnbwn gan wasanaethau iechyd a gwasanaethau ALl yn gweithio, a dylid gorfodi iechyd i ddarparu gwybodaeth i lywio penderfyniadau ar ADY a darparu DDdY mewn modd cyson ac amserol.

I rai pobl ifanc, mae eu hanghenion meddygol yn cael effaith aruthrol ar eu hanghenion dysgu, ac ni all ysgolion yn unig gefnogi plant heb fewnbwn gan iechyd – gan gynnwys cymorth hanfodol CAMHS, sydd angen sicrhau ei fod yn gallu darparu cymorth amserol i'n plant a'n pobl ifanc, er mwyn eu helpu i gael mynediad at eu haddysg.

Mae'n ymddangos yn ddryslyd i'n haelodau bod gan Loegr Gynlluniau Addysg a Gofal Iechyd (EHCPs)[3], ond nid oes unrhyw ddyletswyddau sylweddol ar iechyd yng Nghymru, er bod gan y GIG adnoddau sylweddol, o gymharu ag ysgolion a cholegau.

**Asesiadau statudol**
Byddai ein haelodau'n croesawu asesiadau statudol, a gynhelir gan yr awdurdod lleol ar gais ysgolion neu rieni. Nid yw'r ddyletswydd bresennol i benderfynu a oes gan blentyn ADY yn cwmpasu cymhlethdod anghenion rhai plant. Dylai awdurdod lleol benderfynu ar

---

[3] "Mae Adran 42 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 yn creu dyletswydd gyfreithiol ar y CCG i sicrhau bod y ddarpariaeth gofal iechyd a nodir yn y cynllun EHC ar gael i'r plentyn neu berson ifanc."
https://councilfordisabledchildren.org.uk/sites/default/files/uploads/files/Health%20duties.pdf

CDU y rheini ag anghenion mwy cymhleth a gofalu amdanynt, ond nid oes trothwy clir ar gyfer hyn.

Dylai plant ag anghenion dysgu ychwanegol dwys gael asesiad statudol, a gynhelir gan bobl ag arbenigedd priodol. Mae'r ddyletswydd i benderfynu ar gyfer ysgolion/Cydlynwyr ADY yn ddyletswydd anghymesur, sy'n gosod gormod o gyfrifoldeb ar ysgolion ac athrawon unigol. Mae ein haelodau'n credu y byddai asesiadau annibynnol yn helpu i sicrhau eglurder o fewn y system, a dylent gynnwys canllawiau clir ar gyfer pryd y mae awdurdod lleol yn gyfrifol am gynllun.

**Dyletswyddau ar awdurdodau lleol**

Mae'r ddyletswydd i benderfynu ar ADY a DDdY ar gyfer ysgolion/ Cydlynwyr ADY yn ddyletswydd anghymesur, sy'n gosod gormod o gyfrifoldeb ar ysgolion ac athrawon unigol.

Mae ein haelodau'n credu y dylai fod gan awdurdodau lleol ddyletswyddau clir, ac na ddylent allu trosglwyddo penderfyniadau yn ôl i ysgolion a'u cyfarwyddo ynghylch yr ADY y dylent ei ddarparu, heb gymorth clir, gan gynnwys cymorth ariannol. Mae hyn yn rhoi gormod o bŵer yn nwylo awdurdodau lleol.

Mae angen i awdurdodau lleol fod yn rhan o atebion rhagweithiol ar gyfer plant ag ADY, a helpu i ddarparu'r DDdY na all ysgolion yn unig ei wneud, yn hytrach na dim ond penderfynu bod yn rhaid i ysgolion ddod o hyd i'r ateb. Byddai gweithio'n fwy colegol i ddod o hyd i ateb yn helpu i gyflawni nodau diwygio ADY.

**Cynllun Datblygu Unigol**

Ar hyn o bryd mae'r broses creu CDU yn un hir a rhwystredig, ac yn achosi heriau baich gwaith sylweddol i'n haelodau. Er bod y nod i osgoi perthynas wrthwynebus rhwng rhieni, ysgolion ac awdurdodau lleol yn bwysig, nid yw'r system bresennol yn gweithio.

Mae llawer o aelodau'n dweud wrthym ei bod yn cymryd 7 awr i gwblhau un cynllun, gydag athrawon yn cael trafferth cydlynu'r holl arbenigwyr hanfodol sydd angen bwydo i mewn, cyn gorfod arfer eu dyletswydd i benderfynu.

Gwyddom fod llawer o blant ddim wedi cael CDU a oedd yn flaenorol ar gynllun 'Gweithredu gan yr Ysgol' neu 'Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy'. Mae'r ymarferwyr wedi cael eu hannog i wneud darpariaeth ar gyfer y plant hyn y tu allan i'r system CDU[4].

[4] https://www.llyw.cymru/canlyniadaur-cyfrifiad-ysgolion-chwefror-2022-html

Credwn y byddai cynllun byrrach, anstatudol ar gyfer y plant hynny nad oes ganddynt ADY, ond y gallai fod angen rhywfaint o gymorth ychwanegol arnynt yn yr ysgol, gan gynnwys materion ymddygiadol, o fudd i blant a'u rhieni fel eu bod yn gwybod pa gymorth y maent yn ei gael, tra'n rhyddhau athrawon rhag ysgrifennu CDUau hir.

**Hyfforddiant**
Mae angen gwell hyfforddiant ar y system ADY newydd i bawb ar draws addysg – gan gynnwys athrawon a staff cymorth. Er bod rhai pocedi o arfer da, dywed aelodau wrthym nad yw pawb wedi cael mynediad at yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt i wreiddio'r system mewn ysgolion.

Dywed yr aelodau wrthym fod angen mwy o hyfforddiant arnynt ar gwblhau CDU, ac maent yn ymwybodol iawn bo CDU yn ddogfen gyfreithiol y maent yn credu y dylai gael ei chwblhau gan rywun â hyfforddiant cyfreithiol.

Dywed ein haelodau wrthym fod angen mwy o hyfforddiant arnynt ar addysgu cynhwysol yn arbennig, fel y gallant sicrhau bod y "ddarpariaeth gyfannol" y maent yn ei ddarparu yn darparu ar gyfer ystod o anghenion dysgu ar draws eu dosbarthiadau, sef un o nodau Cwricwlwm i Gymru.[5]

Mae angen hyfforddiant penodol ar benaethiaid ar y gofynion o dan y system ADY, a'u rôl yn hwyluso ymgysylltiad ysgol gyfan wrth weithredu'r system newydd. Er enghraifft, mae angen i benaethiaid fod yn ymwybodol o'r angen i ryddhau athrawon dosbarth i gymryd rhan mewn cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol ac i gwblhau'r CDU.

**Cyfnod gweithredu hirach**
Mae aelodau wedi croesawu'r cyfnod gweithredu hirach ar gyfer plant sy'n symud i'r system newydd, a gyhoeddwyd gan y Gweinidog ym mis Mawrth[6]. Mae hyn yn golygu bod mwy o amser ar gael i ymarferwyr symud plant a phobl ifanc i'r system newydd mewn ffordd ystyrlon.

Fodd bynnag, mae'n werth adlewyrchu bod ein haelodau wedi dweud wrthym fod angen cyfnod cyflwyno llawer arafach arnynt – mewn gwirionedd gofynasant am flwyddyn ar gyfer pob grŵp blwyddyn yn yr ysgol. Os ydym am wneud hyn yn dda, yna mae angen inni sicrhau bod gan y gweithlu addysg y gofod a'r amser i roi'r Ddeddf ar waith – gan gynnwys y broses CDU hir.

---

[5] https://www.llyw.cymru/canlyniadaur-cyfrifiad-ysgolion-chwefror-2022-html
[6] https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-1

**Cyflwynwyd yr ymateb hwn i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gyfer yr ymchwiliad: A oes gan blant a phobl ifanc anabl fynediad cyfartal at addysg a gofal plant?**

**This response was submitted to the Children, Young People and Education Committee for the inquiry: Do disabled children and young people have equal access to education and childcare?**

**AEC 67**

**Ymateb gan: Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru**
**Response from: Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru**

---

1. *I ba raddau y mae plant a dysgwyr yn gallu cael mynediad at bob rhan o ddarpariaeth gofal plant ac addysg ar hyn o bryd, gan gynnwys y ffordd y caiff y cwricwlwm ei addysgu yn ogystal â gweithgareddau allgyrsiol?*

   Yn gyffredinol, gallwn ddweud fod y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) wedi gwella'r sefyllfa o ran sicrhau cyfleoedd cyfartal a mynediad cyfartal i blant a dysgwyr anabl. Mae'r ffaith fod sylw'n cael ei roi i broblemau plant ynghynt, gan fod y Ddeddf yn cwmpasu pobl rhwng 0 a 25 oed, wedi hwyluso pethau. Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn rhoi pwyslais ar gynllunio 'plentyn-ganolog', felly mae hynny'n fanteisiol wrth gynllunio ar gyfer disgyblion anabl. Rydym yn ymwybodol, fodd bynnag, ei bod hi'n gallu bod yn heriol i blant anabl gael mynediad at glybiau ar ôl ysgol mewn rhai ardaloedd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Mae disgyblion anabl yn ddibynnol ar gludiant penodol ac nid oes modd newid amserau tacsis ayb oni bai fod pawb yn y tacsi yn dymuno mynychu'r clwb. Fel arall, byddai rhieni yn gorfod casglu disgyblion a byddai hynny yn golygu teithio milltiroedd lawer yn achos rhai. Yn ogystal, mae unrhyw ddarpariaeth a gynigir y tu hwnt i oriau ysgol yn golygu oblygiadau ariannol i ysgolion, gan mai'r ysgol ac nid yr awdurdod lleol sy'n gorfod ariannu unrhyw 'addasiadau rhesymol' y mae'n rhaid eu gwneud ar gyfer gweithgareddau sy'n digwydd y tu hwnt i oriau ysgol.

2. *I ba raddau y mae plant a phobl ifanc wedi'u heithrio o agweddau penodol ar addysg neu ofal plant oherwydd eu hanabledd neu niwrowahaniaeth?*

   Mae ysgolion yn gwneud popeth o fewn eu gallu i gynnwys disgyblion mewn gweithgareddau prif ffrwd. Mae rhai ysgolion wedi bod yn greadigol iawn yn y modd y maent wedi cynnwys disgyblion anabl yn y

gweithgareddau prif ffrwd hynny.  Mewn rhai sefyllfaoedd, hyd yn oed, mae'r anabledd wedi ei ddefnyddio'n gyfle i gynnig cyfleoedd a dyfnhau dealltwriaeth o anableddau e.e. disgybl yn arwyddo (BSL) mewn cyngerdd ysgol .   Rhaid nodi pryder, fodd bynnag, fod rhai plant a phobl ifanc anabl wedi eu hamddifadu o addysg cyfrwng Cymraeg oherwydd diffyg adnoddau neu fethiant i gynnig darpariaeth benodol drwy gyfrwng y Gymraeg.

3. *I ba raddau y mae teuluoedd a phlant yn teimlo bod gwahaniaethu uniongyrchol, gwahaniaethu anuniongyrchol neu wahaniaethu yn seiliedig ar anabledd wedi effeithio arnynt?*

   Mae'r her o ofalu am blant ag anabledd yn ei gwneud hi'n anodd i rieni fynd i chwilio am y cyfleoedd sydd ar gael iddynt.  Po ddwysaf yr anabledd, po anoddaf yw hyn.  Mae'n rhaid cydnabod fod y geiriau 'addasiadau rhesymol' wedi gwneud gwahaniaeth ac wedi sicrhau bod pethau wedi gwella i blant a phobl ifanc ag anabledd, eto mae'r geiriad 'addasiadau rhesymol' yn oddrychol iawn ac yn agored i gael ei ddiffinio mewn ffyrdd gwahanol.  Elfen arall sydd wedi cyfrannu at wella'r sefyllfa yw'r ffaith fod rhieni a phlant bellach yn teimlo eu bod yn rhan o'r broses o lunio CDU ac o sicrhau bod yna ddarpariaeth briodol ar eu cyfer.

4. *Effaith unrhyw ddiffyg mynediad neu fynediad cyfyngedig ar iechyd meddwl a llesiant plentyn neu berson ifanc, yn ogystal ag ar ganlyniadau addysgol.*

   Mae tystiolaeth bod diffyg cyfleoedd yn gallu effeithio ar iechyd meddwl rhai unigolion anabl, yn enwedig pobl ifanc sydd o oedran ysgol uwchradd. Maent yn teimlo'n rhwystredig na allant gymdeithasu fel eu cyfoedion, gan nad ydynt yn gallu mynd i lefydd yn annibynnol ac mae cymdeithasu gyda chyfoedion mor bwysig i bobl ifanc yr oedran hwn.  Gall y problemau hyn arwain at broblemau ar y cyfryngau cymdeithasol.  Mae 'cymdeithasu' ac ymwneud â'i gilydd ar y cyfryngau cymdeithasol yn gallu peri problemau i bobl ifanc anabl, gan fod rhai ohonynt yn ei chael hi'n anodd iawn gwahaniaethu rhwng ffaith a ffantasi.

5. *Y rhwystrau sy'n atal ysgolion a darparwyr gofal plant rhag cynnig darpariaeth hygyrch.*

   Mae yna amrywiaeth o rwystrau sy'n atal ysgolion a darparwyr gofal plant rhag cynnig darpariaeth hygyrch.  Yn eu plith mae'r canlynol:

- Mae bod yn fwy cynhwysol yn cymryd amser – mae angen amser i gwblhau asesiadau risg a sicrhau staffio a chefnogaeth addas.
- Diffyg cyllid.
- Weithiau mae'n anodd dod o hyd i ymgeiswyr addas, y bobl â'r arbenigedd angenrheidiol. Gall recriwtio a chadw fod yn broblem. Mae'r cyflogau yn aml yn isel.
- Mae cynnig cymorth cynnar yn bwysig – mae hyn yn haws mewn ysgolion gydol oed ac yn enwedig pan fo ysgol feithrin yn yr un adeilad.
- Cymorth ariannol ddim yn dilyn y disgybl o'r meithrin i'r ysgol e.e gwybodaeth a dderbyniwyd oddi wrth CADY mewn un ALl:

  *Mae plant yn gallu dechrau yn y Cylch Meithrin y diwrnod mae'n nhw'n dathlu eu penblwydd yn ddwy. Os ydyn nhw'n byw yn ardal Dechrau'n Deg mae'r cynllun yma yn gallu talu am 'ddwylo ychwanegol' ar gyfer plant sydd ag anghenion.*

  *Mae'r plant yn dechrau gyda ni yn y dosbarth Meithrin y tymor ar ôl iddynt ddathlu eu penblwydd yn dair oed, nid yw'r ddarpariaeth 'dwylo ychwanegol' yn trosglwyddo i'r ysgol.*

  *Yn y Cylch mae plentyn yn derbyn CDU/IDP sy'n nodi bod angen 'dwylo ychwanegol' (sef cymorth 1:1) fodd bynnag nid yw'r cymorth hynny yn cael ei drosglwyddo i'r ysgol, mae hyn yn ein gosod ni fel ysgol mewn lle bregus gan nad oes modd i ni gwrdd â'r deilliannau o fewn y CDU/IDP sydd yn torri'r cytundeb cyfreithiol.*

- Natur adeiladau rhai ysgolion yn gallu bod yn heriol.
- Pan fo'r dalgylch yn eang ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol, weithiau mae'r niferoedd yn rhy isel (oherwydd problemau cludiant) sy'n golygu nad yw'r gweithgareddau'n cael eu cynnal
- Ysgolion yn nodi eu bod yn gorfod rhannu gwybodaeth am weithgareddau ar ran eraill ac mae hyn yn gallu bod yn dreth ar amser
- Diffyg hyfforddiant digonol i staff – mae anableddau mor amrywiol
- Gwaith papur yn cynyddu llwyth gwaith athrawon – mae eu hamser yn cael ei lyncu gan y gofynion biwrocrataidd ac yn eu rhwystro rhag canolbwyntio ar ddarparu ymyriadau cynnar i blant.

6. *I ba raddau yr ymgynghorir â phlant anabl a phlant niwrowahanol a'u teuluoedd am y dewisiadau addysg neu ofal plant sydd ar gael iddynt, ac i ba raddau y maent yn cael eu hysbysu ynghylch y dewisiadau hynny?*

Ar y cyfan, ymgynghorir â phlant anabl a phlant niwrowahanol a'u teuluoedd am y dewisiadau addysg neu ofal plant sydd ar gael iddynt. Tybed, fodd bynnag, a yw eu hawl i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei wneud yn ddigon eglur i'r plant a'u teuluoedd? A yw pawb yn ymwybodol o'r hawl i gael darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg?

7. *A yw rhieni plant anabl a phlant niwrowahanol, a'r plant eu hunain, yn cael gwybodaeth a chymorth effeithiol gan awdurdodau lleol ac ysgolion?*

   Ymddengys fod tipyn o amrywiaeth o ran y ddarpariaeth o awdurdod lleol i awdurdod lleol ac rydym yn awyddus i weld mwy o gysondeb yn hyn o beth. Nododd rhai athrawon hefyd nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael hyfforddiant arbenigol digonol. Mae'r ystod o anabledd yn eang iawn ac mae angen hyfforddiant 'arbenigol' iawn ar gyfer rhai unigolion.

8. *A oes gan blant anabl a niwrowahanol, a rhieni'r plant hyn, yr un lefel o ddewis â phlant a rhieni eraill, a pha faterion sy'n effeithio ar y dewis sydd ar gael o ran ysgolion neu ofal plant?*

   Wrth edrych ar y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA), daw'n gwbl glir nad yw plant anabl a niwrowahanol a rhieni'r plant hynny sy'n dymuno derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn wynebu'r un lefel o ddewis â phlant a rhieni eraill. Ymysg y problemau real iawn sy'n wynebu plant anabl a rhieni plant anabl sy'n dymuno cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, mae prinder gweithlu cyfrwng Cymraeg, prinder adnoddau, diffyg asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg a diffyg cysondeb mewn trefniadau cydweithio rhanbarthol. O ran egwyddor, dylid cymryd 'pob cam rhesymol' i gynnig darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r egwyddor y tu cefn i 'pob cam rhesymol' yn agored i ddehongliad ac yn fater goddrychol iawn. Er mwyn sicrhau yr un lefel o ddewis drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, oni ddylid gosod 'dyletswydd absoliwt' i ddarparu'n ddwyieithog, gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin ar yr un lefel? Dylid cofio am Erthygl 30 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sy'n nodi bod gan blant yr hawl i ddewis iaith.

   ***Yn y Gwladwriaethau hynny lle mae lleiafrifoedd ethnig, crefyddol neu ieithyddol neu bersonau o darddiad brodorol yn bodoli, rhaid peidio â gwrthod hawl i blentyn sy'n perthyn i'r lleiafrif hwnnw, neu sy'n frodor, i fwynhau mewn cymuned ag aelodau eraill o'i grŵp, ei ddiwylliant ei hun, i broffesu ac arfer ei grefydd ei hun, neu i ddefnyddio ei iaith ei hun.***

Mae nifer o'r ALl yn nodi yn y CSCA nad oes ganddynt ddigon o staff cyfrwng Cymraeg sy'n gallu darparu ADY. Darllenir hefyd am ddisgyblion ag ADY yn gadael addysg cyfrwng Cymraeg am nad oes adnoddau cyfrwng Cymraeg addas i gefnogi amrywiaeth o anghenion – mewn un awdurdod lleol cyfeirir at bum disgybl yn ystod y tair blynedd ddiwethaf yn gadael addysg cyfrwng Cymraeg i gael mynediad i ddarpariaeth dosbarth cynnal dysgu arbenigol. Mae angen mynd i'r afael â materion o'r fath, er mwyn sicrhau tegwch a chyfle cyfartal i bob unigolyn.

9. *I ba raddau y mae'r ddarpariaeth ar gyfer plant sydd â gwahanol fathau o anableddau yn ddigonol?*
   Mae cyfeiriadau penodol yn y CSCA at fethu recriwtio staff i feysydd fel nam ar y synhwyrau a lleferydd ac iaith. Nodir hefyd nad oes canolfannau adnoddau arbenigol ynghlwm wrth ysgolion Cymraeg mewn rhai awdurdodau lleol.
   Trist yw darllen nad oes cydraddoldeb yn bodoli ar hyn o bryd ac nad oes gweithwyr proffesiynol arbenigol sy'n rhugl eu Cymraeg ar gael ar gyfer pob sefyllfa. Rydym yn deall yr her sy'n bodoli o ran recriwtio, ond eto'n teimlo'n gryf mai hawl sylfaenol ein plant a'n pobl ifanc anabl yw cael yr un lefel o ddarpariaeth â'u cymheiriaid sy'n dewis addysg drwy gyfrwng y Saesneg. Mae nifer o awdurdodau lleol yn nodi fod y galw am ddarpariaeth ADY drwy gyfrwng y Gymraeg yn isel, ond y rheswm dros hyn mewn nifer o achosion yw fod rhieni/gofalwyr plant sydd ag anghenion ADY cymhleth yn fwy tebygol o ddanfon eu plant i ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn sgil y diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg arbenigol o fewn yr awdurdod lleol. Teimlwn yn gryf y dylid dileu'r anghyfiawnder sylfaenol sy'n bodoli o fewn y system ADY bresennol. Ni ddylai sefyllfa fodoli lle mae disgyblion cyfrwng Cymraeg yn derbyn cefnogaeth drwy gyfrwng y Saesneg, gan nad oes cefnogaeth Gymraeg ar gael neu sefyllfa lle nad yw disgyblion yn derbyn y gefnogaeth y mae arnynt ei hangen yn llawn drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc a'u rhieni yn cael y gefnogaeth yn y Gymraeg a hynny heb orfod brwydro amdani.

**Hydref 2023**

Cyflwynwyd yr ymateb hwn i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gyfer yr ymchwiliad: A oes gan blant a phobl ifanc anabl fynediad cyfartal at addysg a gofal plant?

This response was submitted to the Children, Young People and Education Committee for the inquiry: Do disabled children and young people have equal access to education and childcare?

AEC 71

Ymateb gan: Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru

Response from: National Education Union Cymru

---

## Background

The National Education Union Cymru represents members of the education workforce in Wales, many of whom are involved in supporting disabled children in the classroom, as class teachers, ALNCos, and support staff. NEU Cymru welcomes the opportunity to respond to this consultation. Our members work hard to support disabled children and those with additional learning needs (ALN), but there are challenges in the system which create barriers to support.

Whilst our members welcome the principles behind both the new Curriculum for Wales (being taught to all children from Year 8 down) and the Additional Learning Needs and Education Tribunal (ALNET) (Wales) Act, there are significant concerns about implementation, which could impact on disabled children.

Whilst this Inquiry is specifically about disabled children and young people, we believe it is impossible to express the situation for disabled children without looking at the ALNET Act, and its implementation. Whilst not all disabled children will have ALN, most will have the need for some support in school. And whilst not all children with ALN will have an identified long-term condition, it is likely they will have significant needs, which for the purposes of this response, we are considering alongside those identified as disabled children.

## Additional Learning Needs and Education Tribunals Act

Whilst the approach that children with additional learning needs are offered early interventions is welcome, this does not necessary mean they will receive support via an Individual Development Plan (IDP). Members tell us they do not always provide an IDP for children, if they can be supported through minimal interventions, in line with the accessible approach of Curriculum for Wales.

Please note, that whilst we mention the implementation of the ALNET Act, we do not anticipate the challenges for our members – or disabled children and their families – altering, once the Act is fully implemented. The very nature of the Act means that responsibility to ‘decide’ if a child has ALN, and and what ALP should be provided, has been passed to schools (and consequently ALNCos) by the Act. This has created significant resource and workload implications for educators in schools – especially ALN Coordinators (ALNCos).

**Decrease in children identified**

The census results show us there was a significant decrease (of around 18,000)[1] in the number of children identified under the new system. Members tell us the future funding for these children is unclear. Whilst many of them will be able to be taught through universal provision, more training is needed to make this a reality. Whether or not these children as being supported sufficiently is unclear. But what is clear is that they will be lost to the system in terms of reporting and recording.

At the moment we know that children with ALN make up a disproportionately high proportion of those who are absent from school.[2] Once every child has transitioned to the new system, it is likely these figures will become incomparable – the children will be, in effect, invisible to the system. We wont be able to measure their attainment, their attendance, their destination data, and so it is possible to question whether we need to record these children in some way – to ensure the system can see them.

**Curriculum for Wales**

The aim of the Curriculum for Wales is that it is accessible to all[3] learners. Whilst this is a laudable aim, members remain concerned that they have not had enough training on this – on what good universal provision looks like.

Below we have set out some specific barriers for disabled children in accessing the school estate and the curriculum, most of which relate particularly to the challenges involved in the ALNET Act.

---

[1] https://www.gov.wales/schools-census-results-february-2022-html

[2] https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2022-04/attendance-review-implications-of-the-covid-19-pandemic-for-school-attendance.pdf

[3] “This guidance has been developed to be inclusive of all learners, including those with additional learning needs (ALN)”. https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/designing-your-curriculum/developing-a-vision-for-curriculum-design#a-curriculum-accessible-to-all

**Funding**
The funding for the ALNET Act is critical in terms of questions around support. We believe there should be a more consistent funding mechanisms to ensure that schools can access this funding, and in turn ensure that children can access the support they need to meet their needs.

**Access to specialist services**
Schools cannot support children alone. However, the nature of the ALNET Code means that schools (ALNCos) have a duty to decide if a child has ALN, and what their Additional learning provision (ALP) should be, regardless of whether they have sufficient information from health and other support services. This is placing an unreasonable expectation on ALNCos. Schools should have access to health information and specialist services, such as speech and language therapy, CAMHS and educational psychologists in order to support children.

**Training**
Training, including legal training in order to complete IDPs, is needed across the education workforce, in order that they can best support children and help meet any long-term conditions or ALN. Training is needed in order that everyone can provide universal provision, an expectation of both the Curriculum for Wales and the ALNET Act.

**Joint union paper**
We have set out more details and more issues within the joint union paper – which we have already share with the WG, and presented to the ALN implementation Steering Group.

**Contact:**
Mary van den Heuvel
Senior Policy Officer
Mary.vandenheuvel@neu.org.uk

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Jayne Bryant AS
Jayne.Bryant@senedd.wales

D. Iau 5 Hydref 2023

Annwyl Cadeirydd,

**Testun: Dilyniant o'r cyfarfod gyda'r CCHD yng Nghymru**

Ysgrifennaf atoch i rannu â chi papur briffio a baratowyd ar gyfer y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Sylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Cyhoeddwyd adroddiad llawn y Pwyllgor ym mis Mehefin 2023 ac mae'n cynnwys nifer o argymhellion i wella hawliau plant yn y DU.

Fel y gwyddoch, mabwysiadwyd y Sylwadau Clo yn dilyn adolygiad manwl o berfformiad y DU o dan y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn, a oedd yn cynnwys cyflwyno ein hadroddiad i'r Pwyllgor. Dyma'r gyfres gyntaf o argymhellion gan y Pwyllgor ers adolygiad diwethaf y DU yn 2016.

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

Mae'r adroddiad llawn yn cynnwys dros 200 o argymhellion. Yn atodiad y llythyr hwn, rwyf wedi cynnwys papur briffio, sy’n crynhoi rhai o’r argymhellion allweddol ac yn nodi meysydd sy’n cyd-fynd â blaenoriaethau’r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Byddem yn argymell bod y Pwyllgor yn cyfeirio at yr argymhellion hyn ac yn eu defnyddio mewn unrhyw waith craffu perthnasol gan Lywodraeth Cymru i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu’n llawn.

Yn gywir,

Parch Ruth Coombs
Pennaeth Cymru
Cymru | Wales


Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a’r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

**ATODIAD – Papur Briffio ar Sylwadau Terfynol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**

Ym mis Mehefin 2023, cyhoeddodd Pwyllgor Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CRC) ei Sylwadau Clo, sy'n cynnwys asesiad o hawliau plant yn y DU ac argymhellion ar gyfer gwella.

Mabwysiadwyd y Sylwadau Clo yn dilyn adolygiad manwl o berfformiad y DU o dan y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn, a oedd yn cynnwys cyflwyno ein hadroddiad i'r Pwyllgor.

Mae'r adroddiad yn cynnwys mwy na 200 o argymhellion unigol a dyma'r set gyntaf o argymhellion gan y Pwyllgor ers adolygiad diwethaf y DU yn 2016. Mae'r papur briffio hwn yn crynhoi rhai o'r argymhellion ac yn nodi meysydd sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

**Byddem yn argymell bod y Pwyllgor yn defnyddio argymhellion y Pwyllgor CRC mewn unrhyw waith craffu perthnasol gan Lywodraeth Cymru i helpu i sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu rhoi ar waith.**

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

**Prif Flaenoriaethau**

Croesawodd y Pwyllgor CRC yr amrywiol fesurau a gymerwyd i roi'r Confensiwn ar waith, gan gynnwys gwahardd priodas dan 18 oed yng Nghymru a Lloegr; gostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed yng Nghymru a diddymu amddiffyniad cosb resymol yng Nghymru.

Fodd bynnag, tynnodd yr adroddiad sylw hefyd at feysydd penodol, lle mae angen mesurau brys. Dyma rai o'r meysydd a nodwyd gan y Pwyllgor fel y prif flaenoriaethau:

1. Peidio â gwahaniaethu (paragraff 20)

2. Cam-drin, esgeulustod a chamfanteisio a cham-drin rhywiol (paragraff 33)

3. Plant sydd wedi'u hamddifadu o amgylchedd teuluol (paragraff 38)

4. Iechyd meddwl (paragraff 43)

5. Plant sy'n ceisio lloches, ffoaduriaid a mudol (paragraff 50)

**Peidio â gwahaniaethu**

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod y Pwyllgor yn parhau i fod yn bryderus iawn ynghylch gwahaniaethu parhaus, megis drwy fynegiadau o hiliaeth a bwlio, yn erbyn plant mewn sefyllfaoedd difreintiedig, gan gynnwys plant sy'n perthyn i grwpiau lleiafrifol a phlant lesbiaidd, hoyw, deurywiol, traws a rhyngrywiol; cynnydd annigonol wrth sicrhau bod pob plentyn dan 18 oed yn cael ei amddiffyn rhag gwahaniaethu ar sail eu hoedran; a gorgynrychioli plant o dras Asiaidd ac Affricanaidd a phlant Mwslimaidd, Roma, sipsiwn a theithwyr yn y system cyfiawnder troseddol a'r gyfran fawr o'r grwpiau hyn o blant sy'n byw mewn tlodi.

Mae argymhellion ar y flaenoriaeth hon yn cynnwys:

- **20(a):** Gweithredu polisïau a rhaglenni wedi'u targedu i frwydro yn erbyn gweithgareddau hiliol a senoffobig ac i ddileu gwahaniaethu yn erbyn plant mewn sefyllfaoedd difreintiedig, gan gynnwys plant sy'n perthyn i grwpiau lleiafrifoedd ethnig, ceiswyr lloches, plant ffoaduriaid a mudol, plant Roma, Sipsiwn a Theithwyr , plant ag anableddau, plant mewn gofal amgen, plant rhieni sydd wedi'u carcharu, plant rhieni di-briod, plant



**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol a rhyngrywiol, plant dan anfantais economaidd-gymdeithasol, a phlant yn y system gyfiawnder.

- **20(b):** Sefydlu llwybrau clir i blant geisio cyfiawnder mewn achosion o wahaniaethu, a, lle bo'n briodol, sicrhau mynediad plant mewn sefyllfaoedd difreintiedig i wasanaethau iechyd, addysg a safon byw foddhaol.
- **20(e):** Sicrhau bod plant sy'n profi gwahaniaethu, bwlio neu aflonyddu mewn perthynas â'u cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd yn cael eu hamddiffyn a'u cefnogi, gan gynnwys trwy fesurau gwrth-fwlio wedi'u targedu.

**Camdriniaeth, esgeulustod a chamfanteisio a cham-drin rhywiol**

Croesawodd y Pwyllgor y mesurau deddfwriaethol a pholisi amrywiol i frwydro yn erbyn trais yn erbyn plant. Serch hynny, maent yn parhau I bryderu'n ddifrifol am fynychder uchel cam-drin domestig, camfanteisio rhywiol, trais ar sail rhywedd a mathau eraill o drais yn erbyn plant, gan gynnwys mewn gofal amgen, a mesurau annigonol i ymchwilio i achosion o'r fath a dod â chyflawnwyr o flaen eu gwell, mesurau

annigonol i adnabod a chefnogi plant mewn perygl o drais yn y cartref ac adnoddau annigonol wedi'u dyrannu i wasanaethau cysylltiedig ar gyfer plant sy'n ddioddefwyr.

Mae argymhellion ar y flaenoriaeth hon yn cynnwys:

- **33(a):** Sicrhau bod systemau amddiffyn plant yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar hawliau plant i atal a mynd i'r afael ag achosion o gam-drin ac esgeulustod, gan gynnwys trais seicolegol; bod gwasanaethau cymdeithasol a mecanweithiau eraill ar gyfer nodi a chefnogi plant sydd mewn perygl o drais yn ogystal â phlant sy'n ddioddefwyr trais yn cael adnoddau digonol; a bod plant sy'n ddioddefwyr yn cael eu cydnabod yn llawn fel dioddefwyr a bod ganddynt fynediad at ofal trawma yn y gymuned a gwasanaethau cymorth sy'n sensitif i blant.
- **33 (e):** Datblygu mesurau sydd wedi'u hanelu at atal trais yn erbyn plant mewn gofal amgen, plant ag anableddau, ceiswyr lloches, ffoaduriaid a mudol a phlant sy'n perthyn i grwpiau lleiafrifol.
- **33(i):** Cryfhau ymdrechion i hyfforddi gweithwyr proffesiynol sy’n gweithio gyda phlant ac ar eu rhan, gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol,

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a’r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

awdurdodau gorfodi'r gyfraith a'r farnwriaeth, i nodi ac ymateb yn effeithiol i achosion o drais, gan gynnwys camfanteisio rhywiol.

**Plant sy'n cael eu hamddifadu o amgylchedd teuluol**

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at werthfawrogiad y Pwyllgor o'r mesurau a gymerwyd i gefnogi plant sydd wedi'u hamddifadu o amgylchedd teuluol. Serch hynny, mae'r Pwyllgor yn bryderus iawn am y nifer fawr o blant mewn gofal amgen, gan gynnwys mewn llety heb ei reoleiddio, megis gwestai, a throsglwyddiadau diangen neu aml mewn gofal amgen neu newidiadau mewn gweithwyr cymdeithasol a neilltuwyd i blant. Roedd pryderon eraill yn ymwneud â lleoli plant mewn cartrefi gofal diogel a gofal preswyl a gwasanaethau cymorth annigonol i blant sy'n byw mewn gofal amgen ac yn ei adael.

Mae argymhellion ar y flaenoriaeth hon yn cynnwys:

- **38(a):** Buddsoddi mewn mesurau i atal a lleihau nifer y plant sy'n cael eu rhoi mewn gofal amgen, gan gynnwys drwy ddyrannu adnoddau digonol ar gyfer gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliol, gan gynnwys ar gyfer babanod a phlant bach, cynyddu a chryfhau nifer y gweithwyr cymdeithasol hyfforddedig, a gwella cydgysylltu amlasiantaethol.

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

- **38(c):** Atal trosglwyddo plant yn aml neu'n ddiangen i leoliadau gofal amgen, sicrhau bod plant yn cael eu cefnogi'n gyson trwy gynlluniau gofal unigol a chan weithiwr cymdeithasol trwy gydol eu hamser mewn gofal, a chynnal adolygiadau rheolaidd a sylweddol o leoliadau mewn gofal.
- **38(g):** Sicrhau bod plant yn cael eu clywed mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt mewn lleoliad gofal amgen drwy gydol eu harhosiad, a bod gan awdurdodau a gweithwyr proffesiynol perthnasol y galluoedd technegol sydd eu hangen i warantu parch at farn plant mewn gofal amgen.

**Iechyd meddwl**

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod y Pwyllgor yn bryderus iawn am y rhestrau aros hir ar gyfer plant sy'n ceisio gwasanaethau iechyd meddwl a'r nifer fawr o blant â phroblemau iechyd meddwl, anableddau dysgu ac awtistiaeth a roddir mewn wardiau cadw a wardiau seiciatrig oedolion o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Mae argymhellion ar y flaenoriaeth hon yn cynnwys:

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

- **43(c):** Datblygu neu gryfhau strategaethau, gydag adnoddau digonol, ar gyfer sicrhau bod gwasanaethau a rhaglenni iechyd meddwl therapiwtig yn y gymuned ar gael i blant o bob oed, ac ar gyfer darparu hybu iechyd meddwl cynhwysfawr, sgrinio ar gyfer materion iechyd meddwl a gwasanaethau ymyrraeth cynnar mewn ysgolion.
- **43(e):** Datblygu gwasanaethau iechyd meddwl wedi'u hariannu'n ddigonol sydd wedi'u teilwra i anghenion penodol plant lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol a rhyngrywiol, plant mudol, plant ag anableddau a "gofalwyr ifanc", gan gynnwys drwy fuddsoddiadau digonol mewn gwasanaethau arbenigol.
- **43(f):** Mynd i'r afael â gorgynrychioli plant sy'n perthyn i grwpiau lleiafrifol, plant ag awtistiaeth a phlant ag anableddau dysgu mewn gofal iechyd meddwl cleifion mewnol.

**Plant sy'n ceisio lloches, ffoaduriaid a mudol**

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at bryder y Pwyllgor ynghylch y defnydd parhaus o ddulliau annibynadwy ar gyfer pennu oedran plentyn, y nifer fawr o blant y mae anghydfod ynghylch eu hoedran a'r diffyg data ar

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

nifer y ceiswyr lloches sy'n honni eu bod yn blant sydd wedi'u hasesu ac weithiau'n cael eu cadw fel oedolion gan swyddogion mewnfudo.

Mae argymhellion ar y flaenoriaeth hon yn cynnwys:

- **50(d):** Cryfhau mesurau i sicrhau bod pob plentyn sy'n ceisio lloches, yn ffoaduriaid ac yn fudol yn cael mynediad cyfartal a phrydlon i addysg, gwasanaethau iechyd, tai, cymorth seicogymdeithasol ac amddiffyniad cymdeithasol gan gynnwys hawl i fudd-daliadau.
- **50(e):** Rhoi diwedd ar y defnydd o weithdrefnau annibynadwy ac ymyrrol ar gyfer pennu oedran plentyn; datblygu gweithdrefn penderfynu oedran sy'n sensitif i'r plentyn a rhywedd, sy'n cynnwys asesiadau amlddisgyblaethol a gynhelir gan weithwyr proffesiynol perthnasol o aeddfedrwydd a lefel datblygiad y plentyn, ac sy'n parchu'r egwyddor gyfreithiol o fantais yr amheuaeth; a sicrhau bod gan blant fynediad at gyngor cyfreithiol drwy gydol y broses ac, os oes angen, y gallant herio canlyniad asesiadau o'r fath.
- **50(g):** Datblygu system gyson, statudol o warcheidiaeth annibynnol ar gyfer pob plentyn ar ei ben ei hun, a sicrhau bod yr holl blant ar eu pen eu



**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

hunain ym mhob awdurdodaeth parti’r Wladwriaeth yn cael eu nodi'n brydlon a'u penodi'n warcheidwad sydd wedi'i hyfforddi'n broffesiynol.

## Meysydd eraill o ddiddordeb

Yn ogystal â'r pum maes blaenoriaeth hyn mae themâu eraill yn yr adroddiad sy'n cyd-fynd â ffocws y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Mae'r rhain wedi'u nodi isod.

### Addysg

Mae’r adroddiad yn nodi gyda phryder anghydraddoldebau mewn cyrhaeddiad addysgol a chanlyniadau i blant mewn sefyllfaoedd difreintiedig.

Mae’r argymhellion yn cynnwys:

- **47(a):** Cryfhau mesurau i fynd i’r afael ag anghydraddoldebau mewn cyrhaeddiad addysgol a gwella canlyniadau addysgol ar gyfer plant mewn sefyllfaoedd difreintiedig, gan gynnwys plant mewn sefyllfaoedd dan anfantais economaidd-gymdeithasol, plant sy’n perthyn i grwpiau lleiafrifoedd ethnig, plant sy’n ceisio lloches, plant sy’n ffoaduriaid a

mudol, plant ag anableddau a "gofalwyr ifanc", gan gynnwys drwy: (i) ddarparu cymorth ariannol a chymorth arall i blant o'r fath orffen ysgol; (ii) datblygu canllawiau ar gyfer ymateb i achosion o absenoldeb o'r ysgol; a (iii) casglu a dadansoddi data wedi'u dadgyfuno yn ôl tarddiad ethnig, canlyniadau addysgol a dangosyddion perthnasol eraill ar gyfraddau cwblhau, canlyniadau addysgol a gwaharddiadau i lywio polisïau a rhaglenni.

- **47(b):** Sicrhau addysg gynhwysol mewn ysgolion prif ffrwd i bob plentyn ag anabledd, gan gynnwys trwy addasu cwricwla a hyfforddi a phennu athrawon a gweithwyr proffesiynol arbenigol mewn dosbarthiadau integredig, fel bod plant ag anableddau ac anawsterau dysgu yn derbyn cefnogaeth unigol a sylw dyledus.
- **47(d):** Monitro'r defnydd o waharddiadau a sicrhau eu bod yn cael eu gwahardd mewn ysgolion cynradd a'u defnyddio mewn ysgolion uwchradd yn unig fel dewis olaf; gwahardd y defnydd o waharddiadau anffurfiol ac "oddi ar y gofrestr" fel y'u gelwir a darparu ar gyfer dewisiadau amgen priodol; a datblygu mesurau i fynd i'r afael â'u gorddefnydd yn gyffredinol

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

yn ogystal â'u defnydd anghymesur ar blant sy'n perthyn i grwpiau lleiafrifoedd ethnig a phlant ag anableddau.

- **47(f):** Cynyddu ymdrechion i ddileu gwahaniaethu a bwlio, gan gynnwys seiberfwlio, ar sail hil, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd neu nodweddion rhyw, anabledd, mudo neu statws arall yng nghyd-destun yr ysgol, a sicrhau bod mesurau o'r fath: ( i) yn cael adnoddau digonol ac yn cael eu datblygu mewn ymgynghoriad â phlant; (ii) mynd i'r afael ag achosion sylfaenol bwlio; a (iii) cwmpasu atal, mecanweithiau canfod yn gynnar, codi ymwybyddiaeth o'i effeithiau niweidiol, grymuso plant, hyfforddiant gorfodol i athrawon, protocolau ymyrraeth a chofnodi a monitro ymddygiad bwlio cyson a chadarn.

**Ataliaeth**

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod y Pwyllgor yn parhau i fod yn bryderus iawn ynghylch y nifer fawr o blant sy'n parhau i brofi triniaeth o'r fath. Mae'r argymhellion yn cynnwys:

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

- **12(c):** Casglu, dadansoddi a chyhoeddi data dadgyfunedig yn rheolaidd ar y defnydd o wiriadau stopio a chwilio, dyfeisiau niweidiol, neilltuaeth, ataliaeth, caethiwed unigol ac ynysu ar blant.
- **30(b):** Datblygu canllawiau statudol ar ddefnyddio ataliaeth ar blant i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio fel mesur olaf un yn unig ac yn gyfan gwbl i atal niwed i'r plentyn neu eraill, a monitro ei weithrediad.
- **47(j)**: Gwahardd yn benodol y defnydd o ataliaeth a neilltuaeth mewn lleoliadau addysgol a mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar hawliau plant i fynd i'r afael â thrais neu aflonyddwch arall mewn ysgolion, gan gynnwys drwy wahardd presenoldeb yr heddlu mewn ysgolion a darparu hyfforddiant rheolaidd i athrawon ar ganllawiau perthnasol ar gyfer mynd i'r afael ag aflonyddwch o'r fath mewn modd sy'n sensitif i blant.

Ym mis Mehefin 2022 cyhoeddwyd ein hadroddiad ymchwil i sut mae ysgolion yn monitro'r defnydd o ataliaeth. Roedd hyn hefyd yn cynnwys nifer o argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru.

### Traciwr Hawliau Dynol

Offeryn ar-lein yw ein Traciwr Hawliau Dynol y gellir ei ddefnyddio i olrhain pa

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

mor dda y mae Llywodraeth Cymru yn rhoi ei dyletswyddau hawliau dynol ar waith. Mae'n ymdrin ag ystod o bynciau gan gynnwys addysg, iechyd a safonau byw. Mae statws Llywodraeth Cymru yn y meysydd hyn yn amrywio o gynnydd cyfyngedig, dim cynnydd yn ogystal ag atchweliad.

**Byddem hefyd yn argymell bod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn defnyddio'r offeryn hwn wrth graffu ar Lywodraeth Cymru.**

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

# Eitem 5.2

Dear Sir/Madam

We hope that members of the Committee are well.

On behalf of parents and carers in Wales, we wish to inquire whether there will be another evaluation of the whole school approach that also consults with families in Wales by the Committee please?

You may recall we contributed to an evaluation in 2021 by the Senedd Committed in terms of our families' lived experience and outcomes for learners and families on emotional wellbeing.

There has been of course some great developments since 2021 but we still have concerns relating to the lack of pupil/family voice in the process of accessing the whole system, that schools can be a barrier as much as a gateway regards the inreach teams/whole system along with the disparity between communities.

I have concerns about some schools being expected to be the gateway for Neurodevelopmental assessments where the staff do not have the time nor the skills to make such clinical decisions and in my opinion are working outside of both their professional competency and guidelines of the Autism Code of Practice. The learner unduly left to journey down the mental health spectrum and the impact on the whole family.

Where there is discrepancy in opinion between families and schools about accessing in reach teams, families are told to go to the GP to bypass the school. This is sending families again hunting down services and conflicts with the No Wrong Door Approach.

There are many concerns raised by families that their children are reaching crisis, are absent from school and can no longer access emotional based support because they are not in school to access educational based interventions.

As we know, post COVID demand is outstripping capacity for CAMHS, Neurodevelopmental Services and Social Care but I fear that demand is far greater than the data reports and that we should now be including absent learners as part of this crisis in demand. Third sector has been a tremendous ally to statutory services in this regard but or course this may not be sustainable.

As I say there are some great developments and practices across schools in Wales and we are also working hard within communities and across services to improve awareness of relational practices, neurodivergence, inclusion and elevating the pupil/family voice in the whole system but I feel another robust evaluation by the Senedd Committee would be helpful.

As always I would be delighted to support the Committee and act as conduit for families if this would be of help.

Kind regards Informatio

Ceri Reed

Parents Voices in Wales CIC

**Y Pwyllgor Deisebau**
—
**Petitions Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd. wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

6 Hydref 2023

Annwyl Jayne

**Deiseb P-06-1341 Canllawiau hygyrch ar gyfer rhieni ac ysgolion er mwyn helpu'r broses o ddatblygu cynlluniau i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol**

Trafododd y Pwyllgor Deisebau'r ddeiseb uchod yn ein cyfarfod ar 25 Medi, ynghyd â gohebiaeth gan Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, a'r Deisebydd.

Yn y cyfarfod, cytunodd Aelodau i ysgrifennu at eich Pwyllgor er mwyn tynnu eich sylw at y ddeiseb a gofyn a fyddech yn ystyried cymryd tystiolaeth gan y deisebydd fel rhan o'ch ymchwiliad ar fynediad cyfartal i addysg a gofal plant.

Mae rhagor o wybodaeth am y ddeiseb, gan gynnwys gohebiaeth gysylltiedig, ar gael ar ein gwefan at: https://busnes.senedd.cymru/ieIssueDetails.aspx?IId=41406&Opt=3.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â thîm clercio'r Pwyllgor drwy'r cyfeiriad e-bost isod, neu drwy ffonio 0300 200 6454. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb drwy e-bostio'r tîm clercio: deisebau@senedd.cymru.

Yn gywir

Jack Sargeant AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Eitem 5.4

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

10 Hydref 2023

Annwyl Gadeirydd,

**Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Cyllideb Ddrafft Pwyllgor Plant Pobl, Ifanc ac Addysg 2022-23:**

**Argymhelliad 24: Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor bob chwe mis ar hynt gweithredu'r Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu, gan gynnwys gwybodaeth am sut y mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo'r rhaglen i ddysgwyr Addysg Bellach.**

Dros y chwe mis diwethaf, mae Taith wedi gweld cynnydd pellach mewn perthynas â gweithredu'r rhaglen. Ers imi ysgrifennu atoch ddiwethaf, mae £7.2m arall wedi'i ddyrannu i brosiectau Llwybr 1 llwyddiannus eleni, mae cannoedd yn fwy o ddysgwyr wedi cymryd rhan mewn teithiau cyfnewid, ac rydym wedi dod i ddiwedd blwyddyn lawn gyntaf gweithgarwch y prosiectau.

Ers lansio'r rhaglen ym mis Chwefror 2022, mae Taith wedi trefnu pedwar cyfle cyllid: Llwybr 1 2022 ac ail gyfle i'r sector Addysg Bellach/Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol, Llwybr 2 2022, a Llwybr 1 2023. Agorwyd cyfle Llwybr 2 2023 ar 5 Hydref a bydd yn dod i ben ar 30 Tachwedd.

O ran y pedwar cyfle cyllid hyd yma, mae £18.7m wedi'i ddyrannu i 142 o brosiectau, sy'n cwmpasu 163 o wahanol sefydliadau - gan gynnwys pob coleg Addysg Bellach yng Nghymru. Disgwylir i hyn greu cyfleoedd cyfnewid rhyngwladol ar gyfer dysgu i dros 11,000 o bobl. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn dangos bod 1120 wedi cwblhau eu teithiau cyfnewid erbyn 30 Mehefin, a bod llawer mwy o weithgarwch wedi digwydd dros yr haf.

Mae'r adborth gan y rhai sydd wedi cymryd rhan mewn teithiau cyfnewid a ariannwyd gan Taith wedi bod yn hynod gadarnhaol, a llawer yn dweud mai dyma oedd profiad gorau eu bywyd, a'i fod yn rhywbeth na fyddent wedi cael y cyfle i'w wneud fel arall. Byddwn yn annog aelodau i ymweld â gwefan Taith i ddarllen straeon i'ch ysbrydoli gan bobl ifanc sydd wedi cymryd rhan – er enghraifft taith Ysgol Gymunedol Glynrhedynog i Singapôr i ddysgu am beirianneg a dyframaethu, neu fyfyrwyr o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn ailgydio yn eu partneriaeth â Chanolfan Astudiaethau Cymreig Madog yn Ohio.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Canlyniadau Cyfleoedd Cyllid y Llwybrau

Roedd Llwybr 1, sy'n canolbwyntio ar deithiau cyfnewid i unigolion a grwpiau, ac sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o weithgarwch Taith, ar agor ar gyfer ceisiadau rhwng Ionawr a Mawrth, ac roedd £7.2m ar gael. Dangosir manylion canlyniadau cyfleoedd cyllid Llwybr 1 2023, a'r cyllid a ddyrannwyd mewn perthynas â phob cynnig hyd yma yn nhablau 1 a 2.

**Tabl 1: Canlyniadau Llwybr 1 2023 fesul sector**

| Sector | Nifer y ceisiadau | Nifer y prosiectau a ariannwyd | Cyfanswm y cyllid a ddyrannwyd (£) |
|---|---|---|---|
| Ieuenctid | 19 | 14 | 1,012,467 |
| Ysgolion | 36 | 28 | 1,758,987 |
| Addysg Oedolion | 6 | 4 | 231,441 |
| Addysg Bellach / Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol | 11 | 9 | 1,190,191 |
| Addysg Uwch | 8 | 8 | 2,498,031 |
| Ymchwil Addysg Uwch | 6 | 6 | 499,054 |
| **Cyfanswm** | **86** | **69** | **7,190,171** |

**Tabl 2: Canlyniadau pob cyfle cyllid hyd yn hyn fesul sector**

| Sector | Nifer y prosiectau a ariannwyd | | | | Cyfanswm y cyllid a ddyrannwyd hyd yma (£) |
|---|---|---|---|---|---|
| | Llwybr 1 2022 | Llwybr 2 2022[(a)] | Llwybr 1 2023 | Cyfanswm | |
| Ieuenctid | 12 | 4 | 14 | 30 | 2,222,933 |
| Ysgolion | 15 | 7 | 28 | 50 | 4,329,443 |
| Addysg Oedolion | 6 | 3 | 4 | 13 | 610,236 |
| Addysg Bellach / Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol | 7 | 5 | 9 | 21 | 3,024,831 |
| Addysg Uwch | 8 | . | 8 | 16 | 6,632,884 |
| Ymchwil Addysg Uwch | 6 | . | 6 | 12 | 1,915,215 |
| **Cyfanswm** | **54** | **19** | **69** | **142** | **18,735,542** |

(a) Nid yw Addysg Uwch yn gymwys ar gyfer Llwybr 2 am fod y sector am i'r cyllid ganolbwyntio ar Lwybr 1.

Fel y dangosir yn nhabl 2, bu cynnydd yn y ceisiadau o dan Lwybr 1 rhwng 2022 a 2023. Mae hyn wedi cynnwys mwy o geisiadau uniongyrchol gan ysgolion a cholegau Addysg Bellach: 30 o ysgolion yn hytrach nag 18 yn 2022, ac 8 o golegau yn hytrach na 4 yn 2022. Mae hyn yn galonogol, yn enwedig wrth ystyried ymgysylltiad y sectorau hyn ag Erasmus+ a Chynllun Turing, a oedd, ac sy'n parhau i fod, drwy sefydliadau trydydd parti yn bennaf.

Llywodraethiant

Mae Taith yn y broses o weithredu nifer o newidiadau i gryfhau trefniadau llywodraethiant y rhaglen a sicrhau bod digon o amrywiaeth arbenigedd ac ystod o safbwyntiau yn cael eu cynrychioli ar bob lefel o'r strwythur llywodraethiant:

- Ym mis Mehefin, penodwyd Piet Van Hove a Ben Coates i Fwrdd y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu fel cyfarwyddwyr anweithredol annibynnol.
- Sefydlwyd grwpiau rhanddeiliaid agored newydd, gan gynnwys un ar gyfer y sector Addysg Bellach, er mwyn sicrhau bod unrhyw unigolyn neu sefydliad sydd â diddordeb yn Taith yn cael cyfle i gyfrannu at ddatblygiad y rhaglen.
- Mae'r Bwrdd Cynghori yn cael ei adnewyddu, ac mae Taith bellach yn gwahodd ceisiadau ar gyfer aelodau newydd; gweler gwefan Taith am y manylion. Byddwn yn croesawu cefnogaeth aelodau'r pwyllgor i dynnu sylw eu rhwydweithiau at y cyfleoedd hyn.

Strategaeth

Nawr bod Taith wedi bod yn weithredol ers blwyddyn a hanner, mae'n amlwg bod yr hyn a sefydlwyd i ddisodli Erasmus+ i ddechrau wedi'i drawsnewid i fod yn rhaglen unigryw Gymreig. Fe'i datblygwyd mewn partneriaeth â'r sector addysg gan roi'r lle canolog i ddysgwyr a phobl ifanc yng Nghymru. A hynny mewn golwg, cyhoeddais ar 3 Hydref fod Taith yn cyhoeddi strategaeth ar ei newydd wedd i adlewyrchu nod creiddiol y rhaglen yn well, sef creu cyfleoedd sy'n newid bywydau trwy deithiau cyfnewid rhyngwladol ar gyfer dysgu, ac ailffocysu ar ei thri phrif amcan, sef:

1. Sicrhau bod teithiau cyfnewid yn darparu'r effaith fwyaf bosibl.
2. Ariannu prosiectau cyfnewid o ansawdd ar gyfer dysgu.
3. Cefnogi arloesedd addysgol yng Nghymru.

Bydd creu ffocws o'r newydd ar greu cyfleoedd sy'n newid bywydau yn sicrhau bod y gefnogaeth yn targedu sefydliadau sy'n gweithio gyda dysgwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, sydd yn aml â'r mwyaf i'w ennill o gymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu rhyngwladol. Mae Taith yn cefnogi'r sefydliadau hyn mewn sawl ffordd, gan gynnwys drwy'r Pencampwyr a benodwyd yn ddiweddar – Diverse Cymru a Chanolfan Materion Rhyngwladol Cymru – a fydd yn annog ac yn cefnogi sefydliadau sy'n gweithio gyda dysgwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i ystyried sut y gallai cyllid Taith fod o fudd iddynt.

Mae Taith wedi dod ffordd bell ers cyhoeddi'r Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu ym mis Mawrth 2021, ac rwy'n hyderus y bydd y chwe mis nesaf yn gweld mwy byth o lwyddiant, a bywydau'n cael eu newid o ganlyniad i'r rhaglen hon.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Eluned Morgan AS

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Julie Morgan AS

Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Lynne Neagle AS

9 Hydref 2023

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25

Annwyl Eluned, Julie a Lynne,

Fel y llynedd, hoffem gael gwybodaeth ysgrifenedig i gefnogi ein gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25. Mae'r atodiad i'r llythyr hwn yn nodi'n fanwl y wybodaeth yr hoffem ei chael.

Byddwn yn ddiolchgar o gael y wybodaeth ysgrifenedig erbyn 19 Rhagfyr 2023 fan bellaf. Nodaf fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ar 19 Rhagfyr 2023. Er ein bod fel arfer yn gofyn am y wybodaeth ysgrifenedig ychydig ddyddiau ar ôl cyhoeddi'r gyllideb ddrafft, oherwydd dyddiad cyhoeddi arfaethedig y gyllideb ddrafft, rydym yn gofyn am y wybodaeth hon ar yr un diwrnod. Er mwyn helpu i liniaru rhai o'r problemau wrth baratoi'r dystiolaeth ysgrifenedig a rhoi po fwyaf o amser â phosibl i chi baratoi'r cyflwyniad, rydym yn anfon ein cais yn gynharach yn nhymor yr hydref. Cysylltwch â'm clercod os ydych yn pryderu na fyddwch yn gallu anfon y wybodaeth erbyn y dyddiad cau arfaethedig o ystyried amserlen y gyllideb.

O ystyried y bydd gan bwyllgorau mewn rhai o'r meysydd a restrir yn yr atodiad i'r llythyr hwn ddiddordeb hefyd, rydw i wedi anfon copi at gadeiryddion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Yn gywir

Jayne Bryant AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Atodiad A: Cais i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch craffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

## 1. Dyraniadau ar gyfer plant a phobl ifanc

Dyraniadau ym Mhrif Grŵp Gwariant Iechyd drwy Weithredu, a Llinell Wariant yn y Gyllideb (fel sy'n uniongyrchol berthnasol i blant a phobl ifanc):

- Cyllideb Ddrafft 2024-25
- Dyraniadau y Gyllideb Derfynol 2023-24
- Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24
- Alldro rhagolygon 2023-24
- Cyllideb ddangosol 2025-26 (os y pennwyd)

Disgrifiad o unrhyw newidiadau i linellau sylfaen a ddefnyddiwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25 o Gyllideb Atodol Gyntaf Mehefin 2023.

## 2. Asesiadau o effaith

- Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant Cyfunol ar draws pob portffolio: Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) i lywio'r dyraniadau yn y Gyllideb drafft 2024-25.
- Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2024-25.
- Effeithiau eraill: Manylion a/neu enghreifftiau o unrhyw newidiadau a wnaed i ddyraniadau o fewn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dilyn ystyriaethau o gydraddoldeb, cynaliadwyedd, y Gymraeg a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## 3. Y Rhaglen Lywodraethu

Dyraniadau yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25 a'r sefyllfa ddiweddaraf o ran cyllid ar gyfer:

| Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu | Dyraniadau y gofynnwyd amdanynt a manylion naratif |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Gwasanaethau eirioli i rieni y mae eu plant mewn perygl o ddod yn rhan o'r system ofal. | Dyraniadau ar gyfer cyflwyno cymorth i rieni y mae eu plant ar gyrion y system gofal, sydd i'w ddarparu yn unol â fframwaith cenedlaethol. |
| Ariannu gwasanaethau preswyl rhanbarthol i blant ag anghenion cymhleth. | Dyraniadau ar gyfer 2024-25 ar gyfer y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer yr 8 prosiect sydd bellach yn weithredol (a faint o leoliadau ychwanegol y mae hyn yn eu hariannu).<br>Dyraniadau ar gyfer cyflawni unrhyw brosiectau newydd (a faint o leoliadau newydd ychwanegol y mae hyn yn eu hariannu). |
| Dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal. | Dadansoddiad blynyddol o sut mae'r ymrwymiad i wario £68m yn cael ei rannu yn ôl cyfanswm dros y tair blynedd 2022-23, 2023-24, 2024-25.<br>Alldro terfynol ar gyfer 2022-23 / dadansoddiad o i bwy y cafodd ei ddyrannu ac i ba ddiben (yn ôl awdurdod lleol a thrydydd sector)<br>Alldro rhagolwg ar gyfer 2023-24 / dadansoddiad o i bwy y cafodd ei ddyrannu ac i ba ddiben (yn ôl awdurdod lleol a thrydydd sector)<br>Dyraniadau manwl wedi'u cynllunio ar gyfer 2024-25 (neu'r broses a ddefnyddir i benderfynu ar hynny) |
| Cymorth arbenigol i blant ag anghenion cymhleth a allai fod ar gyrion y system ofal. | Mae manylion y 32 o brosiectau a nodwyd hyd yn hyn gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cwmpasu Cymru gyfan a sut y caiff y rhain eu hariannu gan y Gronfa Integreiddio Ranbarthol Iechyd a Gofal Cymdeithasol fel y manylir yn Adroddiad Blynyddol diweddaraf y Rhaglen Lywodraethu. |
| Ariannu gofal plant i fwy o deuluoedd lle mae rhieni mewn addysg a hyfforddiant neu ar gyrion byd gwaith. | Dyraniadau cyffredinol ar gyfer y Cynnig Gofal Plant yn 2024-25.<br>Y gost yn 2023-24 ar gyfer yr 438 o deuluoedd ychwanegol a chyfanswm y costau a ddyrannwyd yn 2024-25 ar gyfer yr amcangyfrif o 3,000 yn fwy o deuluoedd cymwys fel y cyfeiriwyd atynt yn Adroddiad Blynyddol diweddaraf y Rhaglen Lywodraethu. |
| Ehangu darpariaeth y blynyddoedd cynnar yn raddol i gynnwys pob plentyn 2 oed, gyda phwyslais arbennig ar gryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg. | Dyraniadau a'r hyn y bwriedir iddynt ei gyflawni yn 2024-25<br>Gwybodaeth ynghylch a fydd yn cynnig 30 awr llawn i bob plentyn dwy oed, ac erbyn pryd y caiff hyn ei gyflwyno |


Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| Dechrau'n Deg. | Refeniw a chyfalaf |

## 4. Cynllun Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy

Cyfanswm y Cynllun a dadansoddiad o'r holl grantiau sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc.

## 5. Cronfa Newid Plant sydd â Phrofiad o fod mewn Gofal

Cyfanswm y Gronfa a dadansoddiad o'r holl ddyraniadau.

## 6. Gweithlu gofal cymdeithasol plant

Unrhyw ddyraniadau sy'n gysylltiedig â chynorthwyo awdurdodau lleol i fynd i'r afael ag ansefydlogrwydd y gweithlu ym maes gofal cymdeithasol plant, megis cyfraddau swyddi gwag a'r defnydd o staff asiantaeth, a nodir yn ein Hadroddiad ar Ddiwygio radical ar gyfer gwasanaethau i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal ac adolygiad cyflym diweddar Arolygiaeth Gofal Cymru o drefniadau amddiffyn plant Medi 2023.

## 7. Iechyd Plant

- Dyraniadau yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25 a'r sefyllfa ddiweddaraf o ran cyllid ar gyfer:
  - Iechyd y cyhoedd fel y mae'n berthnasol i blant a phobl ifanc, gan gynnwys brechu
  - Strategaeth gordewdra
  - Gwasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed, a gwasanaethau i gefnogi iechyd meddwl amenedigol a pherthnasoedd rhwng rhieni a babanod
  - Gwasanaethau anhwylderau bwyta
  - Atal hunanladdiad fel y mae'n berthnasol i blant a phobl ifanc
  - Camddefnyddio sylweddau, gan gynnwys fêpio ymhlith plant a phobl ifanc
  - Gwasanaethau niwroddatblygiadol

## 8. Costau byw

- Byrddau Iechyd: Darpariaeth gwasanaethau i blant a phobl ifanc gan y Byrddau Iechyd yng Nghymru ac effaith costau cynyddol ynni ar y ddarpariaeth hon.

- **Gwasanaethau cymdeithasol:** Polisi a goruchwylio'r ddarpariaeth o holl weithgareddau gwasanaethau cymdeithasol Awdurdodau Lleol yng Nghymru ac unrhyw drafodaethau cysylltiedig â'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol.

- **Tlodi plant:** Manylion am ba drafodaethau sydd wedi'u cynnal gyda Gweinidogion perthnasol eraill mewn perthynas â dyraniadau sy'n cael effaith sylweddol ar iechyd a gofal cymdeithasol plant, er enghraifft gyda'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol o ran cyllideb Comisiynydd Plant Cymru a materion polisi ehangach fel tlodi plant.

## 9. Costau deddfwriaeth

- Goblygiadau ariannol neu a ragwelir yn 2022-23 a 2023-34 o unrhyw is-ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc o fewn portffolio'r Gweinidog.
- Gwybodaeth am effaith ariannol unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol a wneir yn Senedd y DU.

Eitem 5.6


**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

—

**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565


Jeremy Miles AS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

9 Hydref 2023

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25**

Annwyl Jeremy,

Fel y llynedd, hoffem gael gwybodaeth ysgrifenedig i gefnogi ein gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25. Mae'r atodiad i'r llythyr hwn yn nodi'n fanwl y wybodaeth yr hoffem ei chael.

Byddwn yn ddiolchgar o gael y wybodaeth ysgrifenedig erbyn 19 Rhagfyr 2023 fan bellaf. Nodaf fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ar 19 Rhagfyr 2023. Er ein bod fel arfer yn gofyn am y wybodaeth ysgrifenedig ychydig ddyddiau ar ôl cyhoeddi'r gyllideb ddrafft, oherwydd dyddiad cyhoeddi arfaethedig y gyllideb ddrafft, rydym yn gofyn am y wybodaeth hon ar yr un diwrnod. Er mwyn helpu i liniaru rhai o'r problemau wrth baratoi'r dystiolaeth ysgrifenedig a rhoi po fwyaf o amser â phosibl i chi baratoi'r cyflwyniad, rydym yn anfon ein cais yn gynharach yn nhymor yr hydref. Cysylltwch â'm clercod os ydych yn pryderu na fyddwch yn gallu anfon y wybodaeth erbyn y dyddiad cau arfaethedig o ystyried amserlen y gyllideb.

O ystyried y diddordeb a rennir ar draws pwyllgorau ynghylch rhai o'r meysydd a restrir yn yr atodiad i'r llythyr hwn, rwyf wedi anfon copi at Gadeiryddion Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a’r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Yn gywir

Jayne Bryant AS

Cadeirydd

# Atodiad A: Cais i Weinidog y Gymraeg ac Addysg ynghylch craffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

## Meysydd Trawsbynciol

### Tryloywder y cyflwyniad o'r gyllideb

Fel gyda'r blynyddoedd blaenorol, gofynnwn am esboniad clir a thryloyw o'r newidiadau i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn gyffredinol yn 2024-25, o 2023-24, gan gynnwys y ddwy gymhariaeth â'r wir gyllideb yn ychwanegol at unrhyw waelodlin ddiwygiedig a ddefnyddir. Byddem hefyd yn gwerthfawrogi crynodeb o'r newidiadau allweddol rhwng 2023-24 a 2024-25.

Os defnyddir gwaelodlin ddiwygiedig, rydym yn gofyn am ddadansoddiad o'r symiau sydd wedi'u tynnu o gyllideb 2023-24 neu eu hychwanegu at gyllideb 2023-24 ac esboniad ym mhob achos pam y bernir ei bod yn briodol defnyddio'r waelodlin ddiwygiedig yn hytrach na'r wir gyllideb a osodwyd yn 2023-24 ar gyfer cymariaethau.

Ar gyfer newidiadau sylweddol i linellau cyllideb, hoffem gael eglurhad p'un a fydd cyllid yn cael ei ddychwelyd i/ei gymryd o gronfeydd wrth gefn canolog neu ei ddyrannu i/o linellau cyllideb eraill naill ai o fewn neu y tu allan i'r Prif Grŵp Gwariant.

### Sylwadau ar y camau gweithredu a manylion am ddyraniadau'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb

Gofynnwn am gael sylwadau ar bob un o'r Camau Gweithredu o fewn y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg a'r Gymraeg 2024-25, gan gynnwys dadansoddiad ac eglurhad o newidiadau arwyddocaol ers Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24 (Mehefin 2023). Yn y gorffennol, roedd hyn yn cael ei ddarparu mewn atodiad – roedd yn Atodiad B y llynedd.

At hynny, gofynnwn am ddadansoddiad o'r Prif Grŵp Gwariant Addysg ar gyfer 2024-25 a'r Prif Grŵp Gwariant yn ôl Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb, gyda dyraniadau Cyllideb Derfynol 2023-24, dyraniadau Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24, rhagolygon alldro 2023-24, ac alldro terfynol 2022-23 i gyd wedi'u cynnwys. Os yw cyllidebau dangosol yn cael eu gosod y tu hwnt i 2024-25, rydym yn gofyn am fanylion y rhai hynny hefyd.

Os yw Llywodraeth Cymru yn defnyddio cyllideb llinell sylfaen ddiwygiedig at ddibenion cymharol, rydym yn gofyn i ddyraniadau gwirioneddol Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24 gael eu cyflwyno ochr yn ochr â'r dyraniadau cyllideb ddrafft 2024-25 yn ogystal ag esboniad o'r rhesymau dros ail-gyfrifo'r llinell sylfaen (fel y nodwyd yn gynharach).

### Blaenoriaethau addysg a blaenoriaethau strategol eraill

Gwybodaeth am sut mae'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn cyd-fynd â blaenoriaethau perthnasol ac amcanion allweddol Llywodraeth Cymru – ac yn cael ei flaenoriaethu yn ôl y rheini – gan gynnwys:

- Asesiad wedi'i ddiweddaru gan y Gweinidog ynghylch i ba raddau y mae'n credu bod y Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn cynnwys yr adnoddau sy'n angenrheidiol i gyflawni blaenoriaethau ac amcanion allweddol Llywodraeth Cymru.
- Gwybodaeth am unrhyw drafodaethau sy'n mynd rhagddynt gyda'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i gynyddu lefel yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer addysg, gan gynnwys cyllid ar gyfer cyllidebau craidd ysgolion drwy'r Setliad Llywodraeth Leol.
- Manylion ynghylch sut mae dyraniadau o fewn y Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn alinio â'r Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio.
- A yw'r Gweinidog, ac os felly sut, yn bwriadu targedu adnoddau i fynd i'r afael ag unrhyw themâu neu flaenoriaethau trawsbynciol ar draws y Prif Grŵp Gwariant yn gyffredinol, er enghraifft unrhyw weithgarwch i adfer o'r pandemig, costau byw, mynd i'r afael ag effaith negyddol anfantais ar ganlyniadau dysgwyr, y Gymraeg, rhoi effaith i hawliau plant a chefnogi dysgwyr gyda'u hiechyd corfforol, emosiynol a meddyliol.

## Hawliau plant ac ystyriaethau trawsbynciol eraill

Yn unol ag asesu a roddwyd 'sylw dyledus' i erthygl 4 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a dyletswyddau Llywodraeth Cymru o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru), gofynnwn am:

- Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant cyffredinol ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg drafft hwn ar gyfer 2024-25 sy'n nodi sut mae hawliau plant yn cael eu gweithredu yn y dyraniadau cyllideb hyn, gan gyfeirio at erthyglau penodol yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel sy'n berthnasol.
- Os na chynhaliwyd Asesiad penodol o'r Effaith ar Hawliau Plant, y rhesymau dros hyn.
- Copi o unrhyw asesiad arall o'r effaith integredig yn ogystal â sicrwydd bod yr asesiad hwn yn dangos bod y ddyletswydd o "roi sylw dyledus" i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi'i harfer.
- manylion a/neu enghreifftiau o unrhyw newidiadau a wnaed i ddyraniadau cychwynnol o fewn y Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn dilyn ystyriaethau o hawliau plant, cydraddoldeb, cynaliadwyedd, y Gymraeg, neu Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o ganlyniad i asesiadau effaith, neu lle mae'r asesiadau hyn wedi cael dylanwad uniongyrchol ar bennu cyllidebau.

## Costau deddfwriaeth

- Manylion dyraniadau o fewn cyllideb 2024-25 a fwriadwyd ar gyfer gweithredu Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 a’r diwygiadau cysylltiedig mewn perthynas â chymwysterau.
- Manylion dyraniadau ar gyfer gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r Rhaglen Trawsnewid ADY ehangach.
- Manylion dyraniadau o fewn cyllideb 2024-25 a fwriadwyd ar gyfer gweithredu Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022.
- Gwybodaeth am effaith ariannol unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol a wneir yn Senedd y DU.
- Goblygiadau ariannol unrhyw is-ddeddfwriaeth berthnasol yn 2024-25.

## Effaith y pandemig COVID-19

- Gwybodaeth am unrhyw effaith sy’n weddill o’r pandemig ar y Prif Grŵp Gwariant Addysg a’r Gymraeg yn 2023-245 ac unrhyw oblygiadau parhaus yn 2024-25, gan gynnwys diweddariad ar drefniadau’r gyllideb ar gyfer cyflawni’r rhain, er enghraifft a yw’r rhaglen “Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau)” yn parhau yn 2024-25.
- Manylion a dadansoddiad o'r cyllid a ddyrannwyd ar gyfer ymateb y sector addysg i'r pandemig yn 2022-23, ynghyd ag unrhyw ddyraniad yn 2024-25 (yn y bôn, diweddaru paragraffau 1.6.5-1.6.6 o bapur y llynedd).

## Effaith Brexit

- Y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch a oes unrhyw oblygiadau ariannol penodol i Brif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg 2024-25 yn dilyn ymadawiad y DU â’r UE, ac unrhyw ddyraniadau a wnaed i liniaru’r rhain.

## Effaith pwysau costau byw ar ddarparu gwasanaethau addysg

- Diweddariad ar oblygiadau pwysau costau byw a phrisiau ynni uchel ar ddarparu sefydliadau addysg yn weithredol – ar draws y blynyddoedd cynnar, ysgolion, colegau, prifysgolion a darparwyr hyfforddiant.

## Monitro’r gyllideb a’r cyd-destun ariannol presennol

- Gwybodaeth am y prosesau sydd ar waith ar gyfer monitro cyllidebau trwy gydol y flwyddyn, nodi diffygion a gwargedion posibl, a chymryd camau adferol neu ddyrannu arian ychwanegol i dalu am unrhyw ddiffygion, yn enwedig yn sgil y pandemig.

- Goblygiadau'r materion y cyfeiriwyd atynt yn natganiad y Prif Weinidog dyddiedig 9 Awst 2023 i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg ac adroddiadau ar arbedion y mae angen eu gwneud yn y flwyddyn ariannol hon.

- Manylion am unrhyw newidiadau i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg ar gyfer 2023-24 y disgwylir eisoes yn yr Ail Gyllideb Atodol.

- Goblygiadau Datganiad Hydref 2023 Llywodraeth y DU i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg.

## Meysydd penodol

### Cyllid ar gyfer cyllidebau ysgolion

- Esboniad o sut mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu cyllid ar gyfer ysgolion yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25 (yn y Prif Grŵp Gwariant Cyllid a Llywodraeth Leol a'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg) ac wedi ystyried adolygiad Sibieta o wariant ysgolion wrth osod y gyllideb hon.

- Diweddariad ar unrhyw waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ystyried diwygiadau i Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010.

- Safbwynt y Gweinidog ar lefel y cronfeydd wrth gefn yn y gyllideb ysgolion, yng nghyd-destun data 31 Mawrth 2023 sydd i'w gyhoeddi ddiwedd mis Hydref 2023.

### Cyllid ar gyfer gwella ysgolion

- Esboniad o sut mae Cyllideb Ddrafft 2024-25 yn cefnogi gwella ysgolion a chodi safonau addysg.

- Manylion dyraniadau Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol yn 2023-24, wedi'u dadansoddi yn ôl amcan a/neu ddisgrifiad o'r cyllid (neu benawdau eraill, p'un bynnag sy'n berthnasol) – sef, yn y bôn, diweddariad i Atodiad D papur y llynedd.

- Manylion faint y talwyd Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol i bob consortiwm a/neu awdurdod lleol yn 2023-24.

- Gwybodaeth am elfen Grant Gwella Addysg y RCSIG a'r adolygiad oedd ar y gweill pan drafodwyd y gyllideb y llynedd.

- Gwybodaeth am sut mae adnoddau o fewn y Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn cael eu defnyddio i fodloni ymrwymiad hirdymor Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar ganlyniadau addysgol.

- Dadansoddiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb "Mynd i'r Afael â Rhwystrau i Gyrhaeddiad" ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion a'r Grant Hanfodion Ysgolion a diweddariad o sut yr asesir cymhwysedd ar gyfer y rhain, o ystyried bod y prif feini prawf cymhwyso (cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim) yn symud i ddarpariaeth gyffredinol mewn ysgolion cynradd.

- Gwybodaeth am sut mae adnoddau o fewn y Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn cael eu defnyddio i gefnogi dysgwyr mewn addysg ôl-16 gydag effaith pwysau costau byw, ac i fynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar ganlyniadau (gan gynnwys, er enghraifft, drwy gyllid cronfa caledi ar gyfer darparwyr, neu drwy gyllid cymorth i fyfyrwyr sy'n bodoli eisoes fel y Lwfans Cynhaliaeth Addysg).

- Costau ehangu prydau ysgol am ddim yn 2023-24, 2024-25 a blynyddoedd yn y dyfodol, a'r wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlen ar gyfer ehangu prydau ysgol am ddim drwy gydol yr holl grwpiau oedran ysgol gynradd.

- Dadansoddiad pellach o'r cyllid a ddarparwyd i awdurdodau lleol yn 2023-24 ar gyfer darparu prydau ysgol am ddim i bawb ac ar gyfer 2024-25 os yw'n hysbys.

- Unrhyw gyllid arall yn y Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg ar gyfer mentrau i fynd i'r afael â chostau byw a'r gydberthynas negyddol rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad, er enghraifft rhaglen gwella gwyliau'r haf / haf o hwyl / prosiectau bwyd a hwyl, gan gynnwys esboniad o sut mae'r prosiectau hyn a'r ffrydiau ariannu yn perthyn i'w gilydd.

## Y Gweithlu Addysg

- Manylion dyraniadau'r gyllideb i ariannu Addysg Gychwynnol i Athrawon a dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon presennol, gan gynnwys yn sgil y gwaith parhaus o weithredu diwygiadau addysg.

- Gwybodaeth am gyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i Gyngor y Gweithlu Addysg.

- Manylion am unrhyw ddarpariaeth cyllideb ar gyfer talu costau dyfarniad cyflog i athrawon ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24, gan gynnwys dadansoddiad rhwng y blynyddoedd ariannol 2023-24 a 2024-25 a'r mecanweithiau priodol a ddefnyddiwyd (p'un a ydynt yn grant uniongyrchol neu wedi'u hymgorffori yn y setliad llywodraeth leol).

- Gwybodaeth am unrhyw gyllid i gefnogi polisi ynghylch y gweithlu athrawon cyflenwi.

## Diwygio'r cwricwlwm

- Gwybodaeth am gyllid i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys dysgu proffesiynol ar gyfer y gweithlu.

## Iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc

- Darpariaeth y gyllideb o'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn 2024-25 o ran y dull/system ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd emosiynol a meddyliol.
- Manylion unrhyw arian o'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ategu gwaith mewn ysgolion yn y maes hwn.
- Gwybodaeth am unrhyw ddarpariaeth gyllidebol i gefnogi iechyd meddyliol ac emosiynol pobl ifanc mewn addysg ôl-16.
- Darpariaeth yn y gyllideb ar gyfer y cynllun gweithredu a'r ymateb ehangach i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr.

## Absenoldeb disgyblion

- Gwybodaeth am unrhyw ddarpariaeth benodol yn y gyllideb i fynd i'r afael â chyfraddau absenoldeb disgyblion neu nodi pa linellau cyllideb sy'n cefnogi gwaith o'r fath yn fwy cyffredinol.

## Chwaraeon ac ymarfer corff

- Gwybodaeth am sut mae'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn cefnogi'r ddarpariaeth chwaraeon a gweithgarwch corfforol i blant a phobl ifanc, boed hynny yn yr ysgol neu y tu allan i'r ysgol, a sut mae hyn yn ymwneud ag unrhyw gyllid yn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol megis ar gyfer Pwysau Iach, Cymru Iach.

## Cefnogaeth ar gyfer dysgwyr o leiafrifoedd ethnig a dysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr

- Manylion cyllid i gefnogi addysg dysgwyr o leiafrifoedd ethnig a dysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn 2024-25 a sut mae hyn yn cael ei ddosbarthu (p'un a yw hyn yn dal yn rhan o'r Grant Gwella Addysg).

## Anghenion Dysgu Ychwanegol

- Asesiad wedi'i ddiweddaru o'r pwysau sy'n wynebu awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau wrth ddarparu'r ddarpariaeth Anghenion Addysgu Arbennig / Anghenion Dysgu Ychwanegol bresennol, effaith y cyllid ychwanegol yn y blynyddoedd blaenorol ac a fydd cyllid ychwanegol pellach yn cael ei ddarparu yn 2024-25.
- Gwybodaeth am y ddarpariaeth ariannol ar gyfer rhoi Deddf 2018 ar waith gan gynnwys asesiad wedi'i ddiweddaru ynghylch a yw diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol profi i fod yn niwtral o ran cost.
- Y sefyllfa ddiweddaraf ar gyllid ar gyfer hyfforddi seicolegwyr addysg yng Nghymru a'r trefniant cyllid grant gyda Phrifysgol Caerdydd.

## Estyn

- Manylion dyraniad cyllideb craidd Estyn ar gyfer 2024-25 o'r Prif Grŵp Gwariant Cyllid a Llywodraeth Leol a manylion unrhyw gyllid ychwanegol o'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg ar gyfer rôl Estyn mewn diwygiadau addysg.

## Cymwysterau

- Manylion y cyllid a ddyrennir i Cymwysterau Cymru yn 2024-25 a manylion unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer ei waith ar ddiwygio cymwysterau yng nghyd-destun y Cwricwlwm newydd i Gymru.

## Addysg cyfrwng Cymraeg

- Manylion darpariaeth y gyllideb i gefnogi polisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys diwygio deddfwriaethol arfaethedig a rôl y sector addysg i gyrraedd targed Cymraeg 2050 o filiwn o siaradwyr Cymraeg.
- Gwybodaeth am gyllid a ddyrannwyd i wella'r gweithlu Cymraeg mewn addysg.

## Addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant

- A wnaeth y trefniadau ariannu a oedd ar waith mewn blynyddoedd blaenorol i gefnogi cysoni cyfraddau ariannu addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant barhau yn 2023-24 ac a fydd yn parhau yn 2024-25.
- Manylion unrhyw gyllid arall o'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg i gefnogi darpariaeth blynyddoedd cynnar y sector nas cynhelir a'r Cwricwlwm i Gymru (gan gydnabod nad yw gofal plant ym mhortffolio'r Gweinidog hwn).

## Gwaith ieuenctid

- Manylion ynghylch sut mae Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg 2024-25 yn cefnogi gwasanaethau ieuenctid statudol a gwirfoddol a'r ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer bodloni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu o ran cryfhau gwasanaethau ieuenctid.
- Manylion ynghylch sut mae Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg 2024-25 yn cefnogi Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru a gwaith y Bwrdd Gweithredu.

## Dysgu ar gyfer Troseddwyr

- Gwybodaeth am ddarpariaeth y gyllideb yn 2024-25 ac unrhyw newidiadau i sut y caiff ei wario o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

## Addysg bellach, chweched dosbarth ac addysg i oedolion yn y gymuned

- Manylion dyraniadau cyflawn 2023-24 i golegau addysg bellach, i gynnwys symiau holl gydrannau'r dyraniad (h.y. amser llawn, rhan-amser, lwfans rhan-amser, lwfans amddifadedd, teneurwydd y boblogaeth a lwfansau cyfrwng Cymraeg, y lwfans cynnal a'r addasiad Dysgu Oedolion Cymru).
- Manylion unrhyw gyllid wedi'i neilltuo i sefydliadau addysg bellach neu Chweched Dosbarth y tu hwnt i'w grantiau craidd arferol.
- Manylion unrhyw gyllid a ddarperir yng nghyllideb 2024-25 at ddibenion cyflawni cydraddoldeb cyflog a/neu er mwyn bodloni unrhyw ddyfarniad cyflog i sefydliadau addysg bellach a Chweched Dosbarth, gan gynnwys esboniad ynghylch digonolrwydd y cyllid i fodloni'n llawn unrhyw ddyfarniad cyflog / cyfwerthedd cyflog  y cytunwyd arno dros gyfnod y gyllideb hon.
- Y dyraniad ar gyfer Dysgu Oedolion a'r Gymuned.
- Y rhestr lawn o werthoedd rhaglenni ar gyfer 2022-23 a 2023-24 a ddefnyddir wrth gyfrifo'r cyllid ar gyfer Addysg Bellach a'r Chweched Dosbarth.

## Addysg uwch, a chymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr ôl-16

- Manylion dyraniad y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, gan gynnwys manylion unrhyw gyllid wedi'i neilltuo, neu gyllid a fwriedir ar gyfer gweithgareddau penodol gan gynnwys iechyd meddwl a llesiant myfyrwyr.
- Manylion unrhyw ddyraniad ar gyfer 2024-25 a fwriadwyd ar gyfer cyflwyno prentisiaethau gradd, ac a fwriedir ei ddefnyddio i recriwtio prentisiaid newydd neu i ddysgu prentisiaid presennol.

- Manylion unrhyw gyllid cyfalaf sydd i fod ar gael ar gyfer y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, gan gynnwys unrhyw amodau i'w gosod arno gan Lywodraeth Cymru.
- Manylion am unrhyw gronfeydd wrth gefn / cynlluniau wrth gefn / cronfeydd heb eu dyrannu o fewn unrhyw un o'r llinellau gwariant yn ymwneud ag addysg drydyddol 2024-25, gan gynnwys y llinellau gwariant o fewn y cam gweithredu Cymorth i Ddysgwyr ôl-16; manylion sut mae'r arian yn cael ei ddefnyddio / sut gellir ei ddefnyddio; a manylion am unrhyw ddefnydd ohonynt yn ystod 2023-24.
- **Grantiau**: Tabl yn dangos alldro 2022-23, a'r gwariant a ragwelir dros y pedair blynedd ganlynol (wedi'i ddadansoddi yn ôl myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y DU) ar gyfer:
    - Grant Ffioedd Dysgu i fyfyrwyr israddedig amser llawn
    - Grant Cynhaliaeth i fyfyrwyr israddedig amser llawn
    - Grant Ffioedd Dysgu i fyfyrwyr israddedig rhan-amser
    - Grant Cynhaliaeth i fyfyrwyr israddedig rhan-amser
    - Elfen grant cyllido cwrs Meistr
    - Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA)
    - Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach)
- **Darpariaeth benthyciadau**: Tabl yn dangos alldro 2022-23, a'r gwariant at ddibenion benthyciadau a ragwelir dros y pedair blynedd ganlynol (wedi'i ddadansoddi yn ôl myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y DU) ar gyfer:
- Y gwariant a ragwelir at ddibenion benthyciadau ffioedd dysgu a chynhaliaeth ar gyfer myfyrwyr israddedig amser llawn a'r gost a godir o ran cyllidebu a chyfrifyddu adnoddau
- Y gwariant a ragwelir at ddibenion benthyciadau ffioedd dysgu a chynhaliaeth ar gyfer myfyrwyr israddedig rhan amser a'r gost a godir o ran cyllidebu a chyfrifyddu adnoddau
- Y gwariant a ragwelir o ran benthyciad cyllido cwrs Meistr a'r gost a godir o ran cyllidebu a chyfrifyddu adnoddau; a
- Y gwariant a ragwelir o ran benthyciad cyllido cwrs Doethuriaeth a'r gost a godir o ran cyllidebu a chyfrifyddu adnoddau.

- Manylion cyllido'r Cyfrif Dysgu Personol

- Manylion cyllideb y Gymraeg mewn Addysg gan gynnwys unrhyw ddyraniad ar gyfer y Coleg Cenedlaethol.

- Manylion y cyllid ar gyfer y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu (Taith).

## Y Warant i Bobl Ifanc

- Manylion am ddarpariaeth y gyllideb o'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg sy'n cyfrannu at y Warant i Bobl Ifanc a sut mae'n ymwneud â chyllid o Brif Grŵp Gwariant yr Economi.

## Cyllid cyfalaf ar gyfer seilwaith ysgolion a cholegau

- Gwybodaeth am ddarpariaeth y gyllideb ar gyfer y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a chynnydd y rhaglen hyd yma, gan gynnwys gwariant a nifer y prosiectau a gwblhawyd/a gymeradwywyd hyd yn hyn, wedi'i dadansoddi yn ôl Band A a Band B.

- Asesiad wedi'i ddiweddaru o oblygiadau'r cynnydd mewn prisiau ynni a chostau byw ar gyfer y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, gan gynnwys unrhyw effaith ar gynnydd a chostau prosiectau.

- Y goblygiadau ariannol o bolisïau sero net carbon Llywodraeth Cymru a sut mae hyn yn effeithio ar gyllideb ddrafft 2024-25.

## Cyllid cyfalaf at ddibenion gofal plant

- Gwybodaeth am gyllid cyfalaf o'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg ar gyfer y Cynnig Gofal Plant a'r rhaglen Dechrau'n Deg, gan gynnwys effaith yr adolygiad o'r hawl i'r cynnig a chymhwystra.

## Cyllid cyfalaf ar gyfer y fenter Ysgolion sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned

- Gwybodaeth am ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer y grant Canolfannau Cymunedol a Chanolfannau Dysgu Cymunedol a diweddariad ar y cynnydd o ran cynyddu natur ystadau addysg sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac addasu safleoedd i gael eu defnyddio gan y gymuned.

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi

9 Hydref 2023

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25**

Annwyl Vaughan

Hoffem gael gwybodaeth ysgrifenedig i gefnogi ein gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25. Mae'r atodiad i'r llythyr hwn yn nodi'n fanwl y wybodaeth yr hoffem ei chael.

Byddwn yn ddiolchgar o gael y wybodaeth ysgrifenedig erbyn 19 Rhagfyr 2023 fan bellaf. Nodaf fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ar 19 Rhagfyr 2023. Er ein bod fel arfer yn gofyn am y wybodaeth ysgrifenedig ychydig ddyddiau ar ôl cyhoeddi'r gyllideb ddrafft, oherwydd dyddiad cyhoeddi arfaethedig y gyllideb ddrafft, rydym yn gofyn am y wybodaeth hon ar yr un diwrnod. Er mwyn helpu i liniaru rhai o'r problemau wrth baratoi'r dystiolaeth ysgrifenedig a rhoi po fwyaf o amser â phosibl i chi baratoi'r cyflwyniad, rydym yn anfon ein cais yn gynharach yn nhymor yr hydref. Cysylltwch â'm clercod os ydych yn pryderu na fyddwch yn gallu anfon y wybodaeth erbyn y dyddiad cau arfaethedig o ystyried amserlen y gyllideb.

O ystyried y bydd gan bwyllgorau mewn rhai o'r meysydd a restrir yn yr atodiad i'r llythyr hwn ddiddordeb hefyd, rydw i wedi anfon copi at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir

Jayne Bryant AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Atodiad A: Cais i Weinidog yr Economi ynghylch craffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

## Darpariaeth addysg ôl-16

- Manylion cyllid o Brif Grŵp Gwariant yr Economi sy’n cyfrannu at ddarparu cyngor gyrfaoedd, gan gynnwys i Gyrfa Cymru.
- Manylion cyllido’r Cyfrif Dysgu Personol.
- Manylion cyllid ar gyfer y rhaglen brentisiaethau gan gynnwys datblygu fframweithiau prentisiaeth newydd ac adolygiadau o fframweithiau prentisiaeth presennol.

## Gwaith ieuenctid a chyflogadwyedd

- Manylion ynghylch sut mae Prif Grŵp Gwariant yr Economi yn cefnogi gwasanaethau ieuenctid statudol a gwirfoddol a’r ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer bodloni ymrwymiadau’r Rhaglen Lywodraethu o ran cryfhau gwasanaethau ieuenctid.
- Manylion ynghylch sut mae Prif Grŵp Gwariant yr Economi yn cefnogi Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru a gwaith y Bwrdd Gweithredu.

## Y Warant i Bobl Ifanc

- Manylion am ddarpariaeth y gyllideb o’r Prif Grŵp Gwariant yr Economi sy’n cyfrannu at y Warant i Bobl Ifanc.

## Arall

- Unrhyw fanylion eraill sydd, yn eich barn chi, yn berthnasol i waith craffu'r Pwyllgor hwn ar y Gyllideb Ddrafft.

Disability Wales
Anabledd Cymru

Dear Children, Young People and Education Committee,

We are writing to you to express the importance of including specific financial support for disabled people in the upcoming 2024-2025 budget.

We have all felt the effects of the cost-of-living crisis, but we have not all experienced it equally. We have found that there are disabled people across Wales, forced to live in awful circumstances due to the twin problems of poverty and the cost-of-living crisis. A fifth of the population of Wales is disabled[1] and households containing at least one disabled person is more likely to be living in poverty,[2] disabled people are more likely to be economically inactive or if in work, that work is more likely to be insecure and low wage.[3] Poverty has long been a problem for disabled people living in Wales, but the rising cost-of-living is forcing people into worse and worse circumstances.

The 2023-2024 budget did not provide specific support for disabled people during the crisis and our findings from our report "Barely Surviving the impact of the cost-of-living crisis on disabled people" displays some of the consequences. We found that the financial support available was short-sighted, the cost-of-living payments supporting people to pay one month of bills, but nothing beyond. Disabled people often have more essential costs than non-disabled people, this extra cost of disability has not been accounted for, beyond the support already available.

The consequences are severe. Disabled people reported only being able to eat one meal a day, having to let go of support workers or stop going to vital therapies because of cost, being unable to run access equipment due to costs, in some cases losing their lives.

---

[1] Office of National Statistics, Census 2021, "Disability, England and Wales: Census 2021", 19th January 2023, <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandwellbeing/bulletins/disabilityenglandandwales/census2021#how-disability-varied-across-england-and-wales>

[2] Joseph Roundtree Foundation, "UK Poverty 2023 – The essential guide to understanding poverty in the UK", 20th January (2023), p65, <https://www.jrf. org.uk/sites/default/files/jrf/uk_poverty_2023_-_ the_essential_guide_to_understanding_poverty_ in_the_uk_0_0.pdf>

[3] Department for Work and Pensions, "Employment of disabled people 2022", UK Government, 26th January (2023), https://www.gov.uk/government/ statistics/the-employment-of-disabledpeople-2022/employment-of-disabled-people2022#labour-market-statu

These have been difficult years to be a disabled person in Wales. We have been living through a mass-disabling coronavirus pandemic, in which disabled people have been disproportionately harmed. Disabled people have disproportionately been impacted by over a decade of austerity policies and with severe changes to their benefit entitlement from the UK Government, this period of financial uncertainty and continued poverty does not look likely to change.

We are calling for the Budget to include a series of recommendations and for certain questions to be asked of what we need and what is missing.

- The Welsh Government, health services and local authorities in Wales should provide specific support for the running and maintenance of disability related equipment, to ensure that all disabled people are not financially impacted by their need to use certain equipment.
- Welsh Government to urgently review its policy on social care charges, including whether the disregards for disability related expenditure are adequately protecting disabled people on low incomes with high costs.
- Urgent action to recognise and tackle mental health issues amongst disabled people, including pathways to accessing appropriate mental health support whether from social care, other areas of the health service and/or through peer support, such as from disabled people's organisations.
- Food subsidies should be considered to reduce the cost of food in shops. To supplement this, the Welsh Government and Local Authorities should provide support to and nurture the creation of community food schemes. These schemes should include accommodation for dietary requirements and include options for access requirements.
- Public transport, such as buses and trains, should be taken under public ownership to be delivered as a public service, including measures such as reduced ticket prices with the eventual goal to make public transport in Wales free.
- Provision of resources and capacity building measures to ensure the establishment and sustainability of at least one Disabled People's Organisation in every local authority, to support

coproduction of policies and services with public bodies, including peer support schemes for disabled people
- Commitment from the Welsh Government to prioritise tackling the extra cost of disability

For more information, please contact megan.thomas@disabilitywales.org. You can find our full report here: https://www.disabilitywales.org/wp-content/uploads/2023/07/Barely-Surviving-cost-of-living-report.pdf

Kind regards,

Megan Thomas

Policy and Research Officer

Disability Wales

Archwilio Cymru
Audit Wales

Mr Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor
Cyfrifon Cyhoeddus a
Gweinyddiaeth Gyhoeddus

1 Cwr y Ddinas / 1 Capital Quarter
Caerdydd / Cardiff
CF10 4BZ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

**Cyfeirnod:** AC388/caf
**Dyddiad cyhoeddi:** 19 Hydref 2023

Annwyl Mark

## Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: gwaith dilynol 2023

Rwy'n ysgrifennu i rannu canfyddiadau fy ngwaith dilynol ar drefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon. Cyhoeddais fy adroddiad blaenorol ym mis Tachwedd 2020, a oedd ynddo'i hun yn waith dilynol wedi i'm rhagflaenydd gyhoeddi adroddiad yn 2013.

Yn 2020, deuthum i'r casgliad canlynol: Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i gefnogi staff cyflenwi, mynd i'r afael ag achosion sylfaenol absenoldeb athrawon o'r ystafell ddosbarth, gwella trefn rheoli absenoldeb a mynd i'r afael â rhai pryderon allweddol ynghylch contractau asiantaeth. Fodd bynnag, mae bylchau mewn data yn golygu ei bod yn dal yn anodd dweud a yw rhai o'r camau hyn yn cael yr effeithiau a fwriedir.'

Ni chynhaliodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus blaenorol ymchwiliad manwl i'r pwnc hwn. Ym mis Mai 2021, darparodd Llywodraeth Cymru ymateb i'm dau argymhelliad gan dderbyn y ddau yn rhannol.

- Yr argymhelliad cyntaf oedd 'sicrhau ansawdd a digonolrwydd athrawon cyflenwi ar gyfer ysgolion'. Roedd hyn yn cynnwys atgyfnerthu pwysigrwydd rheoli absenoldeb staff yn effeithiol, bod â mesurau llwyddiant tymor hwy, a chydweithio ag asiantaethau eraill ar hyfforddiant ac adnoddau. Roedd hefyd yn cynnwys deall a oedd ysgolion yn gallu trefnu digon o staff cyflenwi yng

nghyd-destun y galwadau a oedd yn dod i'r amlwg ar y pryd ac, ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg a phynciau penodol, prinder presennol athrawon cyflenwi.

- Roedd yr ail argymhelliad yn mynd i'r afael â'r fframwaith caffael cenedlaethol ar gyfer staff asiantaeth mewn addysg. Roedd y fframwaith a oedd ar waith ar y pryd yn mynd i'r afael â llawer o bryderon a fynegwyd ynghylch trefniadau contractio blaenorol. Fodd bynnag, roedd ei gyfradd isafswm cyflog ar gyfer athrawon cyflenwi'n debygol o roi pwysau ar gyllidebau ysgolion. Roedd yr argymhelliad yn ymwneud â hyrwyddo a defnyddio'r fframwaith a'r trefniadau monitro i sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud o fewn disgrifiadau rôl.

Rwy'n ystyried bod nawr yn amser da i asesu cynnydd a hynny am y rhesymau canlynol:

- Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd y Pwyllgor Deisebau adroddiad ar ei ymchwiliad i ddeiseb 'Rhoi Chwarae Teg i Athrawon Cyflenwi'. Gwnaeth bedwar argymhelliad, yr oedd rhai ohonynt yn adleisio fy rhai innau. Gan ffafrio datrysiad yn y sector cyhoeddus, argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth bellach i drefniadau amgen ar gyfer cynorthwyo ysgolion i ddod o hyd i athrawon cyflenwi a'u cyflogi. Roedd y dewisiadau amgen a awgrymwyd yn cynnwys cyflogi'n uniongyrchol a chyflwyno trefniadau cyflenwi canolog neu ranbarthol.

- Yn ei Rhaglen Lywodraethu ar gyfer 2021-2026, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddatblygu model cynaliadwy ar gyfer darpariaeth athrawon cyflenwi sydd â gwaith teg yn ganolog iddo. Mae contract wedi'i osod i gefnogi Pwll Cyflenwi Cenedlaethol newydd Cymru a fydd yn cael ei gyflwyno o hydref 2023.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (IWPRB) adolygu telerau ac amodau athrawon cyflenwi. Yn flaenorol, dywedodd Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru y byddai goblygiadau sylweddol o ganlyniad i gynnwys contractwyr unigol ac asiantaethau o fewn cylch gwaith y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru). Bydd adroddiad Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru, a ddisgwylir ym mis Rhagfyr 2023, yn bwrw golwg ar athrawon cyflenwi sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan ysgolion ac awdurdodau lleol. Ni fydd yn cynnwys y mwyafrif o'r athrawon cyflenwi sy'n cael eu cyflogi'n bennaf gan asiantaethau.

- Yn ystod ein gwaith, roedd Llywodraeth Cymru wedi bod yn caffael contract fframwaith cenedlaethol newydd ar gyfer athrawon cyflenwi a staff dros dro eraill yn barod ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24.

Mae ein dull archwilio wedi cynnwys cyfweliadau â swyddogion Llywodraeth Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg, a chynrychiolwyr athrawon cyflenwi. Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau polisi Llywodraeth Cymru ynghyd â'i hymateb i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol a rhai'r Pwyllgor Deisebau. Fe wnaethom ddadansoddi data gwariant perthnasol ac ystyried cwmpas y contract fframwaith cenedlaethol newydd, er nad ydym wedi archwilio manylion y trefniadau caffael. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi arolwg byr yn gofyn am farn cyfarwyddwyr addysg awdurdodau lleol, gan gael saith ymateb.

Er bod y llythyr hwn yn nodi canfyddiadau allweddol o'n gwaith dilynol lefel-uchel, nid ydym wedi bwriadu iddo fod yn gofnod cynhwysfawr o ddatblygiadau cyffredinol yn y maes hwn ers fy adroddiad blaenorol.

Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed, rwyf wedi dod i'r casgliad bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd ystod o gamau gweithredu perthnasol mewn ymateb i'm hargymhellion yn 2020 a dderbyniodd gan mwyaf. Fodd bynnag, gan adlewyrchu materion tebyg i'r rhai a godwyd yn fy adroddiad blaenorol, mae bylchau mewn data, er enghraifft ar y niferoedd sy'n manteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol, diffyg gwerthuso hyd yma a diffyg darlun clir o'r hyn sy'n gyfystyr ag ansawdd da a chyflenwad digonol ar draws y system addysg, yn golygu nad yw'n glir a yw'r holl gamau gweithredu wedi bod yn effeithiol. Mae'r pwyntiau bwled isod yn crynhoi fy nghanfyddiadau.

- Ar sicrhau ansawdd a digonolrwydd athrawon cyflenwi ar gyfer ysgolion:
  - Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyhoeddusrwydd i'w chanllawiau ar reoli presenoldeb y gweithlu ysgolion ac wedi gwella'r fethodoleg ar gyfer casglu data ar absenoldeb oherwydd salwch ymhlith athrawon ond nid oes data o hyd ar gyfraddau absenoldeb am resymau eraill.
  - Yn y pen draw, ysgolion sy'n gyfrifol am sicrhau bod trefniant cyflenwi ar gael yn yr ystafell ddosbarth ac am ansawdd yr addysgu, ond nid yw Llywodraeth Cymru wedi nodi sut y bydd yn gwybod a yw ei chamau gweithredu ategol hi ei hun yn effeithiol.
  - Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i ddarparu mynediad at gyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon cyflenwi a staff cyflenwi ond nid oes data ar y niferoedd sy'n manteisio arnynt nac effaith hynny.
  - Mae adroddiadau o hyd am brinder darpariaeth gyflenwi addas mewn rhai ardaloedd, pynciau ac mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, tra bo nifer yr athrawon cyflenwi cofrestredig ar y cyfan wedi gostwng.

- Ar y contract fframwaith cenedlaethol ar gyfer staff asiantaeth mewn addysg a datblygiadau ehangach perthnasol:
  - Er nad yw wedi sefydlu unrhyw drefn fonitro systematig, ers mis Hydref 2020 nid yw Llywodraeth Cymru wedi cael gwybod am unrhyw achosion lle gofynnwyd i athrawon cyflenwi neu staff cyflenwi eraill weithio y tu allan i'w rôl a hysbysebwyd ac mae wedi atgyfnerthu ei disgwyliadau.
  - Mae'r defnydd o'r contract fframwaith cenedlaethol wedi cynyddu ychydig o gyfradd a oedd eisoes yn uchel, felly mae mwy o drefniadau cyflenwi'n cael budd o'i ofynion diogelu a chyflogaeth.
  - Gwariodd ysgolion ac awdurdodau lleol £101 miliwn ar staff asiantaeth mewn addysg trwy'r contract fframwaith yn 2022-23. Roedd hyn ychydig dros 10% yn fwy mewn termau real nag yn 2021-22 a thros dair gwaith yn fwy nag yn 2018-19 o dan y contract blaenorol.
  - Mae cyflog ar gyfer athrawon cyflenwi sy'n gweithio trwy asiantaeth wedi cynyddu, gyda'r gyfradd ddyddiol isaf ar gyfer athrawon cyflenwi a gyflogir trwy'r contract yn codi i £152 ym mis Mai 2023.
  - Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu contract fframwaith cenedlaethol newydd, gan adeiladu ar drefniadau 2019/20 – 2022/23 ond gyda gwelliannau pellach yn yr arlwy dysgu proffesiynol a threfniadau diogelu cyflogaeth.
  - Mae cynrychiolwyr athrawon cyflenwi'n ofalus obeithiol ynghylch opsiwn newydd Llywodraeth Cymru i ysgolion ac awdurdodau lleol gyflogi athrawon cyflenwi'n uniongyrchol trwy Bwll Cyflenwi Cenedlaethol Cymru sy'n cynnig mynediad at y gronfa bensiwn athrawon, ond nid yw'n hysbys faint sy'n debygol o fanteisio ar yr opsiwn, a bydd costau'n uwch nag ar hyn o bryd.

Mae **Atodiadau 1 a 2** yn rhoi rhagor o fanylion ac mae **Atodiad 3** yn cynnwys rhywfaint o ddadansoddiad ariannol ategol. Nid wyf yn cyflwyno argymhellion penodol pellach i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, byddwn yn disgwyl y bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i fonitro'r defnydd o'i chontract fframwaith a'i effeithiolrwydd yn ogystal â gwerthuso'r opsiwn newydd i gyflogi athrawon cyflenwi'n uniongyrchol i sicrhau ei fod yn effeithiol i ysgolion ac athrawon cyflenwi. Yn yr un modd, byddwn yn disgwyl i Lywodraeth Cymru adolygu effeithiolrwydd ei harlwy dysgu proffesiynol a'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol mewn perthynas ag athrawon cyflenwi a staff cyflenwi eraill. Hefyd, rwy'n dal i gredu y

byddai o werth pe bai Llywodraeth Cymru'n disgrifio sut y byddai trefniadau cyflenwi a chapasiti o ansawdd da'n edrych yn y system addysg.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Yn gywir



**ADRIAN CROMPTON**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

cc. Jayne Bryant AS, Cadeirydd – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

## Atodiad 1: Sicrhau ansawdd a digonolrwydd athrawon cyflenwi ar gyfer ysgolion

1 Mae'r atodiad hwn yn darparu ein hasesiad o gynnydd yn erbyn y cyntaf o'r argymhellion yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn 2020[1].

Yn 2020, fe wnaethom argymell bod Llywodraeth Cymru'n gwneud y canlynol:

- Atgyfnerthu yn ei phroses o ddatblygu a gweithredu polisi bod rheoli absenoldeb staff mewn modd effeithiol yn hanfodol er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i ddysgwyr.
- Nodi mesurau llwyddiant tymor hwy clir er mwyn barnu'r cynnydd o ran gwella ansawdd a digonolrwydd athrawon cyflenwi.
- Gweithio gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, consortia addysg rhanbarthol ac asiantaethau i hyrwyddo'r hyfforddiant a'r adnoddau sydd ar gael i athrawon cyflenwi a gweithwyr cymorth dysgu, yn arbennig yn rhan o'i gwaith o baratoi'r proffesiwn addysgu ar gyfer cyflwyno gwelliannau i'r cwricwlwm o fis Medi 2022.
- Egluro a all ysgolion drefnu digon o staff cyflenwi i ryddhau staff i baratoi ar gyfer cyflwyniad y cwricwlwm newydd o fis Medi 2022, yn ogystal ag ymateb i alwadau sy'n deillio o bandemig y coronafeirws. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg a phynciau lle mae prinder athrawon cyflenwi eisoes.

2 Derbyniodd Llywodraeth Cymru bwyntiau un, tri a phedwar yn ein hargymhelliad. Ni dderbyniodd bwynt 2 yn llawn. Dywedodd y byddai rhoi'r argymhelliad hwn ar waith ar y cyfan yn cael ei gyflawni trwy ddatblygu polisi parhaus ac yn y dyfodol ar ddysgu proffesiynol ac Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA), y Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (SWAC), ac arolwg gweithlu Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA). Tynnodd sylw hefyd at y cyllid ychwanegol yr oedd yn ei ddarparu ar gyfer ysgolion i recriwtio staff ychwanegol i reoli'r ymateb i COVID-19.

[1] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon: Gwaith Dilynol, Tachwedd 2020

**Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyhoeddusrwydd i'w chanllawiau ar reoli presenoldeb y gweithlu ysgolion ac wedi gwella'r fethodoleg ar gyfer casglu data ar absenoldeb oherwydd salwch ymhlith athrawon ond nid oes data o hyd ar gyfraddau absenoldeb am resymau eraill**

3 Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym ei bod yn bwriadu atgyfnerthu wrth ddatblygu a gweithredu polisi bod rheoli absenoldeb staff yn effeithiol yn hanfodol i sicrhau deilliannau cadarnhaol i ddysgwyr. I'r perwyl hwn, mae wedi rhoi cyhoeddusrwydd i'w chanllawiau anstatudol ar reoli presenoldeb y gweithlu ysgolion yn effeithiol[2] yn 'Dysg', ei newyddlen ar gyfer y gymuned addysg. Roedd Llywodraeth Cymru wedi diweddaru'r canllawiau ym mis Chwefror 2020 yn rhannol i adlewyrchu newidiadau a ddeilliodd o'r contract fframwaith cenedlaethol ar gyfer staff asiantaeth mewn addysg a gyflwynwyd ym mis Medi 2019. Bydd angen iddi ystyried a oes angen diweddaru'r canllawiau i adlewyrchu'r contract fframwaith newydd o fis Medi 2023 a newidiadau eraill (gweler **paragraffau 38-47**). Diweddarwyd gwybodaeth i athrawon cyflenwi ar ei phlatfform digidol ar gyfer ysgolion a gweithwyr addysg proffesiynol (Hwb) ym mis Gorffennaf 2023 i gynnwys gwybodaeth am Bwll Cyflenwi Cenedlaethol newydd Cymru a fframwaith 2023/24 – 2025/26.

4 Mae Llywodraeth Cymru wedi annog awdurdodau lleol ac ysgolion i ddefnyddio'r contract fframwaith ar gyfer staff asiantaeth, gan amlygu ei ofynion o ran diogelu ac ansawdd a buddion cyflogaeth, gan gynnwys isafswm cyflog ar gyfer athrawon cyflenwi (gweler **paragraff 34**). Mae pob awdurdod lleol yn ei ddefnyddio i ryw raddau er mai ychydig iawn o ddefnydd ohono y mae dwy ardal – Ynys Môn a Gwynedd – yn ei wneud (gweler **Atodiad 3, Arddangosyn 2**). Mae ysgolion yn y ddwy ardal hyn wedi parhau i gyflogi athrawon cyflenwi'n uniongyrchol o bwll o staff a weinyddir gan yr awdurdod lleol.

5 Mae ein hadroddiadau blaenorol wedi amlygu'r diffyg gwybodaeth am gyfraddau absenoldeb athrawon o'r ystafell ddosbarth am resymau heblaw salwch. Mae hyn yn parhau i fod yn wir.

---

[2] Llywodraeth Cymru, Rheoli presenoldeb gweithlu ysgolion yn effeithiol, Dogfen ganllawiau rhif: 258/2020, Chwefror 2020

6 O 2020/21, fe wnaeth Llywodraeth Cymru wella'r fethodoleg ar gyfer casglu data ar absenoldeb oherwydd salwch, gan ehangu cwmpas y data yr oedd yn ei gasglu[3]. Mae'r drefn adrodd bellach ar sail blwyddyn academaidd hefyd yn hytrach na blwyddyn galendr. Mae'r newidiadau hyn yn golygu na allwn gymharu data ar absenoldeb athrawon oherwydd salwch yn uniongyrchol o 2020/21 ymlaen â blynyddoedd cynharach. Mae data ar gyfer 2021/22[4] yn dangos bod absenoldeb oherwydd salwch yn uwch yn 2021/22 nag oedd yn 2020/21 ar sawl dangosydd. Er enghraifft:

- Yn 2021/22, cafodd 39,000 o gyfnodau o absenoldeb oherwydd salwch naill ai eu hagor neu eu cau. Mae hyn yn fwy na dwywaith cymaint ag yn 2020/21 (17,475).
- Yn 2021/22, cymerodd 65.2% o athrawon o leiaf un cyfnod o absenoldeb oherwydd salwch. Unwaith eto, mae hyn yn uwch nag yn 2020/21 (40%).
- Yn 2021/22, collodd 8.3% o athrawon fwy nag 20 niwrnod gwaith o ganlyniad i absenoldeb oherwydd salwch, i fyny o 5.5% yn 2020/21.
- Yn 2021/22, collwyd cyfartaledd o 12.8 o ddiwrnodau gwaith am bob athro/athrawes a gymerodd absenoldeb, i fyny o 11.9 yn 2020/21.

7 Fodd bynnag, rhaid cymryd gofal wrth ddehongli unrhyw duedd gan bod blwyddyn academaidd 2020/21 yn annodweddiadol oherwydd effaith pandemig COVID-19. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi, cyn y pandemig, ac o dan y trefniadau casglu data blaenorol, bod y ffigwr

---

[3] Yn flaenorol, roedd ffigyrau'n seiliedig ar gasglu data cyfanredol gan awdurdodau lleol. Daw'r ffigyrau diweddaraf o'r Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion. Maent yn defnyddio data a gedwir trwy gydol y flwyddyn mewn systemau Adnoddau Dynol/cyflogres. Maent hefyd bellach yn cynnwys data gan ysgolion sydd wedi optio allan o gytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer y gyflogres a/neu Adnoddau Dynol gyda'u hawdurdod lleol. Gweler Llywodraeth Cymru, Data'r Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion: gwybodaeth gefndir a gwybodaeth am ansawdd a methodoleg, Gorffennaf 2023.

[4] Gweler Llywodraeth Cymru, Canlyniadau Cyfrifiad Gweithlu Ysgolion: ym mis Tachwedd 2022, Gorffennaf 2023, a StatsCymru, Absenoldeb athrawon trwy salwch (SWAC) a ddiweddarwyd ddiwethaf ym mis Gorffennaf 2023.

ar gyfer cyfran yr athrawon a gymerodd o leiaf un cyfnod o absenoldeb oherwydd salwch y flwyddyn yn amrywio rhwng 61.1% a 62.1% yn y tair blwyddyn galendr rhwng 2017 a 2019.

**Yn y pen draw, ysgolion sy'n gyfrifol am sicrhau bod trefniant cyflenwi ar gael yn yr ystafell ddosbarth ac am ansawdd yr addysgu, ond nid yw Llywodraeth Cymru wedi nodi sut y bydd yn gwybod a yw ei chamau gweithredu ategol hi ei hun yn effeithiol**

8 Ni dderbyniodd Llywodraeth Cymru ein hargymhelliad yn llawn ynghylch pennu rhai mesurau llwyddiant eglur dros y tymor hwy y gellir eu defnyddio i farnu'r cynnydd o ran gwella ansawdd a digonolrwydd athrawon cyflenwi. Ei rhesymeg oedd mai mater i arweinwyr ysgolion unigol yw mesur ansawdd neu allu staff ysgolion (yn aelodau o staff parhaol a thros dro)[5]. Fodd bynnag, disgrifiodd ymateb Llywodraeth Cymru sut yr oedd yn bwriadu mynd i'r afael â phrinderau, meithrin capasiti, a hybu ansawdd. Mae wedi cefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol, er enghraifft trwy gyhoeddi canllawiau, rheoli a datblygu'r contract fframwaith, a darparu mynediad at ddysgu proffesiynol ar gyfer staff cyflenwi.

9 Rydym yn deall y gwahanol gyfrifoldebau am ddarparu athrawon cyflenwi a sicrhau ansawdd, ond rydym yn dal i gredu y byddai'n werth i Lywodraeth Cymru ddisgrifio sut y byddai trefniadau cyflenwi a chapasiti o ansawdd da'n edrych ar draws y system addysg. Byddai hyn yn ei gwneud yn bosibl craffu ar effeithiolrwydd a gwerthuso effeithiolrwydd ei gweithredoedd o ran cyflawni'r canlyniadau a ddymunir.

[5] Mae Llywodraeth Cymru yn gwahaniaethu cyfrifoldebau addysg ar draws tair haen. Llywodraeth Cymru, Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl, Cynllun Gweithredu 2017-21, Medi 2017.

**Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i ddarparu mynediad at gyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon cyflenwi a staff cyflenwi ond nid oes data ar y niferoedd sy'n manteisio arnynt nac effaith hynny**

10 Fe wnaeth ein hadroddiadau yn 2013[6] a 2020 amlygu'r angen am ddysgu proffesiynol ar gyfer athrawon cyflenwi a staff cyflenwi eraill a disgrifio'r rhwystrau a wynebir ganddynt. Canfu ein hadroddiad yn 2022 ar y Cwricwlwm newydd i Gymru[7] fod athrawon a chynorthwywyr addysgu cyflenwi'n wynebu mwy o anawsterau nag athrawon eraill wrth geisio cael gafael ar adnoddau.

11 Ers ein hadroddiad yn 2020, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i drefnu bod deunyddiau dysgu proffesiynol ar gael i athrawon cyflenwi ac eraill ar Hwb, y gall athrawon cyflenwi gael mynediad ato. Hefyd, darparodd gyllid a oedd yn gyfanswm o £915,000 yn 2019-20 a 2020-21 i Gyngor y Gweithlu Addysg i ddatblygu gwefan Addysgwyr Cymru, sy'n cyfeirio defnyddwyr cofrestredig at ddeunyddiau dysgu proffesiynol ar Hwb ac mewn mannau eraill. Fodd bynnag, nid yw'n hysbys i ba raddau y mae athrawon cyflenwi'n manteisio ar y deunyddiau hyn ac nid yw eu heffeithiolrwydd wedi cael ei werthuso.

12 Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i hyrwyddo pasbort dysgu proffesiynol Cyngor y Gweithlu Addysg fel offeryn i athrawon cyflenwi gofnodi a myfyrio ar eu dysgu proffesiynol. Mae'n ofynnol i unrhyw athro newydd gymhwyso sy'n gweithio tuag at gofrestru ddefnyddio'r pasbort i ddarparu tystiolaeth o ddysgu. Fodd bynnag, ni wyddys faint o athrawon cyflenwi neu gynorthwywyr addysgu eraill sy'n ei ddefnyddio.

13 Mae'r contract fframwaith cenedlaethol yn nodi y dylai asiantaethau ddarparu 'cyfleoedd a chymorth dysgu proffesiynol rheolaidd a pherthnasol, yn rhad ac am ddim... gan gydnabod y dirwedd addysg sy'n newid yng Nghymru'. Mae'n pennu lefel isafswm o hyfforddiant gorfodol (lefel un diogelu, codi a chario, cymorth cyntaf a rheoli ymddygiad). Mae gwybodaeth a ddychwelwyd i Lywodraeth Cymru ar gyfer 2021/22 yn awgrymu bod asiantaethau ar y fframwaith yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu a datblygu. Roedd

---

[6] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon, Medi 2013

[7] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Y Cwricwlwm newydd i Gymru, Mai 2022

natur y gweithgareddau a oedd yn cael eu cynnig yn amrywio ac, i bawb, roeddent yn mynd y tu hwnt i'r gofyniad lleiaf. Fodd bynnag, nid yw'r data'n ei gwneud yn glir faint o staff cyflenwi a gyflogir trwy asiantaeth sy'n ymgysylltu â'r gweithgareddau sydd ar gael, nac ychwaith pa un a oedd yr asiantaethau'n gwerthuso eu heffaith.

14 Ym mis Chwefror 2022, cynigiodd Llywodraeth Cymru gyflwyno Hawl Genedlaethol newydd ar gyfer Dysgu Proffesiynol (yr Hawl)[8]. Dull cenedlaethol o fynd ar drywydd dysgu proffesiynol gydol gyrfa ar gyfer y gweithlu ysgolion, gan gynnwys athrawon a gweithwyr cymorth dysgu cyflenwi, ydyw. Mae manylion yr Hawl, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2022, yn dangos ei bod yn cynnwys mynediad at ddysgu proffesiynol a disgwyliad y bydd athrawon ac eraill yn mynd ati'n frwd i ymgysylltu â datblygiad proffesiynol mynd ar ei drywydd.

15 Cafodd asiantaethau cyflenwi eu cynnwys yng nghyfarfodydd Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r Hawl ar y cyd rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2022. Mae'r contract fframwaith cenedlaethol newydd o fis Medi 2023 yn cynnwys gofyniad i asiantaethau gynnwys mynediad at yr Hawl yn eu telerau cyflogaeth. Gan nad yw'r fframwaith yn weithredol eto, nid yw'n glir sut y bydd mynediad at yr Hawl yn cael ei wireddu'n ymarferol.

**Mae adroddiadau o hyd am brinder darpariaeth gyflenwi addas mewn rhai ardaloedd, pynciau ac mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, tra bo nifer yr athrawon cyflenwi cofrestredig ar y cyfan wedi gostwng**

16 Yn ystod pandemig COVID-19, daeth Llywodraeth Cymru'n ymwybodol bod rhai ysgolion yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i drefniadau cyflenwi digonol. Mae wedi dweud wrthym, er bod athrawon cyflenwi ar gael gan y rhan fwyaf o asiantaethau, bod staff yn amharod i symud rhwng ysgolion. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau i gynghorau ac ysgolion i ystyried sut yr oeddent yn cyflogi athrawon cyflenwi yn ystod y pandemig. Anogodd ysgolion i roi contractau hirdymor os oedd angen parhaus am drefniadau cyflenwi. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod asiantaethau hefyd wedi ceisio cynyddu'r gweithlu, er enghraifft trwy gysylltu â phobl a arferai weithio fel

---

[8] Llywodraeth Cymru, Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, Medi 2022

athrawon cyflenwi'n flaenorol. Roedd rhai'n cynnig cymhellion lle'r oedd hi'n arbennig o anodd dod o hyd i athrawon cyflenwi.

17 Fe wnaeth pob un o'r saith cyfarwyddwr addysg a ymatebodd i'n harolwg sôn am yr anawsterau presennol wrth geisio canfod athrawon cyflenwi addas. Yn benodol, ac yn gyson â'r materion a nodwyd yn ein hadroddiad blaenorol, fe amlygon nhw enghreifftiau a oedd yn effeithio ar ardaloedd gwledig, ysgolion uwchradd, ysgolion cyfrwng Cymraeg, a rhai pynciau. Mae'r bylchau hyn hefyd yn adlewyrchu meysydd lle bu diffygion o ran recriwtio i addysg gychwynnol i athrawon, er enghraifft ar gyfer addysg uwchradd ac addysg cyfrwng Cymraeg[9].

18 Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn darparu cymhellion i hyfforddi mewn meysydd lle ceir prinder ers sawl blwyddyn. Ym mis Ebrill 2023, cyhoeddodd gymhellion ychwanegol ar gyfer athrawon cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys taliad cadw o £5,000 ar gyfer athrawon uwchradd sydd wedi cwblhau tair blynedd o addysgu ar ôl ennill statws athro cymwysedig. Bydd athrawon cyflenwi sy'n gallu dangos eu bod wedi cwblhau'r hyn sy'n cyfateb i dair blynedd o addysgu uwchradd ac sy'n parhau i weithio mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn gallu gwneud cais am y fwrsariaeth.

19 Mae nifer yr athrawon cyflenwi cofrestredig wedi gostwng o 4,635 yn 2020 i 3,867 yn 2023, gostyngiad o 16.6%[10]. Cymerodd rhai athrawon cyflenwi waith mewn sectorau eraill yn ystod pandemig COVID-19 yn 2019/20 a 2020/21[11].

---

[9] Mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn pennu dyraniadau ar gyfer addysg gychwynnol i athrawon (AGA) bob blwyddyn. Dim ond 66% o'r dyraniad oedd y nifer a ddechreuodd AGA uwchradd yn 2021/22. Gostyngodd y nifer a oedd yn hyfforddi yn Gymraeg ychydig yn 2021/22 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ond fel arall oedd yn uwch nag a fu ers 2010/11. Mae nifer yr hyfforddeion ar gyfer addysg gynradd wedi bod yn uwch na'r dyraniad yn 2020/21 a 2021/22 yn dilyn sawl blwyddyn pan oedd yn llai na'r nifer yr oedd ei angen. Ystadegau Cymru Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru, 2021/22, SB 19/23, Mai 2023.

[10] Cyngor y Gweithlu Addysg, Ystadegau Blynyddol ar gyfer y Gweithlu Addysg yng Nghymru, 2023

[11] Cyfyngwyd ar waith ar gyfer athrawon cyflenwi a staff cyflenwi eraill o ganlyniad i gau ysgolion a thrwy gyndynrwydd ar ran ysgolion a/neu athrawon i symud rhwng

O fis Gorffennaf 2020, cafodd rhai athrawon a gweithwyr cymorth dysgu cyflenwi eu recriwtio i rolau newydd a grëwyd gan ysgolion gan ddefnyddio cyllid o raglen 'Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau' Llywodraeth Cymru i gefnogi disgyblion yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan y pandemig[12]. Erbyn mis Mawrth 2023, roedd £165.5 miliwn wedi cael ei ddosbarthu trwy'r rhaglen i ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar, gan greu 2,452 o rolau yn ôl yr amcangyfrif, yn bennaf mewn cymorth dysgu. Mae'r buddsoddiad hwn yn parhau ond ar lefel is ar gyfer 2023-24 (£37.5 miliwn) a 2024-25 (£28.5 miliwn).

20 Dywedodd ein hadroddiad yn 2020 y byddai angen trefniadau cyflenwi er mwyn galluogi athrawon i baratoi ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru y byddai cost y trefniadau cyflenwi hyn yn £10.8 miliwn yn 2020/21 (roedd amcangyfrifon yn amrywio o £5.4 miliwn i £16.1 miliwn). Nid oedd yn glir i ni a oedd digon o athrawon cyflenwi ar gael. Er mwyn caniatáu mwy o amser ar gyfer paratoadau angenrheidiol, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddeddfu ar gyfer diwrnod hyfforddiant mewn swydd ychwanegol yn 2019/20, 2020/21 a 2021/22. Byddir yn parhau â hyn am dair blynedd academaidd bellach o 2022/23. Mae'r diffyg gwybodaeth am resymau dros ddefnyddio trefniadau cyflenwi (gweler **paragraff 5**) yn golygu nad ydym yn gwybod ar gyfer faint o'r diwrnodau disgwyliedig hyn y darparwyd trefniadau cyflenwi yn 2020/21 a 2021/22.

---

ysgolion neu ddosbarthiadau. Mae'n bosibl bod staff cyflenwi sy'n gweithio i asiantaethau wedi bod yn gymwys i gael rhywfaint o gymorth ariannol o dan gynllun ffyrlo Llywodraeth y DU. Nid oedd staff cyflenwi hunangyflogedig yn gymwys i gael cymorth ffyrlo ac fe dalwyd i'r rhai ar gontractau cyfnod penodol mewn ysgolion nes i'r contract ddod i ben.

[12] Andrews, G., Bajjada, T., Howells, J., KilBride, K., Morgan, N., Richardson, M., Wise, C., Bebb, H., Bryer, N. a Roberts, M., Gwerthusiad o'r Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau ac o Raglen y Blynyddoedd Cynnar, Llywodraeth Cymru, adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 50/2023, Mai 2023

## Atodiad 2: Y contract fframwaith cenedlaethol ar gyfer staff asiantaeth mewn addysg a datblygiadau ehangach perthnasol

21 Mae'r atodiad hwn yn darparu ein hasesiad o gynnydd yn erbyn yr ail o'r argymhellion yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn 2020. Mae hefyd yn cynnwys dadansoddiad wedi'i ddiweddaru ar wariant ar drefniadau cyflenwi trwy'r contract fframwaith cenedlaethol a sylwebaeth ar ddatblygiadau ehangach eraill sy'n berthnasol i'r fframwaith.

22 Ac yntau’n cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Medi 2019 a mis Gorffennaf 2022 i ddechrau, manteisiodd Llywodraeth Cymru ar y cyfle i estyn y fframwaith hwnnw o flwyddyn tra’r oedd yn mynd trwy broses gaffael ar gyfer trefniadau newydd o fis Medi 2023[13].

23 Wrth ystyried tueddiadau mewn gwariant o dan y fframwaith, mae'n bwysig cydnabod effeithiau posibl pandemig COVID-19 a'u heffaith ar y gallu i ddwyn cymhariaeth rhwng blynyddoedd tebyg. Mae hyn yn cynnwys cau ysgolion yn ystod 2019/20 a 20/21. Canfu gwerthusiad[14] nad oedd ysgolion fel rheol yn gwario arian a oedd ar gael trwy'r rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau ar drefniadau cyflenwi. Serch hynny, efallai y bu rhywfaint o wariant ychwanegol yn gysylltiedig ag ymdrechion adfer.

---

[13] Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (GCC) Llywodraeth Cymru sefydlodd y fframwaith. Ers 2019, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud newidiadau i'r ffordd y mae'n rheoli caffael, gan gynnwys contractau cenedlaethol sy'n cynnwys cyrff eraill. Nid yw'r GCC yn bodoli fel endid mwyach. Mae'r trefniadau ar gyfer y contract fframwaith cenedlaethol ar gyfer staff asiantaeth bellach yn cael eu rheoli fel rhan o raglen ehangach Cyfarwyddiaeth Fasnachol a Chaffael Llywodraeth Cymru. Caiff ei ddatblygu a’i osod mewn partneriaeth gyda llywodraeth leol.

[14] Gweler **troednodyn 12**.

Yn 2020, fe wnaethom argymell bod Llywodraeth Cymru’n gwneud y canlynol:

- rhoi trefniadau monitro ar waith ar gyfer gweithredu’r contract er mwyn sicrhau bod athrawon cyflenwi, goruchwylwyr cyflenwi a gweithwyr cymorth dysgu yn gweithio’n unol â disgrifiad eu swyddogaethau;
- annog ysgolion i ddefnyddio ei chontract cenedlaethol ar gyfer staff asiantaeth er mwyn elwa ar ei safonau ansawdd a’i drefniadau diogelu; ac yn
- monitro’r gyfradd sy’n manteisio ar ei chontract cenedlaethol ar gyfer staff asiantaeth er mwyn gweld a yw ysgolion yn newid i ddefnyddio asiantaethau y tu hwnt i ofynion y contract.

24 Derbyniodd Llywodraeth Cymru bwyntiau dau a thri yn yr argymhelliad hwn. Nododd nad oedd yn derbyn pwynt 1, er ei bod wedi cymryd rhai camau gweithredu penodol (gweler isod).

**Er nad yw wedi sefydlu unrhyw drefn fonitro systematig, ers mis Hydref 2020 nid yw Llywodraeth Cymru wedi cael gwybod am unrhyw achosion lle gofynnwyd i athrawon cyflenwi neu staff cyflenwi eraill weithio y tu allan i'w rôl a hysbysebwyd ac mae wedi atgyfnerthu ei disgwyliadau**

25 Roedd ymateb Llywodraeth Cymru i'n hargymhelliad yn pwysleisio cyfrifoldebau ysgolion a'u cyrff llywodraethu am bennu'r mathau o rolau cyflenwi y mae eu hangen a sicrhau bod aelodau staff yn gweithio yn unol â’r rôl y’u penodwyd iddi. Nododd Llywodraeth Cymru nad oedd yn bwriadu sefydlu unrhyw drefn fonitro systematig ei hun. Fodd bynnag, nododd ei bod eisoes wedi coladu data ar wariant yn erbyn gwahanol rolau i helpu i fonitro tueddiadau ac amrywiadau. Nododd Llywodraeth Cymru hefyd ei bod wedi cyhoeddi cyngor i asiantaethau i ofyn iddynt sicrhau bod hysbysebion am staff cyflenwi’n nodi'n glir beth yw’r rôl, y gofynion a'r cyflog.

26 Mae contract fframwaith 2019/20 – 2022/23 yn ei gwneud yn ofynnol i hysbysebion nodi'r categori o staff cyflenwi y mae ei angen. Mae Llywodraeth Cymru wedi annog ysgolion, unigolion ac asiantaethau i roi gwybod am achosion lle gofynnwyd i staff cyflenwi weithio y tu allan i'w rôl benodol. Dywedodd Cyfarwyddiaeth Fasnachol Llywodraeth Cymru wrthym nad yw wedi cael gwybod am unrhyw achosion o'r fath ers mis Hydref 2020.

**Mae'r defnydd o'r contract fframwaith cenedlaethol wedi cynyddu ychydig o gyfradd a oedd eisoes yn uchel, felly mae mwy o drefniadau cyflenwi'n cael budd o'i ofynion diogelu a chyflogaeth**

27 Ysgolion sy'n gyfrifol am benderfyniadau staffio, gan gynnwys pa drefniant cyflenwi y byddant yn ei ddefnyddio ar gyfer absenoldeb. Nid yw'n ofynnol iddynt ddefnyddio'r contract fframwaith cenedlaethol i sicrhau staff asiantaeth. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi ei hyrwyddo i ysgolion ac awdurdodau lleol fel eu bod yn cael budd o'i ofynion i gefnogi diogelu, ansawdd gwell ac amodau cyflogaeth gwell i staff cyflenwi. Mae'r amodau gwell yn cynnwys isafswm cyflog ar gyfer athrawon cyflenwi (gweler **paragraff 34**).

28 Yn ein hadroddiad yn 2020, fe wnaethom amlygu risg y gallai ysgolion geisio cwtogi ar gostau trwy newid i asiantaethau y tu allan i'r fframwaith nad yw'n ofynnol iddynt dalu isafswm cyflog i athrawon cyflenwi. Amcangyfrifodd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol fod yr asiantaethau recriwtio addysg a oedd ar fframwaith 2019/20 - 2022/23[15] i ddechrau yn arfer rhoi cyfrif am oddeutu 90% o'r gwariant cyffredinol gydag asiantaethau. Mae Llywodraeth Cymru'n amcangyfrif bod cyfran y gwariant ar y cyfan gydag asiantaethau trwy'r fframwaith wedi cynyddu o 89.6% yn 2019-20 i 92% yn 2021-22. Mae hyn yn awgrymu nad yw'r risg hon wedi dod yn ffaith. Mae **Atodiad 3** yn darparu dadansoddiad pellach o wariant.

29 Amlygodd ein hadroddiad blaenorol risg hefyd y gallai ysgolion ddefnyddio mwy o staff heb gymhwyso ar gyfer cyflenwi, yn hytrach nag athrawon, wrth i'r gwahaniaeth mewn costau dyfu. Canfu ein dadansoddiad o wariant trwy'r fframwaith fod athrawon cyflenwi yn rhoi cyfrif am gyfran ychydig yn llai o ddyddiau cyflenwi a archebwyd trwy'r contract yn 2021-22 (37%) o'i gymharu â 2019-20 (40%). Heb wneud gwaith manylach, ni allwn wybod i ba raddau y mae ysgolion wedi bod yn defnyddio staff heb gymhwyso i leihau costau neu am resymau eraill.

---

[15] Roedd dwy o'r 27 o asiantaethau a oedd ar fframwaith 2019/20 – 2022/23 i ddechrau wedi ei adael ar adeg ein hadroddiad yn 2020. Roedd y ddau fframwaith flaenorol ar gyfer 2012/13 – 2014/15 a 2015/16 – 2018/19 yn cynnwys un cwmni yn unig, New Directions Education Ltd, sy'n dal i ddenu tua thraean o wariant y fframwaith.

**Gwariodd ysgolion ac awdurdodau lleol £101 miliwn ar staff asiantaeth mewn addysg trwy'r contract fframwaith yn 2022-23. Roedd hyn ychydig dros 10% yn fwy mewn termau real nag yn 2021-22 a thros dair gwaith yn fwy nag yn 2018-19 o dan y contract blaenorol**

30 Heb gael gwybodaeth gan ysgolion a chynghorau unigol, ni allwn gyfrifo cyfanswm y gwariant ar drefniadau cyflenwi, a fyddai'n cynnwys gwariant trwy asiantaethau y tu allan i'r contract fframwaith cenedlaethol a chyflogaeth uniongyrchol gan ysgolion. Mae Llywodraeth Cymru'n monitro gwariant trwy'r contract fframwaith.

31 Yn 2022-23, gwariodd ysgolion ac awdurdodau lleol £101 miliwn ar drefniadau cyflenwi trwy'r fframwaith. Roedd hyn 10.7% yn fwy mewn termau real (gan lwfio am chwyddiant) nag yn y flwyddyn flaenorol (gweler **Atodiad 3, Arddangosyn 1**). Roedd dros dair gwaith yn fwy nag yn 2018-19, blwyddyn ariannol lawn olaf y contract blaenorol pan oedd gwariant yn £28.8 miliwn mewn termau real. Mae'r ffigyrau hyn yn cynnwys gwariant ar staff nad ydynt yn gweithio yn yr ystafell ddosbarth fel gofalwyr a staff gweinyddol ac arlwyo (gweler **paragraff 50**).

32 Bydd sawl ffactor wedi cyfrannu at y cynnydd mewn gwariant trwy'r fframwaith, gan gynnwys:

- nifer uwch o ddiwrnodau pan fo angen trefniadau cyflenwi – yn 2022-23, prynodd ysgolion ac awdurdodau lleol 647,125 o ddiwrnodau o gyflenwi trwy'r contract, 9% yn fwy nag yn 2021-22 (593,368);
- cynnydd yn y tâl dyddiol a godir ar ysgolion am athrawon a chynorthwywyr addysgu cyflenwi (gweler **Atodiad 3, Arddangosyn 3**), sy'n adlewyrchu cynnydd yn yr isafswm cyflog ar gyfer athrawon cyflenwi sy'n uwch na chyfradd chwyddiant (gweler **paragraff 34**); a
- chynnydd yn y gyfran o gyfanswm y gwariant ar asiantaethau sy'n digwydd trwy'r fframwaith (gweler **paragraff 28**).

33 Mae'r contract fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau ddatgan uchafswm ffi'r asiantaeth a darparu anfonebau ar gyfer ysgolion sy'n nodi elfennau'r ffioedd yn glir. Nid ydym wedi gwirio a yw'r gofynion hynny'n cael eu hateb. Nododd ein hadroddiad yn 2020 fod uchafswm ffioedd, yn ôl Llywodraeth Cymru, yn amrywio rhwng £15 a £50 y dydd o dan gontract fframwaith 2015/16 – 2018/19. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod uchafswm ffioedd yn

amrywio rhwng £20 a £50 yng nghytundeb 2019/20 – 2022/23 . Mae Llywodraeth Cymru'n amcangyfrif mai £20.49 oedd ffi gyfartalog asiantaethau ar gyfer athrawon cyflenwi yn 2021-22, sef 11% o gyfanswm y tâl dyddiol a oedd yn cael ei godi (gweler **Atodiad 3, Arddangosyn 4**). Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod uchafswm ffioedd yn 2023/24 yn amrywio rhwng £20 a £70.

**Mae cyflog ar gyfer athrawon cyflenwi sy'n gweithio trwy asiantaeth wedi cynyddu, gyda'r gyfradd ddyddiol isaf ar gyfer athrawon cyflenwi a gyflogir trwy'r contract yn codi i £152 ym mis Mai 2023**

34 Mae contract fframwaith 2019/20 – 2022/23 yn gosod isafswm cyflog ar gyfer athrawon cyflenwi sy'n cyfateb i bwynt gwaelod y brif raddfa ar gyfer athrawon yng Nghymru. Roedd hyn yn £128 y dydd yn 2019/20 (gweler **Atodiad 3, Arddangosyn 5**). Cododd i £150 y dydd o 1 Medi 2022 – 11 Mai 2023 a £152 o 12 Mai 2023[16], yn rhannol oherwydd bod athrawon cyflenwi a gyflogir trwy'r fframwaith wedi cael budd o benderfyniad Llywodraeth Cymru i dalu o leiaf yr un faint â'r cyflog yn Lloegr. Ym mis Medi 2019, ymrwymodd Llywodraeth y DU i godi cyflog cychwynnol athrawon newydd gymhwyso i £30,000 erbyn 2022/23. Cafodd hyn ei ohirio tan 2025 yn ddiweddarach ond, o ganlyniad, mae pwynt isaf y raddfa gyflog wedi codi ar gyfradd uwch na chyflog cyfartalog athrawon. Mae nifer y diwrnodau gwaith yn y flwyddyn yn effeithio ar y gyfradd ddyddiol hefyd felly mae gwyliau cyhoeddus ychwanegol yn 2021/22 (un) a 2022/23 (dau) wedi cynyddu'r gyfradd ddyddiol ychydig yn y blynyddoedd hynny. Nid yw'n hysbys pa mor aml y mae ysgolion yn talu mwy na'r isafswm i athrawon cyflenwi.

35 Ni wnaeth Llywodraeth Cymru gynnwys isafswm cyflog ar gyfer staff cyflenwi eraill yn ei chontract fframwaith 2019/20 – 2022/23 ac nid yw'n cynnwys hyn yn

[16] Cytunodd Llywodraeth Cymru ar ddyfarniad cyflog diwygiedig ar gyfer 2022/23 ym mis Ebrill 2023. Daeth Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2022 i rym ar 12 Mai 2023. Fe wnaeth y dyfarniad diwygiedig godi pwynt isafswm graddfa gyflog athrawon o £28,866 i £29,278 ac fe ôl-ddyddiwyd hyn i 1 Medi 2022. O ganlyniad, cynyddodd cyflog dyddiol athrawon cyflenwi a gyflogir trwy'r contract fframwaith i £152. Cafodd y cynnydd mewn cyflog dyddiol trwy'r fframwaith ei roi ar waith o 12 Mai 2023 ac ni chafodd ei gymhwyso'n ôl-weithredol.

ei chontract newydd o fis Medi 2023. Nid oes graddfa gyflog genedlaethol ar gyfer staff ysgolion nad ydynt yn athrawon. Mae rhai awdurdodau lleol wedi ymrwymo i fod yn gyflogwyr cyflog byw cenedlaethol sydd wedi arwain at gyflog uwch i gynorthwywyr addysgu, ac a allai fod wedi bod o fudd i staff cyflenwi hefyd[17].

**Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu contract fframwaith cenedlaethol newydd, gan adeiladu ar drefniadau 2019/20 – 2022/23 ond gyda gwelliannau pellach yn yr arlwy dysgu proffesiynol a threfniadau diogelu cyflogaeth**

36 Yn ystod ein gwaith dilynol, mae Llywodraeth Cymru wedi bod trwy'r broses gaffael ar gyfer contract fframwaith newydd a fydd yn cwmpasu’r cyfnod rhwng 2023/24 a 2025/26. Gan weithio gyda llywodraeth leol, dyfarnodd y contract ym mis Gorffennaf 2023. Bydd asiantaethau'n parhau i dalu ffi o 0.5% am bob diwrnod a brynir trwy'r fframwaith cenedlaethol i Lywodraeth Cymru i dalu am gost rheoli'r fframwaith. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau faint a gafodd o dan y trefniant hwn.

37 Mae fframwaith 2023/24 – 2025/26 yn cynnwys 41 o asiantaethau ar y cyfan, gyda rhwng 14 a 34 o asiantaethau yn ardal pob awdurdod lleol. Mae ei delerau'n debyg fwy neu lai i gontract 2019/20 – 2022/23 ond gyda rhai elfennau ychwanegol:

- Bydd asiantaethau'n ymgorffori'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol (gweler **paragraff 14**) yn eu telerau cyflogaeth.
- Bydd Arolygiaeth Safonau’r Asiantaeth Gyflogaeth yn ystyried rhai elfennau o ofynion y fframwaith wrth arolygu asiantaethau yng Nghymru ac yn rhannu ei hadroddiadau gyda Llywodraeth Cymru. Bydd yn ofynnol hefyd i asiantaethau bartneru gyda Jobs Aware, sefydliad sy'n rhoi cyngor am ddim i weithwyr nad ydynt yn barhaol. Rhaid iddynt arddangos logo Jobs Aware ar slipiau cyflog.

---

[17] O fis Ebrill 2023, yr isafswm cyflog byw cenedlaethol i bobl 23 oed a throsodd yw £10.42 yr awr. Mae rhai cyflogwyr yn talu isafswm 'cyflog byw go iawn' yn wirfoddol a hwnnw’n cael ei gyfrifo ar sail wahanol i'r isafswm cyflog statudol. Ym mis Gorffennaf 2023, mae hyn yn £10.90 i bobl 18 oed a throsodd y tu allan i Lundain.

**Mae cynrychiolwyr athrawon cyflenwi'n ofalus obeithiol ynghylch opsiwn newydd Llywodraeth Cymru i ysgolion ac awdurdodau lleol gyflogi athrawon cyflenwi'n uniongyrchol trwy Bwll Cyflenwi Cenedlaethol Cymru sy'n cynnig mynediad at y gronfa bensiwn athrawon, ond nid yw'n hysbys faint sy'n debygol o fanteisio ar yr opsiwn, a bydd costau'n uwch nag ar hyn o bryd**

38 Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd y Pwyllgor Deisebau adroddiad ar ei ymchwiliad 'Rhoi Chwarae Teg i Athrawon Cyflenwi' ynghylch cyflog ac amodau athrawon cyflenwi[18]. Gwnaeth bedwar argymhelliad, yr oedd rhai ohonynt yn ymdrin â materion tebyg i'r rhai yr ymdriniwyd â hwy gan ein hargymhellion ninnau yn 2020. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru ystyried trefniadau amgen ar gyfer athrawon cyflenwi, gan ddweud ei fod o'r farn y byddai datrysiad sector cyhoeddus yn cynnig manteision sylweddol o'i gymharu ag asiantaethau recriwtio.

39 Yn ei hymateb i argymhellion y Pwyllgor, fe wnaeth Llywodraeth Cymru amlygu'r ffaith bod Tasglu Gweinidogol ar gyfer Modelau Cyflenwi wedi ystyried yr opsiynau cyflawni yn y dyfodol ar gyfer athrawon cyflenwi yn 2017 ond nad oedd wedi dod o hyd i un model cyflenwi yr oedd yn ei ystyried yn ymarferol yng Nghymru[19]. Fodd bynnag, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n ystyried adolygiad annibynnol arall i gyflogi athrawon cyflenwi i oleuo unrhyw gynigion ar gyfer modelau amgen posibl.

40 Yn y cyfamser, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (IWPRB) ystyried a ddylai cylch gwaith Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru gynnwys cyflog ac amodau athrawon cyflenwi. Ym mis Mai 2021, adroddodd Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru y byddai goblygiadau sylweddol o ganlyniad i gynnwys contractwyr ac asiantaethau unigol yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol

---

[18] Pwyllgor Deisebau Senedd Cymru, Deiseb P-05-805 Rhoi Chwarae Teg i Athrawon Cyflenwi, Mawrth 2021

[19] Tasglu Gweinidogol ar gyfer Modelau Cyflenwi, Adroddiad i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Chwefror 2017

(Cymru)[20]. Wedi hynny gofynnodd Llywodraeth Cymru i Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru ystyried telerau ac amodau athrawon cyflenwi ochr yn ochr ag adolygiad mwy cyffredinol o gyflog ac amodau athrawon[21]. Bu oedi gyda'r adolygiad ehangach ac mae disgwyl adroddiad ar delerau ac amodau athrawon cyflenwi a gyflogir yn uniongyrchol gan ysgolion ym mis Rhagfyr 2023. Ni fydd yn ystyried telerau ac amodau staff cyflenwi sy'n gweithio trwy asiantaethau[22].

41 Ym mis Mehefin 2021, yn ei Rhaglen Lywodraethu 2021-26, fe gynhwysodd Llywodraeth Cymru ymrwymiad i 'ddatblygu model cynaliadwy ar gyfer darpariaeth athrawon cyflenwi sydd â gwaith teg yn ganolog iddo'[23]. Ym mis Rhagfyr 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn bwriadu cyflawni'r ymrwymiad trwy gaffael platfform e-archebu i gefnogi model cyflogaeth lle mae awdurdodau lleol ac ysgolion yn cyflogi athrawon a chynorthwywyr addysgu cyflenwi yn uniongyrchol[24]. Cynhaliwyd y broses gaffael hon ochr yn ochr â'r contract fframwaith newydd ac mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno'r platfform o fis Medi 2023.

42 Bydd Pwll Cyflenwi Cenedlaethol Cymru'n galluogi awdurdodau lleol ac ysgolion i gael mynediad at bwll talent neu gronfa ddata o unigolion i gysylltu â hwy pan fydd angen staff dros dro arnynt. Bydd athrawon cyflenwi'n cofrestru gyda'r pwll cyflenwi yn hytrach na chyda phob awdurdod lleol. Bydd ganddynt fynediad at y cynllun pensiwn athrawon. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y

---

[20] Corff Adolygu Annibynnol o Gyflogau Cymru, Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru: trydydd adroddiad 2021, Mai 2021

[21] Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, Cyflog ac amodau athrawon ysgol cylch gwaith blwyddyn 4: materion i'w hadrodd, Rhagfyr 2021

[22]Ym mis Mawrth 2022, dywedodd 81% o athrawon cyflenwi fod y rhan fwyaf o'u cyflogaeth trwy asiantaeth o'i gymharu â 77% yn 2021 a 58% ym mis Mawrth 2018. Gweler Cyngor y Gweithlu Addysg, Mewnwelediadau data, Data athrawon Ysgol Cyflenwi, 2022.

[23] Llywodraeth Cymru, Rhaglen Lywodraethu, 2021-26, Mehefin 2021 (diweddarwyd Rhagfyr 2021)

[24] Bydd trydydd parti yn cynnal gwiriadau cyflogaeth cyn y gall athrawon cyflenwi a chynorthwywyr addysgu gofrestru gyda'r e-blatfform.

bydd telerau ac amodau yn adlewyrchu unrhyw newidiadau i delerau ac amodau athrawon cyflenwi y mae'n eu gwneud mewn ymateb i adroddiad Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (gweler **paragraff 40**). Bydd Pwll Cyflenwi Cenedlaethol Cymru’n dechrau mewn un awdurdod lleol ac yn cael ei gyflwyno'n raddol. Mae cynrychiolwyr athrawon cyflenwi’n ofalus obeithiol ynghylch Pwll Cyflenwi Cenedlaethol Cymru, er y bydd ei effaith yn dibynnu ar y defnydd gan awdurdodau lleol ac ysgolion.

43 Datblygodd Llywodraeth Cymru ei dull yn dilyn trafodaethau gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru. Mae Llywodraeth Cymru’n talu cost graidd darparu’r gwasanaeth hyd at £231,750 + TAW y flwyddyn. Bydd y gost derfynol yn dibynnu ar y defnydd o'r platfform gan ysgolion ac awdurdodau lleol.

44 Ar gyfer ysgolion, fodd bynnag, bydd y trefniadau newydd yn ddrutach na'r trefniadau fframwaith, oherwydd cyfraniadau cyflogwyr uwch i'r cynllun pensiwn athrawon[25] a'r gofyniad statudol i dalu cyflog i unrhyw athro a gyflogir yn uniongyrchol 'yn unol â’r raddfa' fel bod eu cyflog yn adlewyrchu eu blynyddoedd o waith. Rydym wedi cyfrifo, pe bai'r holl athrawon cyflenwi a gyflogwyd o dan y fframwaith yn 2022-23 wedi cael eu cyflogi o dan y trefniadau newydd, y byddai cyfanswm y gost wedi cynyddu o leiaf £2.3 miliwn[26]. Mae hyn yn tybio bod athrawon cyflenwi a gyflogir fel hyn yn cael eu talu ar isafswm pwynt prif raddfa gyflog athrawon. Mewn gwirionedd, mae'r gost ychwanegol yn debygol o fod yn uwch gan y bydd athrawon cyflenwi’n cael cyflog ‘yn unol â’r raddfa’.

45 Mae’r model newydd yn debyg i 'byllau cyflenwi' a ddarperir ar hyn o bryd gan o leiaf ddau awdurdod lleol (gweler **paragraff 4**). Mae'r awdurdodau lleol hynny'n cynnal cofrestr o athrawon a chynorthwywyr addysgu cyflenwi y mae ysgolion yn cysylltu â hwy'n uniongyrchol. Canfu ein hadroddiad yn 2013 fod llawer o

---

[25] Mae’r cyfraniad cyflogwyr i'r cynllun pensiwn athrawon yn 23.68% o gyflog yn hytrach na chyfartaledd o 3% o gyfraniadau cyflogwyr ar gyfer staff asiantaeth.

[26] Mae hyn yn tybio’r cyfraniad cyflogwyr cyfredol o 3% gan asiantaethau a ffi asiantaeth gyfartalog o £20.49 (gweler **Atodiad 3, Arddangosyn 4**). Nid yw'r amcangyfrif yn cynnwys cost datblygu'r meddalwedd na ffioedd trwyddedau.

gynghorau wedi rhoi'r gorau i ddarparu pyllau cyflenwi, gan nodi costau gweinyddu uchel a/neu ddiffyg defnydd.

46 Nid yw'n hysbys ar ba gyfradd y bydd ysgolion yn defnyddio'r opsiwn cyflogi newydd. Dywedodd cyfarwyddwyr addysg a ymatebodd i'n harolwg y gallai'r trefniadau newydd wella ansawdd pe bai ysgolion yn meithrin perthynas ag athrawon penodol trwy eu cyflogi'n rheolaidd fel athrawon cyflenwi. Dywedodd rhai cyfarwyddwyr y gallai'r broses newydd fod yn symlach na'r trefniadau cyfredol ar gyfer cyflogi athrawon cyflenwi ac eraill yn uniongyrchol. Fodd bynnag, roedd eraill yn ansicr a fydd ysgolion yn dewis defnyddio'r opsiwn newydd; dywedon nhw y bydd ei lwyddiant yn dibynnu'n rhannol ar sicrhau bod digon o athrawon a chynorthwywyr addysgu wedi cofrestru ar ei gyfer a sicrhau nad yw’r broses o’i weinyddu’n feichus i ysgolion.

47 Ar hyn o bryd mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnal pwll cyflenwi ar gyfer ei ysgolion ond dywedodd wrthym ei fod yn bwriadu symud ei drefniadau mewnol i'r platfform newydd o hydref 2023. Mae wedi hysbysu undebau a staff cyflenwi presennol ynghylch hyn ac wedi gofyn i staff cyflenwi am ganiatâd i drosglwyddo eu gwybodaeth i'r system newydd. Unwaith y bydd yn barod, bydd y cyngor yn darparu arddangosiadau a hyfforddiant i ysgolion. Mae swyddogion y cyngor o'r farn y bydd yn rhyddhau capasiti gweinyddol sylweddol. Dywedodd Cyngor Sir Powys, sydd eisoes â threfniant gyda chwmni recriwtio i ddarparu 'pwll cyflenwi' i'w ysgolion, wrthym fod hwn yn opsiwn poblogaidd i athrawon cyflenwi. Mae ysgolion Powys hefyd yn defnyddio'r contract fframwaith (gweler **Atodiad 3, Arddangosyn 2**) gan nad yw'r pwll yn ateb eu holl ofynion.


## Atodiad 3: Dadansoddiad ariannol sy'n berthnasol i'r contract fframwaith cenedlaethol ar gyfer staff asiantaeth mewn addysg

48 Mae'r atodiad hwn yn cynnwys yr arddangosion y cyfeirir atynt yn **Atodiad 2**. Mae'n defnyddio'r data diweddaraf sydd ar gael. Medrodd Llywodraeth Cymru ddarparu cyfanswm gwariant ar gyfer 2022-23. Fodd bynnag, ni ddarparodd ddadansoddiad manylach o wariant, er enghraifft yn ôl categori o staff.

49 Mae rhywfaint o'r dadansoddiad yn cyfeirio at flynyddoedd ariannol (e.e. fformat 2022-23). Dangosir data sy'n ymwneud â chyflog mewn blynyddoedd academaidd (e.e. fformat 2022/23) gan bod cyflog athrawon yn cael ei bennu o 1 Medi.

50 Mae'r cyfansymiau'n cynnwys gwariant ar staff nad ydynt yn yr ystafell ddosbarth, er enghraifft gofalwyr, staff gweinyddol neu weithwyr asiantaeth arlwyo. Yn ein hadroddiad blaenorol, fe wnaethom nodi bod 11% o gyfanswm y gwariant trwy'r fframwaith, rhwng mis Hydref 2019 a mis Mawrth 2020, ar staff asiantaeth nad oeddent yn yr ystafell ddosbarth.

**Arddangosyn 1: gwariant gan ysgolion ac awdurdodau lleol trwy gontract fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer staff dros dro addysg, 2019-20 i 2022-23 (yn nhermau arian parod ac mewn termau real yn ôl prisiau 2022-23)** [1, 2, 3]




Nodiadau:

1 Mae'r ffigwr ar gyfer 2019-20 yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Medi 2019 a mis Mawrth 2020 gan bod y contract fframwaith newydd wedi dechrau ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

2 Mae 2019-20 ac, yn enwedig, 2020-21, yn cynnwys cyfnodau pan oedd ysgolion ar gau yn bennaf oherwydd pandemig COVID-19. Dychwelodd yr holl ddisgyblion i'r ysgol o ddechrau tymor yr haf ar 12 Ebrill 2021.

3 Mae dadansoddiad mewn termau real yn cymhwyso datchwyddyddion Cynnyrch Domestig Gros Trysorlys EM, Mehefin 2023

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth Cymru

**Arddangosyn 2: gwariant ysgolion ac awdurdodau lleol trwy'r contract fframwaith ar gyfer staff dros dro addysg, fesul awdurdod lleol, 2021-22** [1, 2, 3]

| Awdurdod Lleol | 2021-22 (£) | Gwariant fesul disgybl (£)[3] |
|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 3,023,291 | 323 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 7,498,907 | 324 |
| Caerffili | 7,664,095 | 276 |
| Caerdydd | 7,825,671 | 138 |
| Sir Gâr | 6,265,882 | 228 |
| Ceredigion | 1,138,528 | 119 |
| Abertawe | 4,926,405 | 137 |
| Conwy | 2,262,149 | 144 |
| Sir Ddinbych | 3,637,211 | 227 |
| Sir y Fflint | 4,123,159 | 177 |
| Gwynedd | 109,405 | 6 |
| Ynys Môn | 16,431 | 2 |
| Merthyr Tudful | 2,624,976 | 288 |
| Sir Fynwy | 1,775,074 | 154 |
| Castell-nedd Port Talbot | 5,501,844 | 259 |
| Casnewydd | 2,967,069 | 109 |
| Sir Benfro | 2,385,872 | 139 |
| Powys | 2,724,655 | 159 |
| Rhondda Cynon Taf | 9,714,548 | 250 |
| Torfaen | 1,867,424 | 131 |
| Bro Morgannwg | 2,922,850 | 125 |
| Wrecsam | 3,852,686 | 200 |
| **Cymru** | **84,828,130** | **180** |

Nodiadau:


1 Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod y ffigwr cyfanswm gwariant ychydig yn is na'r hyn a gynrychiolir yn **Arddangosyn 1** oherwydd gwallau mewn data a gyflwynwyd gan gyflenwyr sy'n atal taliadau rhag cael eu dyrannu i awdurdodau lleol, er enghraifft gwallau sillafu neu gofnodi data'n anghywir. Mae hyn yn effeithio ar 2.2% o'r cyfanswm gwariant.

2 Nid oedd Llywodraeth Cymru wedi darparu data 2022-23 ar adeg ysgrifennu.

3 Nifer y disgyblion o StatsCymru, Disgyblion yn ôl awdurdod lleol a grŵp oed 2021/22, diweddariad Awst 2022

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth Cymru

**Arddangosyn 3: tâl dyddiol cyfartalog a godir ar ysgolion fesul categori staff, Hydref 2019-Mawrth 2020[1] ac Ebrill 2021-Mawrth 2022 (yn nhermau arian parod) [1, 2]**




Nodiadau:

1 Nid yw'r data ar gael fesul categori ar gyfer Medi 2019.

2 Nid oedd Llywodraeth Cymru'n gallu darparu data ar gyfer 2022-23 ar adeg ysgrifennu.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth Cymru

**Arddangosyn 4: amcangyfrif o fanylion y tâl dyddiol a godir gan asiantaethau am athrawon cyflenwi (2021-22)** [1, 2]

| Manylion taliadau (amcangyfrifon) | £ | % o'r cyfanswm |
|---|---|---|
| Tâl i'r athro/athrawes (cyflog + tâl gwyliau)[2] | 140.14 | 77.0 |
| Yswiriant Gwladol (gan gynnwys trothwy di-dreth) | 15.73 | 8.6 |
| Pensiwn (3%) | 4.20 | 2.3 |
| Ardoll prentisiaethau (0.5%) | 0.70 | 0.4 |
| Ardoll fasnachol Llywodraeth Cymru (0.5%) | 0.70 | 0.4 |
| Ffi asiantaeth | 20.49 | 11.3 |
| **Cyfanswm** | **181.96** | **100** |

Nodiadau:

1 Nid oedd Llywodraeth Cymru'n gallu darparu data ar gyfer 2022-23 ar adeg ysgrifennu.

2 Mae'n tybio cyflog cyfartalog o £140.14. Roedd yr isafswm cyflog yn £138.56 ym mis Mawrth-Awst 2021, gan godi i £141.72 ym mis Medi 2021-Mawrth 2022.

Ffynhonnell: Data Llywodraeth Cymru

**Arddangosyn 5: isafswm cyflog dyddiol i athrawon cyflenwi o dan y contract fframwaith ar gyfer staff dros dro mewn addysg, 2019/20 i 2022/23, ac amcangyfrif o'r cyflog cyfartalog ar gyfer 2018/19 (yn nhermau arian parod ac mewn termau real yn ôl prisiau 2022/23)**




Nodyn: Amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru fod cyflog cyfartalog athrawon cyflenwi yn 2018/19 yn £95 (2018/19 oedd y flwyddyn academaidd olaf cyn contract fframwaith 2019/20 – 2022/23). Mae cyflog ar gyfer 2022/23 yn seiliedig ar y dyfarniad cyflog cychwynnol o 1 Medi 2022 (gweler **paragraff 34** a **throednodyn 16**).

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth Cymru

DIWEDD

**Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion a nodwyd yn adroddiad dilynol Archwilio Cymru ar *Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon* (12 Tachwedd 2020)**

**Sicrhau ansawdd a digonolrwydd athrawon cyflenwi ar gyfer ysgolion**

*A1 Yn rhan o'i gwaith i sicrhau ansawdd a digonolrwydd athrawon cyflenwi ar gyfer ysgolion, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn:*

- *atgyfnerthu yn ei phroses o ddatblygu a gweithredu polisi bod rheoli absenoldeb staff mewn modd effeithiol yn hanfodol er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i ddysgwyr.*
- *nodi mesurau llwyddiant tymor hwy clir er mwyn barnu'r cynnydd o ran gwella ansawdd a digonolrwydd athrawon cyflenwi.*
- *gweithio gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, consortia addysg rhanbarthol ac asiantaethau i hyrwyddo'r hyfforddiant a'r adnoddau sydd ar gael i athrawon cyflenwi a gweithwyr cymorth dysgu, yn arbennig yn rhan o'i gwaith o baratoi'r proffesiwn addysgu ar gyfer cyflwyno gwelliannau i'r cwricwlwm o fis Medi 2022.*
- *egluro a all ysgolion drefnu digon o staff cyflenwi i ryddhau staff i baratoi ar gyfer cyflwyniad y cwricwlwm newydd o fis Medi 2022, yn ogystal ag ymateb i alwadau sy'n deillio o bandemig y coronafeirws. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg a phynciau lle mae prinder athrawon cyflenwi eisoes.*

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn yn rhannol

A1 - **Sicrhau ansawdd a digonolrwydd athrawon cyflenwi ar gyfer ysgolion**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr argymhelliad i wella ansawdd a sicrhau digonolrwydd athrawon cyflenwi ar gyfer ysgolion er mwyn rheoli effaith pandemig Covid-19 a pharatoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Gallwn dderbyn pwyntiau bwled 1, 3 a 4 o'r argymhelliad hwn. Fodd bynnag, ni allwn dderbyn pwynt bwled 2 yn llawn fel y mae wedi'i nodi, ac mae gwybodaeth bellach isod.

Mae'r argymhelliad hwn yn cael ei gyflawni'n gyffredinol drwy barhau i ddatblygu polisi ar ddysgu proffesiynol ac Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) nawr ac yn y dyfodol, yn ogystal â thrwy'r Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion ac arolwg diweddar Cyngor y Gweithlu Addysg o'r gweithlu. Darparwyd cyllid i ysgolion hefyd i recriwtio staff ychwanegol er mwyn rheoli'r ymateb i Covid-19 a meithrin capasiti o fewn y system.

Mae cynnal safonau proffesiynol ymhlith yr holl staff, gan gynnwys athrawon cyflenwi (pwynt bwled 2) yn elfen barhaus o ddatblygu polisi. Fodd bynnag, mater i arweinwyr ysgolion unigol yw *mesur* ansawdd neu allu staff ysgolion (parhaol a dros dro), ac ni ellir derbyn yr elfen hon o'r argymhelliad yn llawn, felly, ar ei ffurf bresennol. Yn hytrach, darparwyd gwybodaeth i ddangos sut mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu mynd i'r afael ag unrhyw brinder a datblygu capasiti a hyrwyddo ansawdd yn y system yn y tymor hirach. Ceir rhagor o wybodaeth am y polisi presennol a'r polisi yn y dyfodol yn y meysydd hyn isod.

I fynd i'r afael â'r pwynt bwled cyntaf:

- Bydd Llywodraeth Cymru'n ailbwysleisio yn ein gwaith i ddatblygu a gweithredu polisi bod rheoli absenoldeb staff yn effeithiol yn hanfodol er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i ddysgwyr. Byddwn yn parhau i hyrwyddo'r model clwstwr cyflenwi fel ffordd effeithiol o reoli trefniadau cyflenwi ac yn sicrhau bod canllawiau perthnasol yn gyfredol ac yn cael eu hyrwyddo i ysgolion drwy Dysg a thrwy ein partneriaid.

Mewn ymateb i'r ail a'r trydydd pwynt bwled:

- Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i ddatblygu a hyrwyddo cyfleoedd i athrawon cyflenwi sicrhau ansawdd a digonolrwydd o fewn y sector. Rydym wedi gwella mynediad at gyfleoedd dysgu proffesiynol i athrawon cyflenwi drwy lansio gwefan y Daith Dysgu Proffesiynol sydd ag ystod eang o adnoddau ar-lein o ansawdd uchel i gefnogi pob ymarferydd i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd.

- Byddwn yn parhau i gefnogi dulliau effeithiol ac arloesol o ddysgu proffesiynol er mwyn adeiladu ar ymgysylltu cadarnhaol ac osgoi anhawster i staff cyflenwi nad ydynt efallai'n ymgysylltu oherwydd y posibilrwydd o golli enillion. Byddwn hefyd yn parhau i ychwanegu at yr adnoddau ar wefan y Daith Dysgu Proffesiynol yn ystod 2021, er budd pob aelod o staff.

- Parhaodd y gwaith paratoi ar gyfer y cwricwlwm yn ystod y pandemig ac mae tystiolaeth o'n rhestrau chwarae Rhannu Ein Profiadau ar Hwb yn dangos sut mae ysgolion wedi parhau i baratoi drwy fanteisio ar gyfleoedd dysgu o bell unigryw a phwrpasol, gan leihau'r baich ar ysgolion i ddod o hyd i staff cyflenwi ar gyfer dysgu proffesiynol.

- Fel rhan o'r dull Parhad Dysgu cyffredinol, mae'r rhanbarthau hefyd wedi ad-drefnu Rhaglen Dysgu Proffesiynol y Cwricwlwm i Gymru er mwyn darparu dull ar y we i ymarferwyr addysgol allu cynnal cydlyniant a chyfeiriad ein system ysgolion drwy ddefnyddio technolegau digidol. Bydd hyn yn parhau am y tro er mwyn sicrhau mynediad parhaus i'n rhaglenni dysgu proffesiynol cenedlaethol.

- Yn ystod tymor yr hydref, cynigiodd Llywodraeth Cymru gyfres o Ddigwyddiadau Mewnwelediad Polisi byr a oedd yn canolbwyntio ar ddulliau dysgu proffesiynol ar gyfer y cwricwlwm newydd. Arweiniwyd y digwyddiadau gan athrawon ar secondiad, ac roeddent yn agored i bob ymarferydd addysgol.

- Rydym yn cydnabod yr heriau digidol sy'n wynebu pob dysgwr, athro ac arweinydd o ganlyniad i'r pandemig. Mae llawer o'r dysgu proffesiynol diweddar wedi canolbwyntio ar wella'r sgiliau hynny a byddwn yn parhau i weithio gyda'r rhanbarthau i wella sgiliau ymarferwyr ymhellach yn y maes hwn er mwyn darparu cyfleoedd o ansawdd uwch i ddysgwyr ar gyfer dysgu o bell cydamserol ac anghydamserol

- Mae'r Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol bellach yn rhan annatod o ddull Cymru o ddysgu proffesiynol yn barod ar gyfer 2022. Byddwn yn uwchraddio'r prosiect ymholi dros y 12 mis nesaf fel rhan o'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol (NSERE) er mwyn cefnogi'r gwaith parhaus o baratoi'r holl staff ar gyfer y cwricwlwm newydd.

- Fel Lloegr a'r Alban, mae Cymru'n modelu ei gofynion recriwtio ar gyfer AGA yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r data yn y Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon, sy'n defnyddio'r amcanestyniadau disgyblion a'r cymarebau disgyblion/athrawon mwyaf diweddar i ragamcanu nifer yr athrawon sydd eu hangen (gan gymryd i ystyriaeth y rhai sy'n gadael) er mwyn cynnal y cymarebau disgyblion/athrawon. Mae'r model yn cynhyrchu dau ffigur ar gyfer y cyflenwad sydd ei angen er mwyn gwahaniaethu rhwng anghenion y sectorau cynradd ac uwchradd yn y blynyddoedd i ddod.

- Cyflwynwyd y Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon yn ôl yn 2007 yn dilyn adolygiad gan yr Athro Furlong a gorgyflenwad o athrawon i'r gweithlu a wnaeth leihau ansawdd. Bwriad y model a'r system dyrannu yw mynd i'r afael â'r sefyllfa hon.

- Ar gyfer blynyddoedd academaidd blaenorol hyd at a chan gynnwys 2018/19, cyflwynwyd yr wybodaeth hon i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn unol â'r rheoliadau bryd hynny, ac roedd CCAUC yn hysbysu'r hen Ganolfannau AGA am eu dyraniad o athrawon dan hyfforddiant fesul cyfnod, pwnc a lefel astudio. Trosglwyddodd Gorchymyn 2017 y swyddogaeth ddyrannu o CCAUC i Gyngor y Gweithlu Addysg. Roedd y cyflenwad o athrawon y byddai ei angen yn deillio o'r Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon y mae'n ofynnol i Gyngor y Gweithlu Addysg roi sylw iddo wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan y Gorchymyn. Mae hyn yn golygu bod gan Gyngor y Gweithlu Addysg gyfrifoldeb statudol i ddyrannu'r nifer angenrheidiol o athrawon dan hyfforddiant fel rhan o'i swyddogaethau achredu. Mae monitro'r niferoedd gwirioneddol sy'n cael eu recriwtio i AGA hefyd yn rhan o'i rwymedigaethau o ran monitro'r Rhaglenni.

- Os yw Partneriaethau AGA yn methu'n gyson â recriwtio'n ddigonol yn erbyn eu dyraniadau, mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn gallu ailddyrannu lleoedd ar draws rhaglenni AGA os yw'r galw'n fwy na'r cyflenwad mewn rhai ardaloedd neu bynciau neu'n methu â chyrraedd y lefelau gofynnol.

- Rydym yn cydnabod bod yna fylchau a trafferthion o ran recriwtio i rai meysydd pwnc a bod hyn yn ymestyn i'r sector cyflenwi. Mae'r cynllun cymhelliant ar gyfer pynciau â blaenoriaeth yn helpu i ddenu gweithwyr proffesiynol o ansawdd uchel i'r gweithlu addysg mewn meysydd pwnc penodol. Byddwn yn parhau â'r cynllun cymhellion ac rydym wedi cyhoeddi'n ddiweddar cynnydd yng nghyfanswm y cymorth i ddenu athrawon Bioleg newydd, er mwyn ymateb i'r cynnydd yn y galw amdanynt. Bydd cynllun c ymhelliant Iaith Athrawon Yfory ar gyfer athrawon cyfrwng Cymraeg hefyd yn parhau, gan gynnig cymhellion o hyd at £5,000, sy'n golygu y gall athrawon dan hyfforddiant dderbyn cyfanswm o hyd at £25,000.

- Er gwaethaf pandemig Covid-19, mae'n ymddangos bod recriwtio cyffredinol i Raglenni AGA ym mlwyddyn academaidd 2020/21 yn well o gymharu â’r llynedd. Mae ein hymgyrch farchnata *Addysgu yng Nghymru* yn parhau i gefnogi gweithgareddau recriwtio Partneriaethau AGA a’u hannog i hyrwyddo'r proffesiwn yn fwy eang; targedir meysydd pwnc â blaenoriaeth yn benodol.

- Rydym yn parhau’n ymrwymedig i recriwtio myfyrwyr o'r ansawdd uchaf i'n cyrsiau AGA er mwyn sicrhau bod gennym y gweithlu gorau posibl i gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Byddwn hefyd yn parhau i weithio'n agos â Chyngor y Gweithlu Addysg i hyrwyddo'r proffesiwn, a chyda phartneriaid i hyrwyddo argaeledd hyfforddiant yn enwedig ar y cwricwlwm newydd.

- Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar ein cynlluniau a'n huchelgeisiau ar gyfer cynyddu’r gweithlu cyfrwng Cymraeg a gallu pob ymarferydd i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Byddwn yn datblygu dull strategol tymor byr, canolig a hirdymor i fynd i'r afael â’r prinder athrawon cyfrwng Cymraeg a byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys ysgolion, i ddatblygu’r strategaeth ar y cyd yn ogystal â chyflwyno datblygiadau i gefnogi'r sector cyfrwng Cymraeg yn y system AGA ehangach a datblygu ein pecyn cymorth gyrfa cynnar.

- Mae Fframwaith Asiantaethau Cyflenwi’r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn cynnwys gofynion sylfaenol ar gyfer hyfforddiant, ac mae data o flwyddyn gyntaf y Fframwaith yn dangos bod asiantaethau wedi rhagori ar y gofyniad hwnnw i gefnogi eu staff. O dan y Fframwaith, rhaid i asiantaethau ystyried hefyd anghenion a phrofiad eu staff a chynnig hyfforddiant ychwanegol, yn dibynnu ar yr anghenion hynny. Ni fonitrwyd data’r Fframwaith dros y flwyddyn ddiwethaf yn sgil cau ysgolion. O fis Medi 2021, byddwn yn ailddechrau monitro’r cyfleoedd hyfforddi a gynigir o dan y Fframwaith, a monitro’r hyfforddiant ychwanegol a ddarparwyd gan asiantaethau’r Fframwaith er mwyn sicrhau bod staff asiantaethau’n cael cyfleoedd priodol i ddatblygu. I ddeall yr effaith y mae'r gofyniad hwn yn ei chael ar athrawon cyflenwi asiantaethau, byddwn yn ystyried y trefniadau gwerthuso ar gyfer hyfforddiant asiantaethau, ac yn argymell gofyn am adborth i sicrhau gwelliannau i’r cynnig dros y tymor hwy.

- Byddwn hefyd yn parhau i ddarparu adnoddau dysgu ar-lein o ansawdd uchel ac yn parhau i weithio gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, consortia addysg rhanbarthol ac asiantaethau i hyrwyddo hyfforddiant ac adnoddau i athrawon cyflenwi a gweithwyr cymorth dysgu.

- Er mwyn deall yn well y broses o reoli absenoldeb mewn ysgolion, ac effaith y gwaith sy'n cael ei wneud, rydym wedi ystyried y gofynion o ran data ac wedi sicrhau bod data cyflenwi wedi’i ychwanegu at y Cyfrifiad Blynyddol o’r Gweithlu Ysgolion o 2021. Bydd ychwanegu'r data hwn yn asesu digonolrwydd athrawon cyflenwi mewn ysgolion, ac yn llywio datblygiad polisi yn yr hirdymor. Gan mai hon yw’r flwyddyn gyntaf y caiff manylion cyflenwi eu cynnwys yn y cyfrifiad, bydd ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i’r wybodaeth y gofynnir amdani, ac mae’n bosibl y caiff hyn ei fireinio yn y dyfodol.

- Gwnaeth y Gweinidog Addysg ymrwymiad i gynnal arolwg o’r gweithlu ysgolion. Mae hwn wedi’i gwblhau bellach gan Gyngor y Gweithlu Addysg, ac roedd yn cynnwys cwestiynau ar gyfleoedd hyfforddi. Nid yw canlyniadau’r arolwg wedi’u cyflwyno eto, ond caiff yr wybodaeth ei hadolygu a’i defnyddio i lywio polisi.

Mewn ymateb i bwynt bwled 4 yr argymhelliad hwn:

- Gall Llywodraeth Cymru nodi nifer y staff cyflenwi sydd wedi'u cofrestru ym mhob categori drwy Gyngor y Gweithlu Addysg, ac mae’r Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon yn ei le i sicrhau bod gennym y niferoedd iawn o athrawon yn dod drwy’r system ar unrhyw adeg. Yn ogystal, drwy Raglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau, mae £29 miliwn wedi’i ddarparu i ysgolion i recriwtio staff ychwanegol i gefnogi dysgwyr a mynd i’r afael ag unrhyw fylchau mewn dysgu o ganlyniad i’r pandemig. Ers Gorffennaf diwethaf, recriwtiwyd yr hyn sy’n cyfateb i 1,800 o staff ychwanegol, dwbl y targed gwreiddiol o 900. Rydym hefyd yn darparu lefelau uwch nag erioed o fuddsoddi mewn cyfleoedd dysgu proffesiynol er mwyn cefnogi ysgolion ymhellach wrth iddynt baratoi i gyflwyno’r cwricwlwm newydd yn 2022. Dylid nodi, gan mai absenoldeb a gynllunnir fyddai absenoldeb ar gyfer cynllunio a hyfforddi ar gyfer y cwricwlwm newydd, nad athro cyflenwi fyddai’n cymryd dosbarthiadau athrawon yn yr achos hwn o reidrwydd. Rydym yn parhau i fonitro'r cyflenwad a'r galw’n anffurfiol drwy asiantaethau Fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, sy'n gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Lywodraeth Cymru am nifer y lleoliadau a’r staff cyflenwi sydd ar gael. Mae'r diweddariadau hyn yn rhoi cipolwg o'r farchnad a lle ceir bylchau posibl yn lleol ac ar unwaith. Ar hyn o bryd, nid yw asiantaethau’r Fframwaith yn wynebu anhawster o ran cyflenwad na galw.

**Y contract fframwaith cenedlaethol ar gyfer staff asiantaeth**

*A2 Mae fframwaith caffael cenedlaethol 2019-2022 ar gyfer staff asiantaeth yn dod â manteision i ddysgwyr ac ysgolion yn ogystal ag athrawon cyflenwi. Ond rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn:*

- *rhoi trefniadau monitro ar waith ar gyfer gweithredu’r contract er mwyn sicrhau bod athrawon cyflenwi, goruchwylwyr cyflenwi a gweithwyr cymorth dysgu yn gweithio’n unol â disgrifiad eu swyddogaethau;*
- *annog ysgolion i ddefnyddio ei chontract cenedlaethol ar gyfer staff asiantaeth er mwyn elwa ar ei safonau ansawdd a’i drefniadau diogelu; ac yn*
- *monitro’r gyfradd sy’n manteisio ar ei chontract cenedlaethol ar gyfer staff asiantaeth er mwyn gweld a yw ysgolion yn newid i ddefnyddio asiantaethau y tu hwnt i ofynion y contract.*

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn yn rhannol

A2 - **Y contract fframwaith cenedlaethol ar gyfer staff asiantaeth**

Bydd Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn parhau i wneud gwelliannau i'r fframwaith presennol er mwyn sicrhau cyflog ac amodau teg i staff asiantaeth a darpariaeth o ansawdd uchel i ysgolion, a gall y Llywodraeth dderbyn pwyntiau bwled 2 a 3 o'r argymhelliad hwn. Nid yw pwynt bwled cyntaf yr argymhelliad hwn wedi'i dderbyn. Mae gwybodaeth bellach isod.

Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod ysgolion ac awdurdodau lleol yn cydymffurfio â'r gyfradd isafswm cyflog. Mae gweithdrefnau a strwythurau rheoli clir ar waith os nad yw ysgol yn rhoi athro cyflenwi yn y rôl y caiff ei recriwtio iddi. Fodd bynnag, nid cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru na'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yw monitro a yw pob rôl wedi'i llenwi'n briodol. Gall asiantaethau hysbysu'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol os oes tystiolaeth bod ysgol wedi camliwio'r rôl. Bydd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn rhoi'r dystiolaeth i'r awdurdodau lleol gan fod materion hyn yn gallu bod yn nodweddiadol o arferion rheoli gwael eraill y mae angen i'r awdurdod lleol fynd i'r afael â hwy. Ceir rhagor o wybodaeth isod ynghylch sut y bydd Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn datblygu'r argymhelliad hwn.

Mewn ymateb i'r pwynt bwled cyntaf:

- Ni all Llywodraeth Cymru '*roi trefniadau monitro ar waith ar gyfer gweithredu'r contract er mwyn sicrhau bod athrawon cyflenwi, goruchwylwyr cyflenwi a gweithwyr cymorth dysgu yn gweithio'n unol â disgrifiad eu swyddogaethau'.* Fel cyflogwyr staff ysgolion, penaethiaid a chyrff cyflogi sy'n gyfrifol am recriwtio i'r rôl ofynnol ac am sicrhau bod yr aelod staff yn gweithio o fewn y rôl y cafodd ei benodi iddi. Mae Fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wedi arwain at welliannau i gyflog ac amodau gweithwyr asiantaeth. Fel rhan o'r trefniadau monitro ar gyfer y fframwaith, mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn casglu data ar wariant yn erbyn rolau gwahanol y mae pob awdurdod lleol wedi recriwtio iddynt, ac yn monitro tueddiadau ac amrywiadau yn erbyn ardaloedd awdurdodau lleol. Cynghorwyd yr asiantaethau i sicrhau bod pob hysbyseb yn nodi'n glir y rôl a'r gofynion ynghyd â'r gyfradd gyflog sy'n gysylltiedig â'r rôl honno, er mwyn sicrhau bod staff cyflenwi'n gwbl glir am y rôl y gofynnir iddynt ei chyflawni. Dylai hyn hefyd gael ei nodi'n glir yn nhelerau ac amodau'r asiantaeth, ac yng nghontract yr asiantaeth gyda'u cleient. Yn y pen draw, cyfrifoldeb cyrff llywodraethu ysgolion yw pennu'r math o rôl sydd ei hangen a sicrhau bod ganddynt weithlu effeithiol yn ei le. Dylai penaethiaid a chyrff cyflogi fod yn ymwybodol o Reoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006, fel y'u diwygiwyd; Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015 (y Rheoliadau Swyddogaethau), fel y'u diwygiwyd, a sicrhau bod unrhyw achosion o dorri amodau yn cael eu hadrodd i'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol.

- Diweddarwyd y canllawiau 'Rheoli presenoldeb gweithlu ysgolion yn effeithiol' Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2020 er nad yw'n glir i ba raddau y mae ysgolion'n yn defnyddio'r canllawiau hyn. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i ddosbarthu canllawiau i ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia ar reoli trefniadau cyflenwi'n effeithiol, a byddwn yn ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru erbyn haf 2021 i ofyn am eu cefnogaeth i atgoffa ysgolion o'u rhwymedigaeth i sicrhau bod staff

cyflenwi’n gweithio yn ôl y disgrifiadau rôl.

- Bydd mesur ychwanegol yn gofyn i asiantaethau’r fframwaith hysbysu'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol os yw ysgolion yn camliwio rolau i athrawon cyflenwi. Wedyn, caiff unrhyw faterion eu cyfeirio i’r awdurdod lleol perthnasol.

Mewn ymateb i bwyntiau bwled 2 a 3:

- Byddwn yn parhau i hyrwyddo'r defnydd o'r fframwaith ymhlith ysgolion ac awdurdodau lleol. Mae’r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn adolygu’r wybodaeth a gyflwynir am wariant awdurdodau lleol ar gyflenwyr er mwyn asesu sut mae awdurdodau lleol yn caffael gwasanaethau. Er nad yw casglu’r data hwn yn ofyniad statudol, mae’n galluogi’r Gwasanaeth i asesu o ble mae awdurdodau lleol yn caffael gwasanaethau. Ar hyn o bryd, mae’r gwasanaethau hyn wedi dod i stop oherwydd pwysau Covid-19, ac mae’r pandemig wedi effeithio hefyd ar y data sydd ar gael. Byddwn yn asesu sut y gellir ailddechrau’r gwasanaethau hyn yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf a, gan ddefnyddio’r data sydd ar gael, byddwn yn parhau i fonitro’r sefyllfa yn erbyn y Fframwaith.

- I gryfhau trefniadau'r Fframwaith, mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wedi gweithredu proses gydymffurfio newydd ar gyfer asiantaethau y canfyddir nad ydynt yn cadw at delerau'r fframwaith. Mae canllawiau wedi'u rhoi i asiantaethau ar y fframwaith a’r broses newydd, ac mae awdurdodau lleol wedi cael gwybod am y newidiadau. Bydd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru’n parhau i hyrwyddo'r Fframwaith a'i fanteision i ysgolion ac awdurdodau lleol.

- Rydym wedi gofyn i awdurdodau lleol ac ysgolion ymrwymo i ddefnyddio asiantaethau’r Fframwaith yn unig a thalu’r isafswm cyflog o leiaf. Yn dilyn trafodaethau drwy Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol Ysgolion, mae awdurdodau lleol wedi ymrwymo i gefnogi’r Fframwaith, a gofynnwyd i bob ysgol gynnwys y gofyniad i ddilyn telerau’r Fframwaith yn eu polisïau cyflog. Byddwn yn parhau i ymgysylltu ag awdurdodau lleol drwy Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol Ysgolion.

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Julie Morgan,

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

9 Hydref 2023

Annwyl Julie,

**Gwaith parhaus yn ymwneud â diwygio radical i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal**

Diolch unwaith eto am ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 14 Medi i drafod eich ymateb i'n hadroddiad ar wasanaethau i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Rydym yn gwerthfawrogi pa mor gyflym y gwnaethoch dderbyn ein gwahoddiad i roi tystiolaeth dros slot estynedig o 2 awr, gan sicrhau bod gennym yr amser yr oedd ei angen arnom i drafod y materion pwysig hyn yn fanwl.

Roeddem yn croesawu’r eglurder ychwanegol a roddwyd gennych i esbonio pam yr oedd Llywodraeth Cymru'n teimlo na allai dderbyn rhai o'n hargymhellion allweddol, manylion ynghylch lle'r oedd yn bwrw ymlaen â gwaith mewn meysydd eraill, a lle y gallech fod wedi newid eich meddwl ers cyhoeddi ein hadroddiad.

Yn ogystal â'r sesiwn dystiolaeth, byddwch yn ymwybodol ein bod eisoes wedi anfon gohebiaeth ddiweddar mewn perthynas â chyllid ar gyfer y Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol, a hefyd o ran y diffyg eglurder ynghylch y data ar gyfraddau staff asiantaeth yn y gweithlu gofal cymdeithasol statudol i blant.

Hefyd, mae gan yr Aelodau rai materion ffeithiol a pholisi yn deillio o’r sesiwn ar 14 Medi nad ydym yn sicr yn eu cylch. Felly, byddem yn croesawu eich ymateb i'r cwestiynau yn yr Atodiad i'r llythyr hwn.

Rwy'n cydnabod bod hwn yn adeg arbennig o brysur o'r flwyddyn i chi a'ch swyddogion. Felly, byddwn yn gwerthfawrogi cael eich ymateb heb fod yn hwyrach na 11 Rhagfyr. O ystyried y terfyn amser estynedig hwn ar gyfer ymateb, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ateb ein holl gwestiynau yn llawn. Os na allwch wneud hynny o fewn y cyfnod estynedig hwn, mae croeso i chi gysylltu â chlercod y Pwyllgor a all weithio gyda chi i drefnu amserlen addas ar gyfer eich ymateb.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Yn gywir

Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# ATODIAD

## Safonau Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Plant yng Nghymru

1. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth ysgrifenedig am y Safonau Gwasanaeth Cenedlaethol newydd hwn ar gyfer Gwasanaethau Plant yng Nghymru. (Dyfyniadau trawsgrifiad perthnasol wedi'u nodi isod)

*"Work is firmly under way to deliver a national practice framework. The framework will be the first set of national standards for children's services in Wales, sitting alongside things like the all-Wales safeguarding procedures, and we will be delivering up to five new standards of practice by the end of 2023, with further standards being co-produced. It will address the key concerns that young people have raised about practice in your report, which I've taken very great notice of."*

*"[....] four draft standards have now been produced. One of those is around child-inclusive practice; children and young people who go missing; manageable workloads; and continuing care."*

## Siarter Rhianta Corfforaethol

2. Manylion am sut y bydd cydymffurfiaeth â'r siarter yn cael ei monitro a chan bwy?
3. Rhestr wedi'i diweddaru o ba asiantaethau sydd wedi llofnodi'r siarter gwirfoddol hyd yma
4. Sut gall plant a phobl ifanc weld pa asiantaethau sydd wedi cofrestru?

## Gofal fel nodwedd warchodedig

5. A fyddwch yn cynnwys pobl ifanc hŷn ac oedolion â phrofiad o fod mewn gofal yn eich trafodaethau?

Diolch am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y canlynol:

*"I'm going to be working with officials across Welsh Government to explore this further with care-experienced people and children as part of the future care experience summits with Voices from Care. So, we will be exploring this, but there are different views that have been given to us, so it's not a united view."*

Mae rhai pobl ifanc hŷn wedi dweud wrthym eu bod wedi newid eu meddyliau ar hyn wrth iddynt fynd yn hŷn. Pan oeddent yn blant efallai yr oeddent yn poeni am stigma, ond wrth iddynt fynd yn hŷn, maent wedi deall sut beth yw bywyd y tu hwnt i ofal. Gofynnwyd i ni gyfleu i chi, er bod gan

blant farn wahanol ar y mater hwn, ei fod yn bwysig siarad ag oedolion sydd â phrofiad o ofal ynghylch eu safbwyntiau hefyd.

## Eiriolaeth

6. Eglurder ar safbwynt diweddaraf Llywodraeth Cymru ar ein hargymhelliad y dylai plant â phrofiad o ofal gael hawl statudol i gymorth eiriolaeth annibynnol tymor hir ar sail 'optio allan'?

Yn ymateb Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2023 'Gwrthod' oedd yr ymateb, ond yn ein cyfarfod diweddaraf fe ddywedoch chi *"[...]my response did not outrightly reject opt-out advocacy."*

## Plant mewn lleoliadau anghofrestredig

7. Beth yw nifer presennol y plant sydd yng ngofal awdurdodau lleol Cymru sy'n byw mewn llety anghofrestredig ar 11 Tachwedd 2023?

Roeddem yn arbennig o bryderus o glywed, ar 11 Medi, bod 30 o blant o dan ofal awdurdodau lleol Cymru yn gyfreithiol, ond sy'n byw mewn lleoliadau anghofrestredig. Er ein bod yn gwerthfawrogi'r pwysau sylweddol ar lety, mae cael nifer mor sylweddol o blant mewn lleoliadau sydd, yn eu hanfod yn 'anghyfreithlon', yn amlwg yn peri pryder mawr. Byddwch yn ymwybodol, ym mis Gorffennaf 2023, gwnaethoch wrthod ein hargymhelliad i gyhoeddi cynllun gweithredu i leihau nifer y plant mewn lleoliadau anghofrestredig erbyn mis Rhagfyr 2023.

## Plant sy'n destun gorchmynion amddifadu o ryddid

8. Beth yw nifer presennol y plant sydd yng ngofal awdurdodau lleol Cymru ar 11 Tachwedd 2023

Unwaith eto, roeddem yn bryderus o glywed bod chwech o blant yn destun gorchmynion amddifadu o ryddid ar 11 Medi.

## Dileu Elw

Er nad oedd y gwaith Dileu Elw yn uniongyrchol o fewn cylch gorchwyl ein hymchwiliad, rydym yn cydnabod ei fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a'ch bod wedi pwysleisio wrthym yn y sesiwn graffu ei fod yn cael ei symud ymlaen oherwydd bod pobl ifanc wedi dweud mai dyna oedden nhw eisiau.

Fel rhan o'n gwaith craffu arfaethedig ar Gyllideb Ddrafft 2024-25, byddwn yn gofyn am rywfaint o wybodaeth ariannol mewn perthynas â sut y dyrannwyd y dyraniad o £68 miliwn dros dair blynedd, fel rhan o'n cais ehangach am y gyllideb.

9. O ran cyflawni'r ymrwymiad hwn, byddem yn ddiolchgar am y wybodaeth a ganlyn:

- Yr amcangyfrif presennol o nifer y plant o awdurdodau lleol Cymru sydd wedi'u lleoli mewn lleoliadau annibynnol/preifat yng Nghymru
- Manylion y cynllun pontio/llinellau amser i symud y plant hyn neu i drosglwyddo'r lleoliadau i awdurdodau lleol/darparwyr trydydd sector
- Faint o blant o Loegr sy'n cael eu lleoli mewn lleoliadau annibynnol/preifat yng Nghymru? Cynlluniau i liniaru canlyniadau anfwriadol pwysau ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd Cymru a allai godi pe bai mwy o blant o'r tu allan i Gymru yn symud i'r lleoliadau hyn o 2027 ymlaen pan na ellir eu defnyddio mwyach i leoli plant o Gymru.

## Data

Cyn y sesiwn graffu ar 14 Medi fel rhan o gais ehangach am wybodaeth, gwnaethom ofyn am wybodaeth benodol mewn perthynas â'r data na chaiff eu casglu a'u cyhoeddi fel mater o drefn yng Nghymru ar hyn o bryd (fel y nodir ar dudalennau 50 i 52 o'n hadroddiad ac adroddiad WCPP), a rhagor o wybodaeth am y sail resymegol dros haeriad Llywodraeth Cymru nad yw hyn yn angenrheidiol / yn bosibl / yn ddefnyddiol wrth lywio ymateb polisi yng Nghymru. Nid oedd yr ymateb i'r cais penodol hwn yn mynd i lefel y manylder yr oeddem wedi gofyn amdani, a byddwn yn ddiolchgar pe gallai eich swyddogion ailedrych ar yr ymateb a roddwyd a darparu ymateb manylach.

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Sue Evans,

Prif Weithredwr,

Gofal Cymdeithasol Cymru

10 Hydref 2023

Annwyl Sue

Y defnydd o staff asiantaeth mewn gwasanaethau plant

Rwy'n ysgrifennu ar ran y Pwyllgor i ofyn am wybodaeth sy'n berthnasol i'n gwaith parhaus ar wasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical.

Rydym wedi siarad â llawer o bobl ifanc ledled Cymru i lywio'r gwaith hwn ac maent wedi codi eu pryderon yn gyson â ni am yr effaith negyddol y mae newid gweithwyr cymdeithasol yn aml yn ei chael ar eu gofal. Mae ansefydlogrwydd y gweithlu yn amlwg yn ffactor yn hyn ac ers peth amser rydym wedi craffu ar y data sydd ar gael i ni a cheisio sefydlu'r ffeithiau ymhellach a chanfod maint y mater hwn.

Eglurhad ynghylch data ar y defnydd o staff asiantaeth mewn gwasanaethau plant.

Ar 14 Medi 2023, gwnaethom gynnal sesiwn graffu ddilynol gyda'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'i swyddogion am ein hadroddiad ar ddiwygio radical i blant sydd wedi bod mewn gofal. Yn ystod y cyfarfod hwnnw roedd dryswch ynghylch rhywfaint o ddata a ddarparwyd i ni drwy e-bost ym mis Ebrill yn dilyn ymlaen o wybodaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru ym mis Mawrth 2023

Ar ein cais ni, ym mis Ebrill 2023, eglurodd Gofal Cymdeithasol Cymru wrthym drwy e-bost fod 49 y cant o staff gwasanaethau plant yn weithwyr asiantaeth. (Gweler yr atodiad i'r llythyr hwn). Fodd bynnag, yn ein cyfarfod ar 14 Medi dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym ei bod yn credu mai nifer y staff oedd y ffigur hwn: bod 49 o staff unigol y gwasanaethau plant yn weithwyr asiantaeth.

Felly, byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallech egluro'r canlynol:



Senedd Cymru
Welsh Parliament

1. A yw'r ffigur hwn o 49 o Ebrill 2023 yn ganran neu ai nifer y staff unigol ydyw?

2. O fis Medi 2023, beth yw cyfanswm nifer y staff gofal cymdeithasol plant yn y gweithlu yng Nghymru? (ynghyd â'r gyfradd swyddi gwag a chanran y staff asiantaeth)

3. O fis Medi 2023, beth oedd cyfanswm nifer y rolau gweithiwr cymdeithasol cymwysedig o fewn y gweithlu gofal cymdeithasol plant yng Nghymru? (ynghyd â'r gyfradd swyddi gwag a chanran y staff asiantaeth)

Cyfrifoldeb am gasglu a chyhoeddi data'r gweithlu, gan gynnwys data asiantaeth

4. Pwy sy'n gyfrifol am gasglu a chyhoeddi data ar gyfraddau swyddi gwag a'r defnydd o staff asiantaeth mewn gofal cymdeithasol plant?

5. Pa mor aml y mae'r data hyn yn cael eu casglu.

6. Beth yw eich barn am rinweddau cyhoeddi data blynyddol fel yn Lloegr a pha asiantaeth fyddai'n gyfrifol am fwrw ymlaen â hynny:

   Ystadegau: gweithlu gwaith cymdeithasol plant

   Gweithlu gwaith cymdeithasol plant: athreuliad, llwyth achosion a'r gweithlu asiantaeth

   Astudiaeth hydredol o weithwyr cymdeithasol plant a theuluoedd,

Diolch am y wybodaeth rydych chi eisoes wedi'i rhoi i ni. Byddem hefyd yn ddiolchgar am unrhyw ddata gweithlu perthnasol eraill y credwch a allai fod yn berthnasol i'r ymchwiliad hwn.

Rydym yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn gywir



Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Annex A

Prynhawn da [redacted] Good afternoon [redacted]

I hope all is well.
The answer to your specific question is it that 56% then 49% of all children's services staff were agency workers.

More generally, statistics on use of agency staff will be collected by the 22 local authorities and reported to Welsh Government as I understand it. The data is not collected by Social Care Wales.

Best wishes,

[redacted]

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

[redacted]

Mwy na swydd
Not just a job
Gofalwn.cymru | WeCare.wales

Cymraeg
Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Ni fydd hwn yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh. This will not lead to a delay in responding.

Gwefan/Website: gofalcymdeithasol.cymru / socialcare.wales
@GofCymdeithasol / @SocialCareWales

**From:** [redacted] (Staff Comisiwn y Senedd | Senedd Commission [redacted]
**Sent:** 11 April 2023 08:32
**To:** [redacted]
**Subject:** RE: Correspondence from the Children, Young People and Education Committee

This is the first time you've received an email from this sender. Make sure this is someone you trust.

Good morning Sue and colleagues,

I hope that you're well and had a nice Easter break.

Thank you for providing written evidence to the Committee in relation to our inquiry into care experienced children. I was hoping you might be able to clarify something for me in relation to your submission, please. Page 6 of your submission states in relation to the use of agency workers:

*Some data suggests that the use of agency workers in children's services has decreased slightly over the course of the year from 56 in 2021 to 49 in 2022. 85.6% of all agency staff utilised in children's services were for qualified social workers. However, this data is collected through engagement similar to a census. This means it is dependent on the validity of the data provided and is a snapshot of that given day, therefore there are limitations to the reporting. Dependency on agency staff remains a key concern as does the risk of agency fees continuing to increase.*

Please could you confirm for me what the highlighted sentence means? Is it that 56% then 49% of children's services used agency workers? Or is it that 56% then 49% of all children's services staff were agency workers? Or something else?

If you could informally point me towards any more published stats on the agency workforce I would be really grateful.

Diolch, | Thank you,

[redacted]

Eitem 5.12

**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: DC/JMSS/00617/23

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd
CF99 1SN

16 Hydref 2023

Annwyl Jayne,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 25 Medi ynglŷn â pheilot Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol Caerdydd a'r Fro a drafodwyd gennym pan wnaethom gyfarfod ar 3 Hydref.

Rwy'n cydnabod pryderon y Pwyllgor ynghylch ein penderfyniad i beidio â darparu cyllid ychwanegol i ymestyn y peilot am flwyddyn arall. Hoffwn eich sicrhau nad yw'r cyllid ar gyfer y peilot wedi cael ei leihau, a bod y prosiect wedi cyrraedd ei ddiwedd fel y trefnwyd ar gyfer mis Tachwedd 2023.

Hoffwn eich sicrhau yn benodol ynghylch sefyllfa'r teuluoedd sydd eisoes yn cael eu cefnogi drwy'r llys, sef pryder yr oeddech yn awyddus i'w bwysleisio. Mae awdurdodau lleol Caerdydd a Bro Morgannwg wedi ein sicrhau y bydd pob teulu sy'n cael ei gefnogi ar hyn o bryd gan y peilot yn parhau i gael cefnogaeth.

Mae'n bosibl y bydd angen ymestyn y cymorth ar gyfer un teulu, ond os bydd hynny'n digwydd mae'r awdurdod lleol wedi dweud wrthym y bydd cynllun ymyrryd cymunedol yn cael ei argymell gyda staff sydd wedi eu hyfforddi ar gyfer y llys, o fewn y tîm Cymorth Teulu Integredig, er mwyn parhau i gefnogi'r teulu dan sylw.

Bydd y gwerthusiad terfynol o'r peilot, a gynhelir ddechrau 2024, yn darparu tystiolaeth i'r Llywodraeth ei defnyddio o ran manteision a heriau gwneud y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn weithredol eto. Bydd yn hanfodol deall y ffordd orau o ddefnyddio model ac egwyddorion y llys, a'u teilwra i sicrhau bod y llys mor effeithiol â phosibl yng nghyd-destun Cymru.

Bydd y gwerthusiad yn sicrhau ein bod yn meddu ar yr wybodaeth briodol sy'n ein galluogi i wneud y penderfyniadau mwyaf priodol ar gyfer plant a phobl ifanc.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n gobeithio bod f'ymateb i bryderon y Pwyllgor o gymorth, yn enwedig o ran y gefnogaeth i deuluoedd sydd yn rhan o'r peilot ar hyn o bryd, a sut y byddwn yn defnyddio'r gwerthusiad fel sail i wneud penderfyniadau yn y maes hwn yn y dyfodol.

Yn gywir



**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

10 Hydref 2023

**Tlodi plant**

Annwyl Jenny,

Diolch i chi am wahodd aelodau o'n Pwyllgor i gymryd rhan yn eich gwaith presennol ar Strategaeth Tlodi Plant Ddrafft Cymru 2023 Llywodraeth Cymru. Mae gwahoddiadau o'r fath yn ein galluogi i wneud cysylltiadau a rhannu tystiolaeth berthnasol i helpu i gryfhau gwaith ein gilydd. Mae hefyd yn helpu i wneud y mwyaf o effaith darnau unigol o dystiolaeth.

Mae fy nghysylltiad â'ch gwaith wedi ein galluogi i nodi rhai materion roeddem am eu dwyn i'ch sylw ac rydym yn gobeithio y bydd hynny o fudd i'ch trafodaethau.

Yn gynharach eleni, lansiwyd ein hymchwiliad yn gofyn a yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant. Mae cwmpas yr ymchwiliad yn cynnwys yr holl ddarpariaeth gofal plant ac ysgol statudol rhwng 0 ac 16 oed, ac mae'n cwmpasu niwroamrywiaeth; anableddau corfforol, synhwyraidd neu ddysgu.

Ochr yn ochr â'n tystiolaeth ysgrifenedig a llafar ffurfiol, rydym wedi bod yn siarad â theuluoedd yn fwy anffurfiol. A hynny drwy ymweliadau ag ysgolion arbennig, Canolfan Serennu yng Nghasnewydd ac ASD Rainbows yn Aberpennar. Rydym hefyd wedi bod yn dod ag enghreifftiau o'n gwaith fel Aelod unigol o'r Senedd.

Mae ein tîm Ymgysylltu â Dinasyddion wedi cynnal dros 30 o gyfweliadau teuluol yn cwmpasu pob ardal yng Nghymru. Er ein bod yn dal i gwblhau crynodeb y gwaith hwn, gallwn rannu rhai o'r

straeon perthnasol â chi. Rydym wedi bod yn clywed tystiolaeth bwerus iawn gan blant, pobl ifanc a'u teuluoedd o'r effaith y mae mynediad anghyfartal at addysg a gofal plant yn ei chael ar bob agwedd ar eu bywydau, a'r effeithiau tymor hwy y gall y mynediad anghyfartal hwn eu cael.

Er ein bod yn dal i gasglu tystiolaeth ar yr ymchwiliad hwn, roeddem am rannu rhywfaint o'r wybodaeth rydym wedi'i chasglu hyd yn hyn sy'n berthnasol i'ch gwaith tlodi plant. Mae hyn yn cynnwys yr effaith y gall diffyg gofal plant hygyrch a darpariaeth ysgol ei chael ar allu rhiant/gofalwr i weithio, yn ogystal â'r costau ychwanegol y mae'n rhaid i'r teuluoedd hyn eu talu.

Er ein bod wedi casglu ystod o dystiolaeth ar y mater hwn, nid oedd yn llinyn penodol o'n cylch gorchwyl. Felly mae'n bosibl, pe bai hyn wedi'i gynnwys yn y cylch gorchwyl, y byddem wedi casglu mwy fyth o wybodaeth. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod hyn wedi dod yn thema glir drwy’r dystiolaeth yn awgrymu ei fod yn fater mawr i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Byddwn hefyd yn ysgrifennu at Weinidog yr Economi a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ar y materion hyn, ond roeddem am sicrhau y gellid ystyried y dystiolaeth berthnasol ar gyfer eich gwaith presennol. Byddwn hefyd yn anfon copi atoch o'r ohebiaeth â'r Gweinidogion hyn yn y dyfodol.

## Rhwystrau sy'n atal rhieni a gofalwyr rhag gweithio

Mae gennym nifer o dystiolaethau personol gan deuluoedd sydd naill ai'n methu gweithio o gwbl neu sy'n methu gweithio nifer yr oriau yr hoffent weithio oherwydd na allant gael mynediad at y gofal plant iawn. Mae'r mater hwn yn parhau i lawer o deuluoedd wrth i'r plentyn fynd yn hŷn a mynd i'r ysgol.

### Cael mynediad at ofal plant cynhwysol

Clywsom dystiolaeth bwerus gan riant a oedd yn gweithio ym maes nyrsio pediatrig sydd, ar hyn o bryd, ar seibiant gyrfa o swydd y mae’n hoff iawn ohoni oherwydd nad yw wedi gallu sicrhau gofal plant priodol. Pan ddaeth o hyd i ofal plant ymhen amser, nid oedd yn gallu cynyddu'r oriau, er ei fod yn barod i dalu am hyn ei hun. Mae'r rhiant yn parhau i fethu gweithio oherwydd nad yw bellach yn gallu sicrhau darpariaeth gofleidiol o ddarpariaeth feithrin yr ysgol.[1]

Dyfynnodd Mudiad Meithrin riant sengl a oedd “wedi gorfod rhoi’r gorau i’w gwaith oherwydd nad oedd cyllid ar gael i’w phlentyn ag anghenion dwys i fynychu gofal cofleidiol ar safle’r ysgol erbyn hyn”. Dywedodd y rhiant yma ei bod yn haws pan oedd ei merch yn iau ond nad yw’n gallu gweithio nawr oherwydd nad oes gofal plant addas na rhywle sy'n cynnig gofal cofleidiol ar gyfer ei hysgol.

---

[1] Y Pwyllgor PPIA, Nodyn o Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023

Mae'r rhiant wedi sôn bod colli gwaith yn "ergyd ddwbl" oherwydd yr effeithiau ariannol ac iechyd meddwl.[2]

Gellir cael problemau hyd yn oed pan fo gofal plant yn cael ei sicrhau. Soniodd un rhiant am sicrhau lle gofal plant. Roedd nifer o sesiynau ymgartrefu llwyddiannus, ond y diwrnod cyn i'r gofal plant ddechrau, dywedodd y darparwr wrtho nad oedd yn gallu cefnogi'r plentyn. Dywedodd y rhiant ei bod yn ffodus bod ei chyflogwr yn gefnogol ond tynnodd sylw at effeithiau ymarferol ac emosiynol colli lleoliad gofal plant y diwrnod cyn y disgwyliwyd iddo ddechrau.[3]

Tynnodd Mudiad Meithrin sylw at yr effaith y gall materion staffio i ddarparwyr gofal plant ei chael ar allu darparu gofal plant rheolaidd a chynaliadwy. Dywedodd fod rhieni wedi dweud wrtho mai staffio, yn aml, oedd y rheswm nad oedd eu plant yn gallu mynd mor rheolaidd â phlant eraill, ac y bydd yr anghysondeb hwn "yn achosi problemau i rieni/gofalwyr sy'n gweithio…"[4]

Soniodd un o'r rhieni a gymerodd ran yn ein cyfweliadau teuluol nad oedd gofal plant yn gweithio i'w deulu:

> *"… dw i'n cael trafferth ffeindio lle sy'n gallu delio â'i anghenion […] does dim llawer o lefydd sy'n gallu gwneud hynny […]nes i roi cynnig ar ofal plant ac roedd e yno ddwywaith ac o'n nhw ddim yn gallu gwneud iddo fe weithio, o'n i'n gorfod cadw pigo fe lan."*[5]

Rydym wedi clywed am yr ymdrech i gydbwyso cyfrifoldebau gwaith, a'r pwysau y mae hyn yn eu rhoi ar deuluoedd. Dywedodd un rhiant wrthym fod ei fab sy'n gymwys i gael 12 awr o addysg blynyddoedd cynnar yn cael 5 awr yn unig, a bod ganddo hawl i 17 awr o ran gofal plant ond nad yw'n cael dim:

> *"I am left doing a full time job on 5 hours childcare a week. …is missing out on the early years foundation phase he's entitled to. He spends large parts of his days underestimated in front of screens as I have no other way of keeping him occupied so he doesn't cause disturbance while I take work calls, many of which are of a sensitive nature. I work with victims of domestic violence and modern day slavery.*
>
> *As a full time working parent I am reaching crisis point. I have no family members who can care for… I cannot use a childminder as… is impulsive around roads and runs very fast and there is a high risk he would run Into a road and a childminder*

---

[2] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 51, Mudiad Meithrin

[3] Y Pwyllgor PPIA, Nodyn o Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023

[4] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 51, Mudiad Meithrin

[5] Gwaith Ymgysylltu â Dinasyddion y Pwyllgor PPIA (nodyn cyhoeddedig i ddilyn)

*be unable to catch him. I own my own home with a mortgage. I cannot stop work as won't be entitled to benefits."*[6]

At hynny, cododd rhanddeiliaid bryderon am ddarpariaeth gofal plant cynhwysol gyfyngedig. Dywedodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol y canlynol:

> *"Our members are concerned that private nurseries are difficult for children with special education needs and disabilities (SEND) to access to enable parents to go to work. They suggest there is inequitable access to funding for the additional support or equipment necessary to include children with additional needs in settings across Wales - some areas will fund equipment/support while others will not."*[7]

Ond tynnodd Blynyddoedd Cynnar Cymru sylw at y ffaith bod teuluoedd yn aml yn gorfod gwneud iawn am y diffyg cyllid:

> *"If a child needs additional adult support or resources to attend childcare, this can often be limited, for example, if a local authority scheme only offers 5 hours one to one support a week but the child needs to attend for 15 hours to enable the parent to work how is this shortfall managed."*[8]

Dywedodd Oxfam Cymru fod gofal plant yn parhau i fod yn un o'r prif resymau y mae menywod yn economaidd anweithgar. Dywedodd nad yw 25.5 y cant o fenywod economaidd anweithgar yn gweithio oherwydd cyfrifoldebau teuluol a gofal cartref.[9]

### Cael mynediad at ddarpariaeth ysgol gynhwysol

Hyd yn oed pan fydd plant yn cyrraedd yr oedran i gael mynediad at ddarpariaeth ysgol statudol, mae teuluoedd yn canfod bod yn rhaid iddynt fod ar gael drwy'r dydd, sy'n golygu bod gwaith yn amhosibl yn aml.

Soniodd un a ymatebodd i'n hymgynghoriad am y brwydrau parhaus y mae'n eu cael wrth gael mynediad at addysg i'w fab sydd â niwed i'r ymennydd yn dilyn tiwmor ar yr ymennydd.

> *"He is in ….primary has one to one support for 7.5 hours a week!!!!! There have been horrendous behavioural issues in school to the point….. stays in school 20-30 mins unsupervised then has to be collected. The only way…. remains in school currently is if myself or my son go in with him, stay with him, supervise him, try to teach him and ultimately take responsibility for him.*

---

[6] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 04, Unigolyn

[7] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 30, Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol

[8] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 53, Blynyddoedd Cynnar Cymru

[9] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 57, Oxfam Cymru

*"I was working but had to give up my job as what employer will let you leave after 20 minutes on a repeated basis. Childcare options for children with needs are very limited, I'm a single parent with no local family support and am ex husband who is very intermittent in his commitment to my son."*[10]

Dywedodd rhiant arall wrthym fod ei blentyn yn aml yn cael ei "chicio allan o'r ysgol" oherwydd na all y staff ymdopi, ac y cysylltir ag ef dro ar ôl tro i ddod i'w chodi. O ganlyniad, mae'n amhosibl i'r rhiant weithio, gan nad yw'n gwybod pryd y bydd yr ysgol yn ei alw.[11] I riant arall, mae'r amserlen lai y mae ei blentyn yn ei dilyn yn golygu'r canlynol:

*"Dw i wedi gorfod rhoi'r gorau i waith – dw i'n cael fy nosbarthu fel gofalwr, os oedd opsiynau ar gael i fi, byddwn i wedi achub arnyn nhw, o'n i wrth fy modd yn gweithio ond roedd yr amserlen lai'n gwneud pethau'n gyfyngol iawn. Nawr mae'n rhaid i ni oroesi ar fudd-daliadau."*

Aeth ymlaen i ddweud y byddai'n fodlon i'w blentyn ddilyn amserlen lai pe bai "gofal cofleidiol" yn cyd-fynd â hi pan na fydd yn dysgu ond y bydd dan ofal yr ysgol. Byddai hyn yn galluogi'r rhiant i achub ar gyfleoedd gwaith.[12]

Tynnodd Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector sylw hefyd at yr effaith y gall amserlenni llai neu waharddiadau ei chael ar allu teulu i weithio:

*"But we know that where pupils are regularly excluded, actually, parents are far more likely to only be able to work part time because they know that they've got to keep picking them up, and I think SNAP alluded to that—that parents were being disciplined in work. So, an exclusion for a child, apart from them missing out on so much socialisation, let alone education, really has an impact on the whole family and the parents as well."*[13]

Gofynnwyd i un o'r rhieni a gymerodd ran yn ein cyfweliadau teuluol a yw'n gallu gweithio dan oriau ysgol presennol y plentyn, gan ddweud "fyddai neb eisiau fi am ryw ddwy awr y dydd, neb."[14]

Dyfynnodd Oxfam Cymru riant a ddywedodd y canlynol:

*""If you have a disabled child, it is impossible to work full-time. Childcare for disabled children is next to non-existent. School holidays are impossible. They don't even get the same amount of time in school as non-disabled children. Her school day is 30 minutes shorter every day; she has 2.5 hours less schooling per week than her non-disabled sibling!*

---

[10] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 12, Unigolyn

[11] Gwaith Ymgysylltu â Dinasyddion y Pwyllgor PPIA (nodyn cyhoeddedig i ddilyn)

[12] Gwaith Ymgysylltu â Dinasyddion y Pwyllgor PPIA (nodyn cyhoeddedig i ddilyn)

[13] Y Pwyllgor PPIA, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 292

[14] Gwaith Ymgysylltu â Dinasyddion y Pwyllgor PPIA (nodyn cyhoeddedig i ddilyn)

*We have to use hours meant to be for respite to cover the gap between school finishing (early because she doesn't get a full school day - why??) and work finishing. Disability discrimination at its finest."*[15]

Dywedodd Fforwm Cymru Gyfan hefyd wrthym am y ffactorau gofal eraill a allai effeithio ar allu rhiant/gofalwr i weithio:

> *"... That lack of specialised support—and this is extensive, because that specialised support could be tube feeding, it could be toilet changes, it could be sensorial needs, it could be specialised autism support—the lack of that means that the parent is going to have to have an impact on their own life and employment, having to come and pick up the child early, being reprimanded both from the school and their job, but also it's watching your child struggle through years of education and having to make the decision of, 'Am I going to watch my child struggle or am I going to put my well-being in second place, my job, my interests, my life, and stay at home and home school my child?'"*[16]

Rydym hefyd yn clywed enghreifftiau o deuluoedd sy'n teimlo mai addysg yn y cartref yw'r unig ddewis i'w plant:

> *""I've always had to homeschool my child. The schools around where we live wouldn't take them and the nearest school was so far away logistically it wouldn't make sense, we would have spent all day travelling back and forth and with my child's disabilities, that wouldn't be possible." Ceredigion"*[17]

## Mynediad at ofal plant ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau

Mae problemau sylweddol hefyd gyda theuluoedd yn gallu sicrhau darpariaeth gynhwysol mewn clybiau ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau. Mae rhieni a gofalwyr wedi sôn mai dim ond swyddi sy'n cynnig gweithio yn ystod y tymor y gallant eu gwneud, neu orfod rhoi'r gorau i weithio'n gyfan gwbl. Efallai yr hoffech fod yn ymwybodol o'r adroddiad gan Contact ar ddarpariaeth clybiau yn ystod y gwyliau i blant anabl.

Rhoddodd Adele Rose-Morgan, sy'n ymgyrchydd addysg gynhwysol, dystiolaeth ar ran Anabledd Dysgu Cymru a soniodd am geisio cael mynediad at ofal plant i'w mab:

> *"On childcare, we eventually moved him to a unit for deaf children, because we found out late that he was deaf, and there was a breakfast club there. He could only go there with support, and the support came from a fund outside of*

[15] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 57, Oxfam Cymru

[16] Y Pwyllgor PPIA, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 296

[17] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 05 Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector

*education. And at one time, the funding criteria changed, and my husband's wage had gone up a little bit, so it was outside the criteria. So, the headmistress called me in and said, 'Look, you're no longer entitled to this but we will pay it'—out of the parental contributions that they used to collect. I just couldn't do that, so I used to just pay for the breakfast club. I used to give £10. It was one day a week, just so he had that social inclusion. I also refused a taxi. I insisted on taking him, and I was able to do it. He was my youngest, and we were able to have a second car, so it worked. He started and finished at different times. That posed a problem because the private childcare within the school didn't start their session until 10 minutes after he'd finished, and they weren't sure, because he would need one to one, whether it would cost a lot more. I applied for a job and I couldn't pursue that because I couldn't work out the childcare around that."*[18]

Dywedodd rhiant sy'n aelod o Fforwm Rhieni Ofalwyr Abertawe:

*"My child is now 12. He still needs childcare. At the same age I was able to leave his sister for short periods of time. He cannot access holiday schemes, childminders as he would need 1:1 care and the cost makes this inaccessible and he is too old for private nurseries. Breakfast clubs and after school clubs are not an option because the school cannot afford to cover 1:1 and still run these. I can't work as a result"*[19]

## Effeithiau ar deuluoedd

Fel y gwelwch o'r enghreifftiau uchod, mae rhieni'n gorfod rhoi'r gorau i swyddi/yrfaoedd er mwyn gofalu am blant. Mewn rhai achosion oherwydd y cyfrifoldebau gofalu ar draws y teulu, mae'r ddau riant/ofalwr wedi gorfod rhoi'r gorau i weithio. Gall straen ymdopi â'r pwysau hyn arwain at chwalu teuluoedd a fydd yn cael effaith ar incwm yr aelwyd.[20] Dywedwyd wrthym fod pedair priodas o bob pump â phlentyn anabl yn methu.[21] Dywedodd Sparkle fod perthnasoedd yn aml yn chwalu oherwydd na all rhieni dreulio amser o ansawdd gyda'i gilydd na rhannu profiadau oherwydd eu bod yn aml yn 'llongau sy'n mynd heibio yn y nos' yn colli ei gilydd oherwydd y bydd un rhiant yn gweithio pan fydd y llall gartref, oherwydd na allant weithio ar yr un pryd oherwydd diffyg gofal plant.[22]

Soniodd un ymatebwr am yr effaith benodol ar ei deulu:

---

[18] Y Pwyllgor PPIA, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 122

[19] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 55 Fforwm Rhieni Ofalwyr Abertawe

[20] Y Pwyllgor PPIA, Nodyn o Grŵp Ffocws Oak Hill, 15 Medi 2023

[21] Y Pwyllgor PPIA, Nodyn o'r ymweliad ag Ysgol Bryn Derw, 29 Mehefin 2023

[22] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 36, Cadeirydd, Sparkle

*"….Because of his needs I was not able to find any childcare for him at all. This meant his father had to give up work to care for him and this eventually helped contribute to the breakdown of our nuclear family as financial pressures were building. The rate of divorce in families with a child with disabilities is far higher than the average population because of the isolation from society and lack of support that other parents can access."*[23]

Yn y gwaith ymchwil y mae wedi'i wneud, mae Sparkle wedi tynnu sylw at y canlynol:

*"Parents talk of finding jobs that fit around their family commitments, rather than jobs they are qualified for or would enjoy. Many parents work at supermarkets because they can work around school hours or late in the evenings when another parent is home. These are specific employment restrictions and considerations that families with typically developing children may not face."*[24]

Bydd heriau sicrhau cyflogaeth sy'n cyd-fynd â chyfrifoldebau gofalu hefyd yn llawer mwy o broblem yn y tymor hir i'r teuluoedd hyn:

*"Another parent commented that when someone has a child with a disability their expectations surrounding parenting have to change; most parents expect that when their child is around 12/13 years old, they'll be able to spend an hour home alone after school, meaning the parent can work typical '9-5' hours. However, parents of children with disabilities are not able to do this due to their child's high support needs; they describe their child's lack of cognitive development as essentially meaning they care for a 12/13 year old toddler, and as they have no sense of danger they cannot be left alone for any time. Parents therefore have no choice but to be at home with their child if they cannot source appropriate childcare, limiting their employment options and the number of hours they can work."*[25]

Bydd hyn hefyd yn cael effaith ar allu rhieni/gofalwyr i weithio, ynghyd â'r costau ychwanegol a all ddeillio o addysgu yn y cartref.

### Effaith ar incwm aelwydydd yn y tymor hir

Yn ogystal â lleihau incwm yn y presennol, mae'r materion hyn yn arwain at effaith ar incwm yr aelwyd yn y tymor hir. Yn benodol, mewn perthynas ag incwm yr aelwyd yn gyffredinol, incwm pensiwn neu achosi cyfyngiadau ar allu teulu i brynu neu rentu cartref o'i ddewis mewn ardal o'i ddewis. Dywedodd un rhiant nad oedd wedi gallu gweithio ers 15 mlynedd oherwydd diffyg gofal

[23] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 31, Unigolyn

[24] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 36, Cadeirydd, Sparkle

[25] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 36, Cadeirydd, Sparkle

plant priodol ac, o ganlyniad, nad oes ganddo bensiwn, sy'n arwain at yr angen am fwy o gymorth gan y wladwriaeth. Dywedodd pe bai wedi gallu cael mynediad at ofal plant, y byddai wedi gallu gweithio, gan leihau ei ddibyniaeth ar gymorth y wladwriaeth ac arbed arian i'r wladwriaeth.[26] Dywedwyd wrthym hefyd fod methu gweithio'n cyfyngu ar gyfleoedd yn y dyfodol - fel y dywedodd rhywun, 'mae'n newid eich dyfodol.'[27]

### Costau ychwanegol y mae teuluoedd â phlant anabl yn eu hwynebu

I lawer o deuluoedd, maent yn wynebu costau ychwanegol sy'n lleihau incwm yr aelwyd ymhellach. Mae llawer o'r costau hyn ar gyfer gwasanaethau neu gyfarpar y maent yn teimlo na ddylai'r teulu unigol eu talu.

#### Costau gofal plant

Mae hyn yn dechrau'n gynnar gyda chostau gofal plant. Mewn grŵp ffocws, dywedodd un rhiant wrthym fod yn rhaid iddi dalu am ddarpariaeth gofal plant breifat i'w phlentyn anabl, ac eto roedd darpariaeth wedi'i hariannu i blant nad oeddent yn anabl.[28] A chododd y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth hefyd bryderon am gost darpariaeth breifat arbenigol, gan ddweud y canlynol:

> *"Even where specialist private provision exists, the financial cost can be a significant barrier. Families tell us they feel discriminated against in accessing free childcare because mainstream public-run nurseries often do not cater to their child."*[29]

Dyfynnodd Oxfam Cymru riant a oedd â phlant ag ystod o anghenion gwahanol bod cost gofal plant wedi ei gwneud yn amhosibl iddo ddychwelyd i'r gwaith.[30]

Dyfynnodd Mudiad Meithrin riant nad yw wedi gallu cael mynediad at ofal yn ystod y gwyliau/seibiant, gan ddweud y canlynol:

> *"'Dydyn ni ddim yn gymwys am [respite] chwaith ac yn gorfod talu ffrind i'r teulu i wneud hyn i ni.* Mae'r gwyliau yn hunllef. Mae angen mwy o help a chefnogaeth. Mae e'n costio'n ddrud i ni. Mae ein mab gymaint drutach na phlant eraill felly rhaid i ni barhau i weithio ar ychydig iawn o gwsg ac ychydig iawn o hoe er mwyn ariannu yr anghenion ychwanegol. Mae'n unig ac rydym wedi ymlâdd."[31]

#### Costau cyfarpar/trafnidiaeth

---

[26] Y Pwyllgor PPIA, Nodyn o Grŵp Ffocws Oak Hill, 15 Medi 2023

[27] Y Pwyllgor PPIA, Nodyn o'r ymweliad ag Ysgol Bryn Derw, 29 Mehefin 2023

[28] Y Pwyllgor PPIA, Nodyn o Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023

[29] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 05 Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector

[30] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 57, Oxfam Cymru

[31] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 51, Mudiad Meithrin

Soniodd rhieni y gwnaethom siarad â hwy fel rhan o'n gwaith ymgysylltu â dinasyddion am y costau ychwanegol y mae eu teuluoedd yn eu hwynebu:

> "Gallwch chi fod yn sicr bydd unrhyw beth ag "anhenion arbennig" yn y teitl yn costio mwy nag unrhyw beth arall."

A dywedodd rhiant arall y canlynol:

> ""*Pan fyddwch chi'n siarad â rhieni unrhyw un ag anabledd, er mwyn cyflawni'r pethau hoffech chi i'ch plentyn gael, mae'n rhaid mynd ymhellach i ffwrdd fel arfer.* Ac mae'n mynd yn ddrud wedyn."[32]

Rydym wedi clywed enghreifftiau o deuluoedd yn gorfod darparu cyfarpar arbenigol i'w ddefnyddio yn y lleoliadau gofal plant a meithrin.[33] Gall y cyfarpar hwn fod yn ddrud iawn yn aml. Tynnodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol sylw bod cytundebau partneriaeth ar draws iechyd ac addysg mewn rhai ardaloedd sy'n galluogi prynu ac ailgylchu cyfarpar o'r fath, ond nad yw hyn yn gyson ar draws Cymru.[34]

Dywedodd rhiant myfyriwr coleg wrthym ei fod wedi cael dyfynbris tâl wythnosol £178 am dacsi hygyrch i fynd â'i blentyn i'r coleg. Ond, pe bai'n byw mewn awdurdod lleol cyfagos, byddai hyn yn cael ei ariannu'n llawn. Pan gododd yr anghysondeb hwn yn y ddarpariaeth, dywedwyd wrtho na ddylai ei blentyn fod wedi cofrestru yn y coleg pan oedd yn gwybod nad oedd ganddo gludiant. O ganlyniad, mae'r rhiant wedi gorfod newid ei batrwm gwaith i'w alluogi i fynd â'i blentyn i'r coleg, gyda'r tacsi'n casglu ei blentyn. Mae hyn yn dal i gostio £88 yr wythnos. Dywedodd ei blentyn wrthym y gall pobl ifanc nad ydynt yn anabl gael cymorthdaliadau i leihau cost cludiant, ond nad yw hyn ar gael i bobl ifanc anabl.[35]

## Cael mynediad at gymorth preifat

Clywsom enghreifftiau o bobl naill ai'n cael mynediad at gymorth preifat, neu'n dymuno y gallent fforddio cael mynediad at gymorth preifat.

Dywedodd un rhiant, yr amheuir bod awtistiaeth gan ei blentyn, fod ei blentyn wedi bod yn aros am asesiad ers mis Ebrill 2021 (er y dechreuodd y ceisiadau am asesiad yn gynharach fyth.) Ni fydd ei blentyn yn cael asesiad tan fis Ebrill 2024, ac ers i'w blentyn fynd ar y rhestr aros, mae'r rhestr wedi ymestyn, ac oddeutu 3 blynedd yw'r amser aros erbyn hyn.[36] Soniodd teulu arall am aros am 7.5 mlynedd wrth sicrhau diagnosis, ac yn y cyfnod hwnnw mae iechyd meddwl y plentyn wedi dirywio'n

---

[32] Gwaith Ymgysylltu â Dinasyddion y Pwyllgor PPIA (nodyn cyhoeddedig i ddilyn)

[33] Y Pwyllgor PPIA, Nodyn o Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023

[34] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 30, Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol

[35] Y Pwyllgor PPIA, Nodyn o Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023

[36] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 10, Unigolyn

ofnadwy ac mae wedi ceisio lladd ei hun ddwywaith.[37] Dywedodd Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant fod yr amser aros am asesiad awtistiaeth/ADHD yn amrywio rhwng 47 a 166 o wythnosau ar draws Cymru.[38]

Yn y cyd-destun hwn, nid yw'n syndod felly ein bod wedi clywed am deuluoedd yn cael diagnosis preifat os ydynt mewn sefyllfa i wneud hynny. Yn amlwg, mae'r cyfnod aros hwn yn amser sy'n cael ei golli wrth sicrhau bod plentyn yn cael y cymorth cywir, ac mae'n amser na ellir ei adennill o ran deilliannau addysg na llesiant emosiynol a meddyliol ehangach. Ond gall hyn ddod ar gost ariannol enfawr, ac yn amlwg mae'n cadarnhau anghydraddoldeb ymhellach, gan na fydd pawb yn gallu ariannu cymorth preifat. Soniodd un teulu mai £6,000 yw'r gost bosibl ar gyfer asesiad dau blentyn mewn un teulu yr oedd arnynt angen asesiad.[39] Dywedodd teulu arall wrthym nad oes ganddo'r modd ariannol ar gyfer cymorth cyfreithiol os bydd ei angen, ac nad oes ganddo gartref y gellir ei ailforgeisio i ddarparu cymorth preifat i'w blant.[40]

Gwnaeth y rhiant a soniodd am chwalfa ei berthynas o ganlyniad i'r straen ariannol a roddwyd arno (gweler uchod), hefyd bwysleisio bod yn rhaid iddo gael benthyciadau i gael mynediad at ofal iechyd preifat:

> *"Indirectly, we have been adversely impacted because of the financial strain of losing one income. This was a factor in causing our family to split and father and I are now divorced. The lack of external help caused us to seek out private speech and language appointments as the wait was nearly 2 years to be seen despite not talking. He also had extreme pain every night due to compacted ears and because of his ALN he would need to be put under a general anaesthetic to have this treated. We ended up taking out loans to pay for this privately to ease his pain. Neurotypical children could have been treated with microsuction while awake. He also had bi lateral grommets inserted as he was found to have glue ear (being non verbal he cannot explain the pain he has) and it was not until 3 years after he started screaming in pain every night that he finally saw an ENT on the NHS. I don't know how we would have survived had we not sought private surgery on his 3rd birthday."*[41]

Rydym hefyd wedi clywed am gostau cyfreithiol gorfod mynd drwy dribiwnlysoedd i sicrhau cymorth priodol i'w teuluoedd.

---

[37] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 33, Unigolyn

[38] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 49, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant Cymru

[39] Y Pwyllgor PPIA, Nodyn o Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023

[40] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 33, Unigolyn

[41] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 31, Unigolyn

## Effaith yr argyfwng costau byw

Rydym hefyd wedi clywed bod yr argyfwng costau byw yn atal teuluoedd rhag cael mynediad at weithgareddau a allai fod o fudd i'w plant. Dywedodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol y canlynol wrthym:

> *"Occupational Therapists report that the cost-of-living crisis is affecting opportunities for children and young people to benefit from extra-curricular activities. 56% of Welsh survey respondents said families were cutting back of activities that would support their child's health, development and wellbeing (such as swimming lessons) due to their cost."*[42]

## Taliadau uniongyrchol

Er ei fod y tu allan i gwmpas yr ymchwiliad, rydym hefyd wedi clywed am broblemau sylweddol gyda'r system taliadau uniongyrchol. Yn enwedig y baich gweinyddol a'r heriau o ran sicrhau cynorthwywyr personol.[43] Rydym wedi clywed bod y weinyddiaeth yn llethol. Dywedodd un o'r rhieni y canlynol:

> *"Dw i ddim yn teimlo bod y taliadau uniongyrchol yn rymusol neu'n gwneud beth maen nhw i fod i wneud.* Does dim lle yn eich pen i ddelio â phethau fel maen nhw'n digwydd. Rydych chi'n bwyta'r mêl o'r cwch. Rydych chi'n trio ymdopi â'r heriau dyddiol. Ac mae cymaint ohonyn nhw - mae gen i un plentyn sydd eisiau mynd fel mellten i bren, yn cael ei lethu os yw'n llwglyd neu'n oer neu'n boeth, mae'n methu aros, does dim amynedd 'da fe o gwbl ac mae gen i blentyn arall sy'n gaeth i gadair olwyn gan mwyaf, sy'n methu gwneud popeth yn gyflym, ac mae'n rhaid bod yn amyneddgar."[44]

Rydym yn cydnabod bod hwn yn fater sydd heb ei ddatganoli, ond roeddem am dynnu sylw ato gan y dylai fod yn arf sy'n helpu teuluoedd i gael mynediad at gymorth, ond nid yw'n gweithio fel y dylai wneud.

Rhannodd yr elusen Sparkle waith ymchwil y mae wedi'i wneud, a chodwyd y mater taliadau uniongyrchol gyda hi:

> *"The offer of direct payments to cover the cost of childcare or respite is welcomed, however families are still required to source appropriate workers, a task which families find stressful. Further stress is caused once a suitable person is found as the family have to become an 'employer', calculating wages and tax. Families with*

---

[42] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 30, Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol

[43] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 19, Unigolyn

[44] Gwaith Ymgysylltu â Dinasyddion y Pwyllgor PPIA (nodyn cyhoeddedig i ddilyn)

*children with additional needs rarely have the time to learn about the business side and therefore these arrangements often fail."*[45]

### Cadarnhau anfantais

Rydym yn ymwybodol bod teuluoedd â phlant anabl yn fwy tebygol o fod yn byw islaw'r ffin dlodi, ac y gall hyn wedyn greu rhwystrau ychwanegol iddynt gael mynediad at wasanaethau a chymorth cynhwysol sy'n diwallu anghenion y plentyn a'r teulu ehangach, gan gadarnhau anfantais ymhellach yn y tymor hwy.

Cododd sefydliadau fel Anabledd Cymru bryderon am yr effaith y mae plant anabl yn ei hwynebu sy'n gorfod byw gydag effaith eu hanabledd a'u tlodi, a'r hyn y gall hyn ei olygu ar gyfer deilliannau addysgol plant. Nodwyd gwahaniaethau rhwng nifer y bobl anabl sy'n gadael addysg heb gymwysterau a'r rhai nad ydynt yn anabl.[46]

> *"It is well established that educational outcomes for disabled people differs to non-disabled people. In Wales, from June 2020-2021, 37.9% of non-disabled people's highest qualification was a degree or equivalent, compared to 21.5% of disabled people. In the most even statistics, 21.6% of non-disabled people's highest qualification was a A-level or equivalent, compared to 20.7% of disabled people. 18.8% of non-disabled people's highest qualification was GCSE grade C or above or equivalent, compared to 24% of disabled people. 9.4% of non-disabled people's highest qualification was another form of higher education, compared to 7.3% of disabled people. 5.9% of non-disabled people had no qualifications, compared to the significantly higher 16.4% of disabled people."*[47]

Yn amlwg, gall deilliannau addysgol gael effaith gydol oes ar gyfleoedd unigolyn i ennill arian, fel bod hyn yn ongl arall y mae angen ei hystyried yn y Strategaeth Tlodi Plant. Mae angen meddwl yn ofalus hefyd am groestoriadedd y materion hyn a dylid mynd i'r afael â hwy mewn unrhyw strategaeth wrth geisio lleihau tlodi plant.

Mewn perthynas â'r ddarpariaeth ar gyfer gofal plant, galwodd Oxfam Cymru am hyn, yn enwedig ar gyfer darparu gofal plant a mynediad at addysg gynnar i blant o gefndiroedd ethnig gwahanol a phlant anabl. Dywedodd mai dim ond drwy gydnabod anghenion a heriau unigryw y plant hyn a mynd i'r afael â hwy y gellir sicrhau bod gofal plant ac addysg gynnar yn wirioneddol gynhwysol a theg.[48]

---

[45] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 36, Cadeirydd, Sparkle

[46] Y Pwyllgor PPIA, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 64-65

[47] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 09, Anabledd Cymru

[48] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 57, Oxfam Cymru

Rydym yn pryderu y bydd llawer o'r teuluoedd rydym wedi siarad â hwy yn wynebu cyfuniad o'r holl faterion hyn. Rydym hefyd yn hynod ymwybodol bod ein gwaith casglu tystiolaeth wedi ein galluogi i gymryd “cipolwg” yn unig o dystiolaeth, ac y bydd teuluoedd sy’n cael profiad o faterion eraill nad ydym yn ymwybodol ohonynt.

Byddwn yn parhau i fynd ar drywydd y materion hyn drwy ein hymchwiliad presennol, ond roeddem am sicrhau bod hyn yn cael ei ddwyn i'ch sylw ac y gallai helpu i lywio eich gwaith presennol. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw wybodaeth neu ddatblygiadau perthnasol yn y maes gwaith hwn.

Rwy'n gobeithio y bydd y dystiolaeth hon o fudd i'ch Pwyllgor.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

CLlLC
WLGA

**Dr Chris Llewelyn**
Prif Weithredwr / Chief Executive

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**
**Welsh Local Government Association**

**Un Rhodfa'r Gamlas**
Heol Dumballs
Caerdydd
CF10 5BF
**Ffôn:** 029 2046 8600

**One Canal Parade**
Dumballs Road
Cardiff
CF10 5BF
**Tel:** 029 2046 8600

Ein Cyf / Our Ref: Sep112023
Dyddiad / Date: 13 October 2023
Gofynnwch am / Please ask for: Sharon Davies
Llinell uniongyrchol / Direct line: 07917275203
Ebost / Email: sharon.davies@wlga.gov.uk

Annwyl Ms Bryant,

**Plant a phobl ifanc yn e-smygu mewn ysgolion.**

Diolch am eich llythyr ar 11 Medi ynglŷn â phlant a phobl ifanc yn e-smygu mewn ysgolion ac yn cynnig y wybodaeth ganlynol fel ein hymateb.

Mae ysgolion, wrth gwrs, yn chwarae eu rhan ac mae ganddynt bolisi dim goddefgarwch i unrhyw ddysgwr sy'n e-smygu mewn ysgolion. Mae ysgolion yn cyfathrebu â'u dysgwyr, eu rhieni a'u gofalwyr i sicrhau bod pobl ifanc a'u teuluoedd yn deall y ffeithiau iechyd am e-smygu a gwybod am e-smygu a'r gyfraith. Mae hwn yn fater cynyddol i ysgolion, ac maent yn gweithio'n agos gyda'u cynghorau yn barhaus ar y ffordd orau o fynd i'r afael â'r mater hwn wrth ddarparu'r cymorth a'r cyngor priodol i'r bobl ifanc yn eu hysgolion.

Mae adrannau Safonau Masnach yn ymdrin ag ystod ehangach o statudau a rheoliadau amrywiol, sy'n cynnwys ymhlith pethau eraill, safonau bwyd, rheoli pwysau a mesurau, diogelwch cynnyrch, credyd defnyddwyr, iechyd a lles anifeiliaid, gwerthiannau dan oed ac ati. Ar gyfer cyd-destun, mae llawer o adrannau bellach yn ymateb i gwynion ac yn gweithredu ar wybodaeth a dderbynnir ac maent yn gyfyngedig yn yr hyn y gallant ei gyflawni'n rhagweithiol.

Mae gwerthiant o dan oed ystod eang o gynhyrchion yn parhau i fod yn bryder i safonau masnach, a'u nod yw cyfeirio adnoddau i dynnu sylw at gynhyrchion problemus a gweithgaredd busnes lle mae gwerthiant cynhyrchion dan oed a chynhyrchion cyfyngedig yn broblem.

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer 22/23 gan Safonau Masnach yn dangos, ar gyfer e-smygu sy'n cynnwys nicotin, bod 196 ymgais i brynu profion ledled Cymru (nid pob ALl a ddarperir data) wedi cael eu gwneud gan blant dan oruchwyliaeth o

Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.
Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language. Use of either language will not lead to a delay.

wlga.cymru
wlga.wales
@WelshLGA

dan 18 oed ledled Cymru (nid pob un o'r Awdurdodau Lleol). O'r 196 ymdrechion, gwerthwyd 49 o weithiau. Cynhaliwyd camau gorfodi dilynol, yn unol â pholisi gorfodi'r awdurdod lleol.

Mae swyddogion Safonau Masnach hefyd yn gweithio gydag ysgolion yng Nghymru i helpu i ddarparu cyngor ac addysg i ddisgyblion. Er enghraifft, yn Ynys Môn, mae swyddogion wedi ymweld ag o leiaf tair ysgol uwchradd yn y cyfnod diwethaf at y diben hwn.


Yn Lloegr, mae'r llywodraeth ganolog wedi cyhoeddi £3m o gyllid i fynd i'r afael â gwerthu sigaréts yn anghyfreithlon. Mae Safonau Masnach yng Nghymru yn trafod achos busnes gyda swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn darparu cynllun tebyg i Gymru.

Mewn perthynas â natur apelgar e-smygu plentyn (sy'n cynnwys nicotin neu fel arall), byddai Safonau Masnach yn cefnogi'r achos dros ddeunydd pacio safonol, nad yw'n apelio atodol.

Hefyd dewch o hyd i gyflwyniad PowerPoint gwybodaeth, a gyflwynwyd gan Safonau Masnach Cymru, i Gyfarwyddwyr Gwarchod y Cyhoedd Cymru, sy'n rhoi rhagor o wybodaeth mewn perthynas â delio â'r broblem hon – gan gynnwys yr angen i dalu am gostau samplu a dadansoddi drud, a storio cynhyrchion anghyfreithlon sydd wedi'u hatafaelu gan swyddogion.

Rwy'n gobeithio y bydd hyn o gymorth i drafodaethau'r Pwyllgor.

Yn ddiffuant,



**Y Cyng /Cllr Ian Roberts**
**Llefarydd Addysg CLILC**
**WLGA Education Spokesperson**

# The vapes market

*and the challenge for local authorities in Wales*



Directors of Public Protection Wales
DPPW
Protecting well-being

Safonau Masnach Cymru
Trading Standards Wales

# In the headlines

## Kids being hospitalised by vaping as youth e-cigarette smoking 'is becoming epidemic'

**A paediatric respiratory consultant issued a shocking warning today as they revealed how children are being admitted to hospital because of vapes - as calls to ban the e-cigarettes grow**

By **Kieren Williams**, **News Reporter**
13:14, 6 Jun 2023 | **UPDATED 10:26, 9 Jun 2023**

9 | BOOKMARK

Young kids are being hospitalised by **vaping** as calls grow to ban **e-cigarettes**.

A paediatric respiratory consultant issued the shocking warning today as they revealed how children are being admitted to hospital because of vapes.

Dr McKean, a doctor at the Great North Children's **Hospital** in Newcastle, said they were seeing a rising number of children developing dangerous lung conditions related to **vaping**.

The vice president for policy at the Royal College of Paediatrics and Children Health (RCPCH) also called for a ban on disposable e-cigarettes as the organisation warned that "youth vaping is fast becoming an epidemic".

Mirror

Directors of Public Protection Wales
DPPW
Protecting well-being

Safonau Masnach Cymru
Trading Standards Wales

# In the headlines

## STARK WARNING I took up vaping instead of cigarettes aged 16 but ended up on life support with organ failure – don't make my mistake

Alice Fuller
Published: 16:49, 27 Jun 2023 | Updated: 16:50, 27 Jun 2023

**A TEENAGER who took up vaping as an alternative to smoking ended up on a life support machine with organ failure.**

Ewan Fisher made the switch in a bid to improve his boxing skills and overall fitness - but he found himself with the lungs of an 80-year-old.

The lad said he was puffing away on fruity e-cigarettes up to 14 times a day, which caused a condition called hypersensitivity pneumonitis.

This occurs when the lungs develop an immune response to something you breathe in, resulting in inflammation of the tissue.

Ewan fell ill the night before he was due to start his GCSE exams aged 16.

He spent eight weeks in intensive care and then needed an artificial lung to keep him alive.

READ MORE ON VAPING



STARK WARNING I took up vaping instead of cigarettes aged 16 but ended up on life...

Safonau Masnach Cymru
Trading Standards Wales

# In the headlines

Tudalen y pecyn 141

THE Sun

EXCLUSIVE

Health > News Health

## DEADLY RISK Urgent warning as vapes contaminated with flesh-eating drug found in Britain

Joe Davies

Published: 21:00, 28 Jun 2023 | Updated: 9:24, 29 Jun 2023

**VAPES contaminated with a deadly, flesh-eating drug have been found in Britain, The Sun can reveal.**

Xylazine, a horse tranquilliser causing havoc with drug users in the US, was discovered in modified e-cigarettes.

Health bosses issued a warning to NHS clinics because it causes skin and tissue necrosis and is easy to overdose on.

Experts said the vapes, which were impounded in Luton, Beds, could kill unsuspecting users.

Abbas Kanani, superintendent pharmacist at Chemist Click, said: “It could have serious and potentially dangerous effects.

“In severe cases, respiratory depression can be life-threatening.”



Health

## BAD HABIT Urgent vape warning as e-cigarettes leave children suffering with collapsed lungs

Harry Goodwin

Published: 23:25, 25 Jun 2023 | Updated: 9:34, 26 Jun 2023

Directors of Public Protection Wales

DPPW

Protecting well-being

Safonau Masnach Cymru
Trading Standards Wales

# Size of the market





- 4.3 million people vape regularly (GB)
- Half a billion vapes bought each year in the UK
- 168 million of these are single use

Directors of Public Protection Wales
DPPW Protecting well-being

Safonau Masnach Cymru
Trading Standards Wales

# Size of the market






Directors of Public Protection Wales
Protecting well-being

Safonau Masnach Cymru
Trading Standards Wales

# Packaging and marketing












Directors of Public Protection Wales
DPPW
Protecting well-being

Safonau Masnach Cymru
Trading Standards Wales

# Packaging and marketing

Tudalen y pecyn 145










Directors of Public Protection Wales
DPPW
Protecting well-being

Safonau Masnach Cymru
Trading Standards Wales

# Underage Sales

- Across Wales, 15% of young volunteer attempts to purchase nicotine containing vapes have resulted in a sale
- Test purchase failure rate is as high as 24% in some areas
- Anecdotal evidence that retailers are not taking underage sales of nicotine containing vapes as ‘seriously’ as underage sales of alcohol or tobacco



Directors of Public Protection Wales
DPPW
Protecting well-being

Safonau Masnach Cymru
Trading Standards Wales

# Illegal vapes and product safety

- Non-compliant with regulations
- Liquid strength greater than 20mg /ml
- Liquid volume greater than 2ml / approx. 600 puffs
- Vapes and liquids not registered with the MHRA
- Presence of heavy metals (e.g. lead, nickel and chromium)
- In one area of Wales in 22-23, 14/37 test purchases (38%) resulted in the sale of illegal vapes
- In the same area there were 37 seizures of illegal vapes (retail value £51k)

Directors of Public Protection Wales
DPPW
Protecting well-being

Safonau Masnach Cymru
Trading Standards Wales

# Links to serious crime

- Concerns that illegal vapes are becoming the new illegal tobacco, but with a wider audience
- Evidence that illegal vapes are being concealed on premises in the same way as illegal tobacco
- Intelligence suggests vapes are being used to groom children and there are CSE concerns at specific premises

Directors of Public Protection Wales

Protecting well-being

Safonau Masnach Cymru
Trading Standards Wales

# Environmental concerns

**Material Focus research in 2022 reported**

- 1.3 million single use vapes are thrown away each week in the UK
- Across all vapes, the equivalent of 23 tonnes of lithium is thrown away per year – equivalent to 3000 batteries for electric vehicles

*Disposal of seized vapes is not straightforward and is proving costly for authorities*

Directors of Public Protection Wales

DPPW

Protecting well-being

Safonau Masnach Cymru
Trading Standards Wales

# Tackling the problem

Announcing the new crackdown on Tuesday, Prime Minister Rishi Sunak said

*'I'm deeply concerned about the sharp rise in kids vaping and shocked by reports of illicit vapes containing lead getting into the hands of school children'*

*'Our new* ***illicit vape enforcement squad*** *– backed by £3million – is on the case, but clearly there is more to do. That is why I am taking further action today to clamp down on rogue firms who unlawfully target our children with these products'*

Crackdown on illegal vapes after LBC exposed scandal of nicotine filled e-cigs sold with no age checks

30 May 2023, 05:21 | Updated: 30 May 2023, 05:22



Rishi Sunak has pledged to crack down on illegal vape marketing, following an LBC investigation. *Picture: Alamy/LBC*

Directors of Public Protection Wales

DPPW

Protecting well-being

Safonau Masnach Cymru
Trading Standards Wales

The UK Government's call for evidence on youth vaping closed in June:

https://www.gov.uk/government/consultations/youth-vaping-call-for-evidence/youth-vaping-call-for-evidence

# What support is needed in Wales ?

- Sampling and analysis of products (reference to a central database to avoid duplication)
- OPSS proposal for disposal of seized vapes through approved WEEE recycling schemes – still the cost of transport to be addressed
- Operational support / detection dogs
- Storage of seized products…



Directors of Public Protection Wales
DPPW
Protecting well-being

Safonau Masnach Cymru
Trading Standards Wales

# Next steps...

- TSW in discussion with Welsh Government
- Business case is being prepared

Directors of Public Protection Wales
DPPW
Protecting well-being

Safonau Masnach Cymru
Trading Standards Wales

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd,
Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay,
Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

16 Hydref 2023

Annwyl Aelodau'r Pwyllgor

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Gorffennaf ynglŷn â'ch pryderon am les myfyrwyr rhyngwladol sy'n astudio yng Nghymru a'r cymorth sydd ar gael iddynt o ran eu hiechyd meddwl a'u profiadau byw ehangach.

Mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o sicrhau bod dinasyddion o wledydd eraill sydd wedi dewis astudio yng Nghymru yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u gwerthfawrogi fel aelodau o'n cymunedau.

Mae gennym feddwl mawr o'r cyfraniad a wneir i'n prifysgolion ac i Gymru gan ein myfyrwyr rhyngwladol, ac yn ei werthfawrogi , nid yn unig yn economaidd ond hefyd i'n galluogi i fod yn genedl groesawgar, amrywiol, sy'n edrych tuag allan. Dyna pam rydym yn cefnogi gweld myfyrwyr a staff rhyngwladol yn dod yma o dramor drwy Taith, ein rhaglen symudedd arloesol. Yn ogystal, rydym yn ariannu prosiectau fel Cymru Fyd-eang, sy'n ceisio annog mwy o fyfyrwyr rhyngwladol i ddewis Cymru fel lle i astudio.

**Llety myfyrwyr**
Nid yw'n dderbyniol bod unrhyw unigolyn yn byw mewn llety sy'n is na'r safon neu'n anaddas. Mae prifysgolion yng Nghymru yn darparu cyngor ac arweiniad i bob myfyriwr, gan gynnwys myfyrwyr rhyngwladol, ar y ffordd orau o ddod o hyd i lety a'i sicrhau cyn iddynt deithio i'w prifysgol. Mae gan brifysgolion gyfrifoldeb i sicrhau bod gwybodaeth a chyngor a ddarperir gan asiantau dan gontract neu is-gontract yn glir ac yn gyfredol, fel y gall darpar fyfyrwyr wneud penderfyniadau cytbwys.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda CCAUC i sicrhau bod myfyrwyr rhyngwladol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau cyn derbyn lle mewn prifysgol.

Pan na fo myfyrwyr yn gymwys i gael lle yn neuaddau preswyl prifysgol, ac yn enwedig pan fydd y myfyrwyr yn teithio gyda'u teuluoedd neu ddibynyddion, fe'u cynghorir i ymchwilio i lety a'i sicrhau cyn teithio. Mewn rhai achosion, mae prifysgolion wedi gweld myfyrwyr rhyngwladol yn cyrraedd gyda dibynyddion heb roi gwybod i'r sefydliad ymlaen llaw. Mae hyn yn rhywbeth y mae'r prifysgolion yn mynd ati i geisio'i ddatrys eu hunain.

**Ymgysylltu â'r gymuned**
Yn ystod yr haf, ymunodd fy swyddogion â chyfarfod traws-sector i fynd i'r afael â phryderon lleol yn ardal Blaenau Gwent y tynnwyd sylw atynt gan aelod o'r pwyllgor, Buffy Williams AS. Dangosodd prifysgolion barodrwydd i gymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau amlasiantaethol ac i barhau i ymgysylltu â gwasanaethau lleol.

Dywedodd prifysgolion fod ymgysylltu â'r gymuned, lle mae unigolion yn cael eu cyfeirio at y gwasanaethau a ddarperir gan y brifysgol, yn cael mwy o effaith. Cafwyd trafodaethau penodol ynghylch nodi'r unigolion a allai fod yn y perygl mwyaf o ran wynebu caledi, fel bod modd cymryd camau adeiladol yn gyflym.

Hefyd, cyflwynodd cynrychiolwyr yr Awdurdodau Lleol wybodaeth am y camau y maent yn eu cymryd mewn perthynas â safonau tai, gwirio lles, a chynnal boreau coffi i gynorthwyo integreiddio cymunedol.

Cynigir y dylid cynnal cyfarfodydd pellach i barhau â'r drafodaeth yn y dyfodol, gan gydnabod bod hwn yn fater cymhleth ac amlasiantaethol.

**Caledi ariannol**
Rydym yn ymwybodol bod myfyrwyr rhyngwladol yn amharod i geisio cymorth ariannol gan brifysgolion fel cyllid caledi oherwydd y cyfyngiadau ynghylch eu fisâu a'r amod bod yn rhaid iddynt allu cynnal eu hunain yn ariannol.

Er fy mod yn gwerthfawrogi efallai na fydd myfyrwyr rhyngwladol yn gymwys ar gyfer pecyn cymorth statudol myfyrwyr Cymru, gallant, wrth gwrs, fanteisio ar y cyllid sylweddol a ddarparwyd gennym i brifysgolion yng Nghymru ar gyfer caledi ariannol ac iechyd meddwl.

Mae prifysgolion yng Nghymru yn cymryd camau o flaen llaw i fynd i'r afael â'r problemau ariannol y mae myfyrwyr rhyngwladol yn eu hwynebu. Dyma rai enghreifftiau:
- Cerdyn credyd wedi'i lwytho ymlaen llaw i'w ddefnyddio ar y campws fel na fydd unrhyw oedi wrth sefydlu cyfrif banc yn eu hatal rhag gallu prynu bwyd
- Prosesau derbyn sy'n asesu bwriad a brwdfrydedd myfyrwyr dros astudio yn ogystal â'u hadnoddau ariannol
- Gwasanaeth llety i helpu i ddod o hyd i rywle i fyw
- Ymgysylltu â chymunedau lleol gan gynnwys banciau bwyd a gwasanaethau eraill
- Gweithredu fel gwarantwr rhent neu gyfeirio at wasanaeth trydydd parti

Rydym yn parhau i gynghori unrhyw fyfyriwr sy'n wynebu anawsterau ariannol i siarad ag undeb myfyrwyr eu prifysgol. Yr undeb myfyrwyr fydd yn y sefyllfa orau i ddarparu cyngor pellach a'u cyfeirio at gymorth arall lle bo hynny'n briodol.

**Newidiadau i reolau fisâu**
Mae'r cynnydd yn nifer y fisâu ar gyfer dibynyddion gan fyfyrwyr sy'n dymuno astudio yng Nghymru wedi bod yn sylweddol ac o bosibl yn fwy na rhagdybiaethau llywodraeth leol wrth fynd ati i lunio'u cynlluniau. Yn dilyn y cyhoeddiad o newidiadau i fisâu myfyrwyr gan

Lywodraeth y DU, ni fydd myfyrwyr bellach yn gallu dod â dibynyddion, oni bai eu bod yn astudio ar gyfer rhaglenni ôl-raddedig ymchwil, ac na allant newid i fisa arall wrth astudio Mae'n debygol y bydd y rheolau newydd hyn yn helpu i leddfu rhai o'r problemau sy'n cael eu profi, ond gan na fyddant yn dod i rym tan 2024, rydym yn cydnabod y bydd heriau lleol yn parhau mewn rhai ardaloedd wrth gael mynediad i ysgolion a llety sy'n addas i deuluoedd.

**Prydau ysgol am ddim**
O ran eich pryder am yr effaith ar ddibynyddion myfyrwyr, yn enwedig eu plant, mae gan blant hawl i gael prydau ysgol am ddim os yw eu teuluoedd yn cael cymorth o dan Ran VI Deddf Mewnfudo a Lloches 1999. Byddem yn annog teuluoedd ac awdurdodau lleol i weithio gyda'i gilydd i wirio'r hawl i gael prydau ysgol am ddim o dan y ddarpariaeth hon.


Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at awdurdodau lleol i'w hatgoffa am eu pwerau disgresiwn (o dan Ddeddf Addysg 1996) i ddarparu prydau bwyd heb godi tâl os nad yw teulu'n bodloni'r meini prawf cymhwystra arferol. Nid yw Llywodraeth Cymru yn nodi pryd y dylid defnyddio disgresiwn lleol. Er enghraifft, gellid ei ddefnyddio pan fo teulu wedi gwneud cais am Gredyd Cynhwysol ond yn aros am eu taliad misol cyntaf.

**Recriwtio rhyngwladol**
Mae amcanion penodol gan brifysgolion yng Nghymru o ran recriwtio myfyrwyr rhyngwladol ar sail eu gweithgarwch fel sefydliad a'u rhaglenni academaidd.

Mae Rhwydwaith Rhyngwladol Prifysgolion Cymru yn ymchwilio i greu cyfres o egwyddorion sydd ganddynt yn gyffredin â'r bwriad o'u cyhoeddi yn hwyrach yn y flwyddyn. Disgwylir y gall yr egwyddorion hyn gynnwys cyfeirio ac atgyfeirio i awdurdodau lleol, cyngor ac arweiniad i fyfyrwyr, a dulliau eraill o gynorthwyo recriwtio a mynd i'r afael ag anghenion myfyrwyr.

Rwy'n gobeithio y bydd hyn yn tawelu eich meddyliau ac yn rhoi sicrwydd i chi ein bod wedi ymrwymo i gefnogi ein myfyrwyr rhyngwladol a'u teuluoedd yn llwyr pan fyddant yn dewis astudio a byw yng Nghymru.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language